

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO	GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE
DYDD IAU, 18 EBRILL 2024 am 2:00 y. p.	THURSDAY 18 APRIL, 2024 at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM	COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Euryrn Morris (*Diprwy Gadeirydd*), Margaret M. Roberts

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Ieuan Williams

LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR

Keith Roberts

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

Liz Wood

AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS

Dilwyn Evans (*Cadeirydd*), William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024.

3 **ADOLYGIAD O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 11 - 24)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 25 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

5 **MATERION A RISGIAU SY'N WEDDILL** (Tudalennau 33 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

6 **STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2024-25** (Tudalennau 43 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

7 **SIARTER ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 59 - 70)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 **ADOLYGIADAU CENEDLAETHOL A'U HARGYMHELLION CYSYLLTIEDIG 2023** (Tudalennau 71 - 98)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

9 **ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU** (Tudalennau 99 - 116)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

10 **ARCHWILIO ALLANOL: CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2023 - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 117 - 122)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

11 **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 123 - 130)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

12 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 131 - 132)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol: -

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.”

13 **ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELWCH SEIBER 2023-24** (Tudalennau 133 - 142)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024

YN BRESENNOL:	<p>Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) Y Cynghorydd Eurn Morris (Dirprwy Gadeirydd)</p> <p>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Keith Roberts, Margaret M. Roberts.</p> <p>Aelodau Lleyg: Michael Wilson, William Parry, Mrs Sharon Warnes</p>
WRTH LAW:	<p>Dirprwy Brif Weithredwr (ar gyfer eitem 4) Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitemau 3 a 4) Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 4) Pennaeth Archwilio a Risg Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitemau 8 a 9) Rheolwr Tîm TG (MH) Rheolwr Seilwaith TG (MD) (ar gyfer eitem 14) Swyddog Diogelu Data a Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol (HP) (ar gyfer eitem 3 a 4) Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch (SN) (ar gyfer eitem 5) Swyddog Diogelu Data Ysgolion (EW) (ar gyfer eitem 4) Peiriannydd Diogelwch Seiber TGC (CCT) (ar gyfer eitem 14) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gweddarlledu (FT)</p>
YMDDIHEURIADAU:	<p>Y Cynghorwyr Ieuan Williams, Liz Wood.</p>
HEFYD YN BRESENNOL:	<p>Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid), Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Lora Williams (Archwilio Cymru), Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg), Gwyndaf Parry (Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol), Nanette Williams (Prif Archwilydd), Julie Jones (Rheolwr Yswiriant a Risg), Sara Jones (Cyfrifydd dan Hyfforddiant).</p>

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Eurn Morris ddatgan diddordeb personol yn unig mewn perthynas ag eitem 3 ar y rhaglen gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd.

2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Medi 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi o'r cofnodion –

- Darllenodd y Cadeirydd ddatganiad a oedd yn esbonio pam nad oedd yr elfennau o'r cynllun datblygu yn gysylltiedig â'r Broses Reoli Cwynion a drafodwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor yn debygol o gael eu cyflawni. Esboniodd y Cadeirydd mai methiant unigol yn hytrach na methiant systematig oedd i gyfrif am yr anallu sy'n cael ei ragweld o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Er hynny, mae camau priodol wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r broblem ac mae cefnogaeth yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r problemau amrywiol a nodwyd o ran darparu gwasanaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 hefyd fod y mater yn derbyn sylw trwy reolwyr busnes y gwasanaethau ac mae'n derbyn sylw mewn perthynas â hyfforddiant a phrosesau a systemau busnes y Cyngor a sut y cânt eu monitro.

- Cadarnhawyd fod y ddogfen Canllawiau Diogelu Data Ysgolion ar gyfer llywodraethwyr ysgol wedi cael ei dosbarthu i holl aelodau etholedig y Cyngor.
- Eglurwyd bod y cyfeiriad at lefel perthnasedd o dan eitem 4, mewn perthynas â thrafodion partïon cysylltiedig ar gyfer unigolion, sef £10,000, a Thâl Uwch Swyddogion, sef £1,000, wedi'i gymryd o adroddiad ISA 260 yr Archwilwyr.
- Mewn perthynas â Chyfrifiadura Cwmwl, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cwblhau adolygiad o Reolaeth Cwmwl ym mis Ebrill 2023 a chyflwynwyd y canfyddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Ebrill 2023. Mae'r dogfennau wedi cael eu hailddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor.
- Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Holiadur ar Anghenion Hyfforddi'r Pwyllgor wedi cael ei rannu eto gydag aelodau'r Pwyllgor.

3. LLYWODRAETHU GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (SIRO) 2022/23

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn darparu datganiad a throsolwg yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth o sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ar gyfer trin gwybodaeth gorfforaethol a chodau ymarfer perthnasol.

Pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen
- Trefniadau ar gyfer monitro'r defnydd o systemau teledu cylch cyfyng ac ymateb i geisiadau am luniau teledu cylch cyfyng gan gorff allanol
- Yr angen i sefydlu canllawiau, polisi a phrosesau ar gyfer y defnydd o dechnoleg drôn sy'n esblygu, yn hytrach na chaniatáu i'r defnydd ddatblygu'n *ad-hoc*.

Dywedodd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth wrth y Pwyllgor fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn derbyn gwybodaeth am berfformiad y Cyngor wrth ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, a hynny trwy gyfrwng yr adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio sydd i'w weld ar wefan y Cyngor. Nid oes gan y Cyngor wybodaeth gorfforaethol gynhwysfawr am ddefnydd y Gwasanaethau o deledu cylch cyfyng o ran niferoedd y camerâu, eu lleoliad a'u gweithrediad nac am brosesu'r wybodaeth, gan gynnwys rhannu data gydag unrhyw

drydydd parti, a dyma pam yr argymhellir y dylid gofyn i'r Tîm Arweinyddiaeth gynnal asesiad o'r defnydd o deledu cylch cyfyng. Penaethiaid Gwasanaeth sy'n penderfynu ar geisiadau am fynediad a sut yr ymdrinnir â nhw ar hyn o bryd, ond y nod yw rhoi trefniadau ar waith i sicrhau trosolwg corfforaethol o'r prosesau hynny er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. O ran technoleg drôn, cadarnhaodd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth mai'r cam cyntaf fydd sefydlu faint o ddefnydd y mae gwasanaethau'n ei wneud neu'n bwriadu ei wneud o'r dechnoleg ac yna gellir datblygu polisi neu broses, fel sy'n briodol, i sicrhau fod gwasanaethau'n meddu ar y caniatâd angenrheidiol.

Penderfynwyd –

- **Derbyn yr adroddiad fel adlewyrchiad cywir o faterion Llywodraethu Gwybodaeth yn y Cyngor ar gyfer y cyfnod perthnasol.**
- **Caniatáu i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ofyn i'r Tîm Arweinyddiaeth i:-**
 - **asesu defnydd y Cyngor o deledu cylch cyfyng a'i ddefnydd, os o gwbl, o dechnoleg drôn**
 - **asesu'r risgiau diogelu data yn gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth, ynghyd â'r bygythiadau seiber yn gysylltiedig â rheoli contractau/caffael o fewn y Cyngor**
 - **rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y Tîm Arweinyddiaeth yn derbyn gwybodaeth ddigonol fel eu bod yn ymwybodol o'r bygythiadau seiber sy'n wynebu'r Cyngor a'r mesurau lliniaru.**

4. CANLYNIAD YMCHWILIAD SWYDDFA'R COMISIYNYDD GWYBODAETH I'R DIGWYDDIAD SEIBER YN 2021

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a oedd yn rhoi trosolwg o ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r digwyddiad seiber yn ysgolion uwchradd y Cyngor yn 2021. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu trosolwg o'r camau a gymerodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a Gwasanaeth TGCh y Cyngor drwy lunio rhaglen waith fewnol i fynd i'r afael â'r amrywiol elfennau technegol a llywodraethu gwybodaeth diffygiol.

Pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Canran y penaethiaid, staff ysgolion a llywodraethwyr sydd wedi mynychu'r hyfforddiant diogelu data a nodwyd fel un o'r gweithredoedd yn y rhaglen waith fewnol.
- Y cyfyngiadau ar ysgolion o ran defnyddio meddalwedd/rhaglenni ac a oes angen rhestr o feddalwedd cymeradwy.
- Effeithiolrwydd diogelwch *Windows* a'r heriau ynghlwm ag uwchraddio systemau gweithredu mewn ysgolion.
- Mynegwyd ychydig o bryder ynglŷn â'r amser oedd wedi mynd heibio ers rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y digwyddiad ym mis Mehefin 2021 a chael gwybod am ganlyniad ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r digwyddiad ym mis Awst 2023, ac yn sgil hynny, gwerth adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gan fod y Cyngor wedi nodi'r hyn oedd angen ei fabwysiadu a'i wella ac wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith.
- Gan nad oedd achos y traffig amheus ar weinyddion e-bost ysgolion uwchradd a oedd wrth wraidd y digwyddiad wedi cael ei adnabod, a oedd asesiad wedi'i wneud o'r math o ddata oedd mewn perygl neu a allai fod wedi cael ei gyfaddawdu.
- Oherwydd natur y digwyddiad, p'un a oedd unrhyw ddiffygion yn y broses archwilio gan nad oedd y gwendidau wedi cael eu nodi.
- P'un a oes rhaid cydnabod y gallai ceisio diogelwch llwyr (100%) arwain at or-gymhlethdod ac y dylid canolbwyntio ar gadw data allweddol yn ddiogel.

Ymatebwyd fel a ganlyn i'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor -

- Mae pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant diogelu data a byddai modd darparu gwybodaeth am bresenoldeb pe byddai angen. Ar ôl cynorthwyo ysgolion i roi polisïau diogelu data ar waith, mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ymweld ag ysgolion bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.
- Yn dilyn y digwyddiad aseswyd diogelwch rhaglenni/meddalwedd a lluniwyd rhestr o'r meddalwedd a aseswyd, ac yn sgil hynny casglwyd gwybodaeth am feddalwedd sy'n gyffredin ym mhob ysgol. Rhaid sicrhau cyfaddawd rhwng asesu risg diogelwch meddalwedd ac anghenion addysgiadol/ystafell ddosbarth ac mae gwaith yn cael ei wneud i sefydlu sut y gellir modelu'r cyfaddawd hwnnw a nodi'r risgiau.
- Ystyrir bod diogelwch *Windows* yn ddigonol fel rhan o becyn a rhaglen ehangach o nodweddion diogelwch. Esboniodd y Rheolwr Tîm TG y materion a'r opsiynau sydd ynghlwm ag uwchraddio systemau gweithredu a chadarnhaodd fod y gwaith o drosglwyddo i *Windows 11* wedi dechrau ar lefel gorfforaethol a bod y gwaith diweddarau'n mynd rhagddo mewn ysgolion fel rhan o raglen HWB Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd sicrwydd fod cynlluniau ar waith i sicrhau nad yw'r Cyngor yn wynebu'r sefyllfa o fod heb gynllunio i uwchraddio a/neu amnewid offer/caledwedd/dyfeisiau digidol mewn ysgolion wrth iddynt agosáu at ddiwedd eu hoes.
- Bod y penderfyniad i hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi'i wneud oherwydd sensitifrwydd y data a'r tebygolrwydd mai gweithgareddau bygythiol allanol oedd i gyfrif. Yn ddiweddarach, roedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynghori ysgolion i adrodd ar y mater eu hunain.
- Er hynny, roedd y camau adfer a gymerwyd gan y Cyngor mewn perthynas â diogelwch digidol a llywodraethu gwybodaeth yn dderbyniol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac ni chymerwyd camau pellach. Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm TG at broblemau technegol yn gysylltiedig â chynhyrchu data, cyflunio systemau a gwirio data ar systemau ysgolion, a pherthynas y materion hynny â rhaglen HWB Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol a'r drafodaeth ynglŷn â sefydlu Canolfan Ddiogelwch Weithredol.
- Bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gyfathrebu parhaus gydag ysgolion ac roedd ysgolion yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni gan ddefnyddio eu sianelau eu hunain, a hynny ar adeg heriol gan fod gwyliau haf ysgolion yn agosáu.
- Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod archwiliad o wendidau a rheoli patsys wedi'i gwblhau tua'r un amser â'r digwyddiad, a hynny fel rhan o'r rhaglen archwilio. Roedd archwilwyr TG y Cyngor yn gallu rhoi sicrwydd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod argymhellion yr archwiliad wedi cael eu rhoi ar waith a bod y gwendidau a'r rhaglen rheoli patsys wedi derbyn sylw ac roedd hynny, felly, yn darparu sicrwydd annibynnol.
- Efallai y bydd cyfle i asesu gweithgareddau a mathau o ddata sy'n llai sensitif ac addasu dulliau'n unol â hynny, gan ystyried yr angen i gyfaddawdu rhwng y risgiau sy'n bodoli a'r hyn sy'n ymarferol.

Penderfynwyd derbyn y canlynol –

- **Adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion sy'n darparu trosolwg o ganlyniad ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r digwyddiad.**
- **Y gweithredoedd a nodwyd ac a gwblhawyd trwy'r rhaglen waith fewnol.**

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2022/23

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn amlinellu perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas ag lechyd a Diogelwch yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o weithgareddau iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor yn ystod y cyfnod, ac roedd

yn cynnwys dadansoddiad o ddamweiniâu a digwyddiadau a'r prif lwyddiannau ynghyd â chynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn olynol.

Pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Oherwydd y cynnydd yn y digwyddiadau a gofnodwyd, a'r digwyddiadau yr oedd rhaid adrodd amdanynt o dan drefniadau RIDDOR yn 2022/23, o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, byddai'n ddefnyddiol pe bai data am y cyfnod cyn Covid wedi cael ei gynnwys er mwyn penderfynu p'un a oedd y ffigyrau'n debyg i'r ffigyrau ar gyfer y blynyddoedd yn union cyn Covid a'u bod yn adlewyrchu newid yn y cyfyngiadau Covid, neu p'un a dynt yn arwydd bod rhywbeth o'i le a bod angen, felly, adolygu'r strategaeth iechyd a diogelwch.
- A ellir gweld unrhyw batrymau yn y digwyddiadau a gofnodwyd yn 2023/24 neu a oes unrhyw dueddiadau'n dod i'r amlwg.
- A yw'r achosion o lithro a syrthio yn cynnwys digwyddiadau yng nghartrefi gofal preswyl yr Awdurdod ac a fyddai'n bosib darparu mwy o fanylder yn yr adroddiad gan fod effaith syrthio'n gallu effeithio ar natur y gofal y mae pobl hyn yn ei dderbyn.
- P'un a yw'r cynnydd mewn digwyddiadau iechyd a diogelwch wedi arwain at gynydd mewn hawliadau yswiriant a chreu costau ychwanegol i'r Cyngor.

Dywedodd y Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch ei bod yn anodd mesur 2022/23 yn erbyn blynyddoedd cynharach oherwydd bod y cyfyngiadau yn cael eu codi yn ystod y cyfnodau hynny ac, o safbwynt cymharu ffigyrau, mae'n debyg y byddai'n well cymharu â 2023/24 gan fod trefniadau gweithio mwy arferol wedi ailgychwyn. Esboniodd beth yw'r gofynion cyfreithiol o ran cadw gwahanol gategoriâu o ddata am ddigwyddiadau iechyd a diogelwch a chadarnhaodd fod nifer y digwyddiadau a gofnodwyd hyd at Ionawr 2023 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ond ychwanegodd nad yw'r cynnydd o reidrwydd yn arwydd o broblem a bod angen dadansoddi'r data cyn dod i gasgliad, yn hytrach na dim ond meincodi'r data. Eglurodd y Swyddog fod y digwyddiadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn cynnwys yr holl ddigwyddiadau a gofnodwyd a'u bod yn cynnwys achosion lle mae cleientiaid wedi syrthio mewn cartrefi gofal, yn ogystal ag achosion o ddisgyblion yn lithro a syrthio mewn ysgolion a dywedodd y byddai'n bosib darparu data ar yr achosion o lithro a syrthio mewn cartrefi gofal i'r henoed pe byddai angen.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad oedd data ynglŷn â hawliadau yswiriant yn erbyn y Cyngor a'r costau yn ei meddiant ond bod y wybodaeth ar gael.

Penderfynwyd cymeradwyo argymhelliad yr adroddiad, sef y dylai'r Cyngor ddilyn cynllun strategol ar gyfer rheoli lechyd a Diogelwch a rhoi'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith.

Gweithredoedd ychwanegol –

- **Gofyn i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gynnwys data ar gyfer digwyddiadau iechyd a diogelwch a gofnodwyd a'r digwyddiadau yr oedd rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch amdanynt ar gyfer y cyfnod cyn Covid yn yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2023/24.**
- **Bod y data ar gyfer achosion o lithro a syrthio yng nghartrefi gofal preswyl i'r henoed yr Awdurdod yn cael eu dangos ar wahân yn yr adroddiad.**
- **Bod y pwyllgor yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â hawliadau yswiriant yn erbyn y Cyngor a'r costau yn ystod yr un cyfnod.**

6. ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2023/24

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn darparu diweddariad ar sefyllfa rheoli trysorlys canol blwyddyn ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau fod y sefyllfa rheoli trysorlys yn parhau'n sefydlog, gyda'r enillion ar fuddsoddiadau'n well na'r disgwyl ac mae'r holl ddangosyddion darbodus o fewn y terfynau a'r targedau a osodwyd yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24.

Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod strategaeth fuddsoddi'r Cyngor wedi cael ei hadolygu. Yn y gorffennol roedd balansau arian parod cymharol uchel y Cyngor yn golygu ei fod yn cyrraedd y trothwy ar gyfer buddsoddi mewn banciau a chymdeithasau adeiladu a bod unrhyw arian parod a oedd yn weddill felly'n cael ei fuddsoddi, ar ffurf benthyciadau, mewn awdurdodau lleol eraill sydd â statws credyd da ac roedd hynny'n creu mwy o elw na rhoi'r arian mewn cyfrifon galw. Wrth i falansau arian parod y Cyngor gael eu defnyddio a gostwng, nid oes cymaint o alw i fuddsoddi mewn cynghorau eraill ac mae'r capasiti i fuddsoddi mewn banciau a chymdeithasau adeiladu yn ddigonol erbyn hyn. Yn ogystal, nid yw cynghorau'n cael eu hystyried yn opsiwn mor ddiogel ar gyfer buddsoddi ag yn y gorffennol ac mae nifer o gynghorau yn Lloegr yn wynebu trafferthion ariannol. Mewn perthynas â benthyciadau hanesyddol y Cyngor gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWL) ar gyfraddau llog uchel, dywedodd y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor yn ystyried ad-dalu benthyciadau'n gynnar wrth aildrefnu dyledion ond mae'r premiwm ar gyfer ad-dalu benthyciadau'n gynnar yn eithriadol o ddrud fel arfer ac mae cost y benthyciadau hyn, felly, yn cael eu cynnwys yn y gyllideb. Mae gwerth presennol y benthyciadau wedi'i gynnwys i adlewyrchu'r ffaith fod gwerth arian yn gostwng dros amser ac i ddangos, mewn termau mwy realistig, yr effaith a gaiff y benthyciadau yn y dyfodol.

Penderfynwyd nodi'r adroddiad Adolygiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn, y gweithgareddau trysorlys a'r dangosyddion darbodus fel ag yr oeddent ar 30 Medi 2023 a chyflwyno'r Adolygiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn i'r Pwyllgor Gwaith heb wneud unrhyw sylwadau ychwanegol.

7. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor ei ystyried. Mae'r Datganiad yn amlinellu strategaeth y Cyngor ar gyfer rheoli benthyciadau a buddsoddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 ac, fel y nodir yn Atodiad 11 yn yr adroddiad, mae'n cael ei gefnogi gan ddangosyddion darbodus a thrysorlys.

Pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Effaith digwyddiadau annisgwyl, megis y broblem concrit RAAC mewn ysgolion, ar gyllid y Cyngor.
- Gostyngiad yng nghyfanswm y buddsoddiadau, o thua £43m ym mis Medi 2023 i £33m ar 31 Rhagfyr 2023.
- Effaith gwariant cyfalaf y Cyngor ar ei gyllideb refeniw. Nodwyd y byddai'r angen i fenthyciadau'n allanol yn codi o £121.557m yn 2023/24 i £158.593m yn 2024/25 ac y byddai costau ad-dalu'r ddyled yn cael eu talu o'r gyllideb refeniw. Gofynnwyd a ddylid ailystyried gwariant cyfalaf ac, yn sgil hynny, yr angen i'r Cyngor fenthyciadau, o ystyried y pwysau cynyddol ar wariant refeniw.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod arian wrth gefn y Cyngor yn cwrdd â gwariant ar ddigwyddiadau annisgwyl, megis y broblem concrit RAAC a ddaeth i'r amlwg mewn dwy o ysgolion uwchradd yr Awdurdod, a dyna sydd i gyfrif

am yr angen i gadw lefel iach o arian wrth gefn i alluogi'r Cyngor i ymateb i ddigwyddiadau o'r fath a lliniaru'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Mewn perthynas â balansau buddsoddiadau, esboniodd y Swyddog Adran 151 y berthynas rhwng benthyca a buddsoddi a sefyllfa llif arian y Cyngor, a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar p'un ai yw arian yn cael ei fuddsoddi, ymhle y caiff ei fuddsoddi ac am ba hyd, neu a yw'n cael ei gadw yn y busnes lle gellir ei ddefnyddio i gwrdd ag anghenion llif arian y cyngor. Eglurodd y Swyddog Adran 151 hefyd ymrwymadau cyfalaf y Cyngor ar gyfer 2024/25 mewn perthynas â'r Gronfa Gyfalaf Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai a chadarnhaodd y byddai lefel y benthyca heb gefnogaeth ar gyfer 2024/25 yn erbyn Cyfrif Refeniw'r Gronfa Gyffredinol yn sero a'r unig ofyniad ychwanegol ar Gyfrif Refeniw'r Gronfa Gyffredinol fyddai allanoli benthyca mewnol blaenorol ac roedd cost hynny wedi'i gynnwys yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25.

Penderfynwyd nodi'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 a'i anfon ymlaen at y Pwyllgor Gwaith heb wneud unrhyw sylwadau pellach.

8. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi diweddariad hyd at 31 Ionawr 2024 ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf, sef hyd at 30 Rhagfyr 2023. Roedd yr adroddiad yn nodi hefyd rhaglen waith bresennol y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau tymor byr a chanolig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor am gapasiti yn y Tîm Archwilio Mewnol, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad yw'r gwasanaeth yn recriwtio ar hyn o bryd ond mae'n parhau i ddefnyddio arbedion o ddwy swydd wag i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol ac arbenigedd pynciol ac nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r trefniant hwn. Mewn ymateb i gwestiwn am gŵyn a arweiniodd at gynnal ymchwiliad mewn perthynas â'r Uned Gynnal a Chadw Tai, a pha mor gymesur oedd yr ymchwiliad, manylodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar gefndir a hynt y gŵyn a dywedodd ei bod yn bwysig ymchwilio'n briodol i'r gŵyn a sicrhau nad oedd honiad ddi-sail yn effeithio ar enw da'r swyddogion a'r cyflenwyr y gwnaethpwyd y gŵyn yn eu herbyn.

Penderfynwyd nodi canlyniad y gwaith Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

9. GWIRIAD IECHYD AR REOLI RISG GAN ZURICH

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori'r Adroddiad Gwiriad Iechyd ar Reoli Risg. Roedd y Cyngor wedi comisiynu Zurich Resilience Solutions i adolygu trefniadau rheoli risg ar draws y Cyngor, gan ganolbwyntio'n benodol ar archwilio'r safbwyntiau, y ddealltwriaeth a'r canfyddiad o risg drwy drafod â rhanddeiliaid allweddol.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr argymhellion a wnaed gan Zurich yn cael eu nodi yn adran 4 yn yr adroddiad. Maent wedi cael eu trosglwyddo i gynllun gweithredu a phennwyd amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith ac mae hyfforddiant ar gyfer aelodau, a gyllidir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi'i drefnu ym mis Mawrth. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd hefyd fod rhaid i'r Cyngor, er mwyn gwella ei lefel aeddfedrwydd, ddarparu tystiolaeth fod ymagwedd gyson tuag at risgiau ar waith ym mhob maes gwasanaeth sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at yr ymagwedd strategol a bod rhaid iddo fod yn ymwybodol o'r archwaeth risg wrth wneud penderfyniadau ac mewn perthynas â'i brosiectau.

Penderfynwyd bod y Pwyllgor –

- Yn derbyn sicrwydd o'r adroddiad gan Zurich Resilience Solutions bod rheoli risg yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith yn effeithiol o fewn y Cyngor.
- Yn cefnogi'r gweithredoedd sy'n cael eu hargymell i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan Zurich Resilience Solutions.

10. ARCHWILIO ALLANOL: ADOLYGIAD O STRATEGAETH DDIGIDOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad Archwilio Cymru a oedd yn adolygu ymagwedd strategol y Cyngor i ymdrin â digidol, gan gynnwys defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a threfniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian. Cyflwynwyd hefyd ymateb y sefydliad i'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru. Roedd yr adolygiad yn cael ei gynnal ym mhob un o'r 22 cyngor ar hyd a lled Cymru fel rhan o raglen genedlaethol o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian ac, yn ogystal ag adroddiad lleol ar gyfer pob cyngor, bydd adroddiad cenedlaethol yn cael ei lunio i ddwyn ynghyd enghreifftiau o arfer dda.

Cyflwynodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid adroddiad ar ymateb y sefydliad a dywedodd fod Archwilio Cymru wedi cynnal yr adolygiad ym mis Mehefin 2023, ar yr un adeg ag y cyhoeddwyd Cynllun y Cyngor. Roedd y Cyngor yn awyddus bod Cynllun y Cyngor yn cael ei fabwysiadu cyn dechrau gwaith ar y Strategaeth Ddigidol a hynny er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud ers hynny ac mae strategaeth ddigidol drafft wedi'i llunio sy'n mynd ar daith drwy sianelau llywodraethiant mewnol ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd y broses honno wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2024.

Pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Ymarferoldeb Cynllun Technoleg Gwybodaeth pum mlynedd o ystyried pa mor gyflym mae'r maes yn datblygu
- I ba raddau mae cost yn ystyriaeth wrth benderfynu ar flaenoriaethau blynyddol
- A neilltuwyd adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ddigidol

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Strategaeth Ddigidol yn ddogfen gyffredinol a'i bod yn nodi'r egwyddorion a'r ymagweddau TG cyffredinol fel sail i gynlluniau blynyddol fydd yn cael eu llunio i'w gwireddu a bydd cynnydd y cynlluniau hynny'n cael ei adolygu. Mae cost yn ffactor wrth ystyried amcanion gwella, yn ogystal â lliniaru risgiau a ph'un a yw datblygiad yn gysylltiedig ag amcan diogelwch neu nod trawsnewidiol. Mae'n annhebygol y byddai cynllun gwaith yn cael ei roi ar waith heb ddeall y goblygiadau ariannol a'r costau refeniw parhaus, a byddai'r costau hynny bob amser yn cael eu hystyried fel rhan o achos busnes neu gynnig ar gyfer cynnwys eitem unigol yn y cynllun blynyddol. Cadarnhawyd nad oes cyllid ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer gwireddu'r strategaeth a bydd rhaid i wasanaethau ariannu unrhyw gostau o'r cyllidebau presennol.

Penderfynwyd nodi adroddiad Archwilio Cymru a derbyn ymateb y sefydliad fel un amserol a phriodol.

11. ARCHWILIO ALLANOL: DEFNYDDIO GWYBODAETH AM BERFFORMIAD: SAFBWyNT DEFNYDDWYR GWASANAETH A CHANLYNIADAU – CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn nodi canfyddiadau adolygiad o wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau a ddarparwyd i uwch swyddogion ac uwch aelodau yng Nghyngor Sir Ynys Môn a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio. Roedd yr adolygiad yn cael ei gynnal ym mhob un o'r 22 cyngor ar hyd a lled Cymru fel rhan o raglen genedlaethol o archwiliadau ac astudiaethau

gwerth am arian ac, yn ogystal ag adroddiad lleol ar gyfer pob cyngor, bydd adroddiad cenedlaethol yn cael ei lunio i ddwyn ynghyd enghreifftiau o arfer dda.

Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod y sefydliad wedi ymateb trwy lunio Cynllun Gweithredu a'i fod yn cynnwys manylion sy'n adlewyrchu'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas ag ystod o brosesau a mecanweithiau sy'n cynhyrchu gwybodaeth am berfformiad ar gyfer uwch reolwyr ac uwch aelodau. Barn y sefydliad yw bod y gwaith hwn, gan gynnwys adolygu'r Cerdyn Sgorio a chyflwyno dangosfyrddau data thematig, yn cynnig cyfle i ofyn i uwch aelodau'r Cyngor pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt i gael gwell dealltwriaeth o ba mor llwyddiannus yw gwasanaethau a pholisïau o ran cwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at weld adroddiad cenedlaethol Archwilio Cymru'n cael ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad hwn yn dwyn ynghyd yr holl arferion da o awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru lle cynhaliwyd yr adolygiad a chaiff yr arferion da hynny eu defnyddio i lywio'r ffordd ymlaen i'r Cyngor a'r dulliau a ddatblygir ganddo. Cadarnhaodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) y byddai'r Cyngor yn parhau â'r gwaith a gynlluniwyd ganddo yn y cyfamser, gan gynnwys adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol, a rhagwelir y byddai'r adroddiad cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi erbyn dyddiad cwblhau disgwylidig y Cynllun Gweithredu, sef Medi 2024, er efallai y bydd rhaid ailystyried yr amserlen os na fydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi.

Pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Pa unigolion oedd wedi cael eu cyfwrdd i ddod i'r casgliadau a'r argymhellion a nodir
- Er bod yr adolygiad yn ymwneud â defnyddio gwybodaeth am berfformiad i ddeall safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth, nid yw'r adolygiad yn canolbwyntio ar drafod gyda defnyddwyr gwasanaeth i ganfod pa mor dda mae'r Cyngor yn deall eu hanghenion.
- A yw'r sefydliad yn cytuno â chanfyddiadau'r adolygiad archwilio.
- Byddai'n ddefnyddiol pe bai gwybodaeth wedi'i chynnwys i ddangos sut y gellir casglu data sydd eisoes ar gael o fewn y Cyngor i ddarparu darlun o berfformiad a sut y gellir annog gwasanaethau i rannu gwybodaeth a data o fewn terfynau deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

Eglurodd Lora Williams, Archwilio Cymru, beth oedd cwmpas yr archwiliad, y cwestiynau a'r meini prawf, fel y cânt eu nodi yn adran 4 yn yr adroddiad ac yn Atodiad 1, yn ogystal â dogfennau yn gysylltiedig â pherfformiad a gafodd eu hystyried a beth oedd hynny'n ei adlewyrchu o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth. Cadarnhaodd nad oedd yr archwiliad yn edrych ar drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor nac ar sut mae'n cynnal arolygon sylweddol i ganfod safbwyntiau defnyddwyr mewn perthynas â newidiadau i wasanaethau neu ddatblygu polisïau a strategaethau. Canolbwyntiwyd ar sut mae adborth dydd i ddydd ynglŷn â boddhad defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gasglu a sut mae'r wybodaeth honno'n cyrraedd uwch swyddogion ac uwch aelodau a sut y caiff ei defnyddio wedyn.

Cyfeiriodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid at y trefniadau sydd ar waith o fewn gwasanaethau i gasglu barn a safbwyntiau defnyddwyr, megis y Fforwm Tenantiaid a'r Fforwm Pobl Hŷn. Mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i dadansoddi o fewn y gwasanaethau perthnasol a'i ddefnyddio fel sail i flaenoriaethu'r gwasanaethau a ddarperir ac at ddibenion rheoli perfformiad, ond nid ydynt o reidwydd yn cael eu hadlewyrchu fel mater o drefn mewn dogfennau corfforaethol neu ddogfennau pwyllgorau ac felly nid yw'r arferion hynny'n cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad archwilio. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r arferion da a rennir yn yr adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru i ystyried yr hyn y gall ei wneud yn wahanol yn y dyfodol a sut y gall ddarparu gwell tystiolaeth i ddangos sut mae'r wybodaeth a gesglir am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei defnyddio i hysbysu gwaith rheoli perfformiad. Bydd y prosiect Siarter Cwsmeriaid a Phrofiad

y Cwsmer sy'n mynd rhagddo yn rhoi cyfle i amlygu pa wybodaeth ac arferion sy'n bodoli'n barod yn y gwasanaethau o ran safbwynt y defnyddiwr.

Penderfynwyd nodi adroddiad Archwilio Cymru a derbyn ymateb y sefydliad.

12. ADOLYGIAD O FLAEN RAGLEN WAITH 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 ac amlygwyd a nodwyd y newidiadau o ran amserlennu adroddiadau.

Penderfynwyd -

- **Derbyn Blaen Raglen Waith 2023/24 fel un sy'n bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl, a**
- **Nodi'r newidiadau i'r dyddiadau y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno.**

13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

14. ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELWCH SEIBER 2023/24

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seiber 2023/24. Roedd yr adroddiad yn amlinellu rhai o'r heriau seiber ddiogelwch a wynebwyd yn 2023/24 a sut y cawsant eu goresgyn, y bygythiadau seiber cyffredin sy'n wynebu'r Cyngor, y mesurau lliniaru a'r mesurau gweithredol sydd ar waith i ganfod ac atal gweithgareddau maleisus.

Oherwydd bod rhai o aelodau'r Pwyllgor wedi methu â chael mynediad at yr adroddiad cyfrinachol a chan nad oeddent, felly, wedi medru ystyried ei gynnwys, penderfynodd y Cadeirydd ohirio'r eitem tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor a gofynnwyd i swyddogion edrych ar y problemau a oedd wedi codi.

**Mr Dilwyn Evans
Cadeirydd**

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	18 Ebrill 2024
Pwnc:	Adolygiad o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cym
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd:</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad y darn o waith a gwblhawyd i fodloni gofynion Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol ar Heddlu 2022, sy'n argymhell bod pwyllgorau archwilio'n gwerthuso eu heffaith a nodi meysydd i'w gwella.</p> <p>Gofynnir i'r Aelodau ystyried canlyniad yr adroddiad, argymhellion CIPFA ar gyfer gwella a'r camau y mae'r rheolwyr ac aelodau'r Pwyllgor yn eu cynnig i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.</p>	

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r [canllawiau](#) sy'n cefnogi Datganiad Sefyllfa CIPFA yn awgrymu, er mwyn datblygu'r pwyllgor archwilio a darparu sicrwydd drwy ei adroddiad blynyddol, y dylid cefnogi'r pwyllgor archwilio i hunanasesu ei effeithlonrwydd. Neu fel arall, gellir cynnal adolygiad annibynnol.
- 1.2 O ganlyniad, comisiynwyd CIPFA gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu'r modd y mae'r Pwyllgor yn gweithredu. Gofynnodd y Pwyllgor i CIPFA gynnig syniadau i gynyddu ffocws y Pwyllgor a symud datblygiadau yn eu blaen fel y gall ddarparu cymorth effeithiol i weithrediadau gweinyddol y Cyngor.

2. Canlyniad yr Adolygiad

- 2.1 Daeth CIPFA i'r casgliad bod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflawni ei gylch gorchwyl a'i fod, yn gyffredinol, yn gyfrwng defnyddiol i ystyried ac ymateb a herio.
- 2.2 Fodd bynnag, nid oes ganddo ffocws ac mae'n fwy ymatebol na rhagweithiol. Nid yw swyddogion bob amser yn egluro'r rhesymau dros gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor yn ddigon clir ac nid yw'r aelodau bob amser yn ceisio mynd at wraidd y rhesymau hyn. O ganlyniad, mae llawer iawn o amser yn cael ei dreulio ar faterion risg isel, lle nad oes gan y Pwyllgor unrhyw ddylanwad, ac felly nid oes digon o amser ar ôl i drafod materion pwysicach, lle gallai cyfraniad y Pwyllgor ychwanegu gwerth.

2.3 Mae CIPFA wedi cynnig argymhellion ar gyfer gwella ac mae'r camau gweithredu a gynigiwyd gan reolwyr ac aelodau'r Pwyllgor i fynd i'r afael â'r materion hyn wedi'u cynnwys mewn Cynllun Gweithredu.

3. Sylwadau a Dderbyniwyd

3.1 Anfonwyd copi o'r adroddiad a'r cynllun gweithredu at aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 6 Chwefror 2024 a gofynnwyd iddynt gynnig unrhyw newidiadau, erbyn 5 Mawrth 2024, i sicrhau bod yr adroddiad yn ffeithiol gywir cyn iddo gael ei gyhoeddi.

3.2 Cafwyd ymateb gan dri aelod o'r Pwyllgor. Roeddent yn derbyn ac yn cefnogi'r adroddiad a'r camau gweithredu arfaethedig ar y cyfan.

3.3 Derbyniwyd un sylw ynglŷn â'r pennawd 'Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio' yn gysylltiedig ag ansicrwydd yr aelodau ynglŷn â'u rôl. Mae'r adroddiad yn nodi bod cyfarfodydd briffio yn arfer cael eu trefnu ar gyfer aelodau lleig cyn y pandemig Covid, er mwyn gwneud iddynt deimlo fel petaent yn cael eu cynnwys. Roedd yr aelod yn dymuno gweld cyfeiriad yn yr adroddiad at y ffaith bod aelodau lleig yn cael eu gwahodd i'r sesiynau briffio misol ar gyfer yr aelodau etholedig, a bod hynny'n helpu i wneud iddynt deimlo fel petaent yn cael eu cynnwys yng ngwaith y Cyngor.

4. Argymhelliad

4.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhoi ystyriaeth ffurfiol i'r isod:

- canlyniad yr adolygiad a chasgliad CIPFA
- y camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael ag argymhellion CIPFA.

Adolygiad o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyngor Sir Ynys Môn

Ionawr 2024

Tabl cynnwys

Rhagarweiniad.....	3
Methodoleg.....	3
Crynodeb o'r canfyddiadau	3
Cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	4
Rheolaeth agenda a chyfarfodydd.....	4
Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	5
Holi a phwrpas.....	5
Cadw pethau'n anwleidyddol	6
Rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas â risg	6
Gweithio gydag archwilio	6
Gwneud argraff	7
Atodiad 1: argymhellion a chynllun gweithredu	8
Atodiad 2: cyfweledigion	10

Rhagarweiniad

Mae CIPFA wedi cwblhau adolygiad yn ddiweddar o weithrediad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cyflawni ei gylch gorchwyl, ac mae'n edrych am syniadau i gynyddu ei ffocws a bwrw ymlaen â'i ddatblygiad er mwyn darparu cefnogaeth effeithiol i weithrediad gweinyddol y Cyngor. Amcanion yr adolygiad oedd:

- Helpu aelodau'r pwyllgor a'r rhai sy'n gweithio gyda'r pwyllgor i sefydlu dealltwriaeth gyffredin o rôl y pwyllgor a lle gall gael effaith.
- Adolygu gweithrediad y pwyllgor, gan gynnwys sut y mae wedi cyflawni ei gylch gorchwyl ac wedi dangos effaith ei waith.
- Nodi unrhyw feysydd i'w gwella a chefnogi'r Cyngor yn ei gynllun datblygu ar gyfer y pwyllgor.
- Nodi meysydd lle mae hyfforddiant neu gymorth pellach i aelodau pwyllgor yn cael ei argymhell, yn enwedig yn unol â chanllawiau CIPFA.
- Rhannu arweiniad a phrofiad CIPFA o weithio gyda phwyllgorau archwilio eraill mewn awdurdodau lleol.

Methodoleg

Fe wnaethom ymgymryd â'r gwaith canlynol:

1. Cyfarfod â phedwar aelod etholedig a thri aelod lleyg o'r Pwyllgor i gael eu barn ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella.
2. Cyfarfod â'r swyddogion allweddol sy'n gweithio gyda'r Pwyllgor i ddeall eu rôl mewn perthynas ag ef, ac i gael eu persbectif ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd angen ei wella.
3. Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor a chyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Gorffennaf 2022 – Medi 2023), gan ddefnyddio papurau cyhoeddedig y Pwyllgor. Arsylwi'r cyfarfodydd ar 29 Mehefin (drwy weddarlliediad) a 21 Medi (yn bersonol) 2023.
4. Defnyddio canllawiau 2022 CIPFA ar bwyllgorau archwilio, a'i brofiad o weithio gyda phwyllgorau archwilio eraill, i adolygu pa mor effeithiol y mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi bod yn gweithredu.

Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflawni ei gylch gorchwyl, ac yn gyffredinol mae'n gweithredu fel seinfwrdd a mecanwaith herio defnyddiol. Fodd bynnag, nid oes ganddo ffocws ac mae'n fwy adweithiol na rhagweithiol. Nid yw swyddogion bob amser yn nodi'n glir y rhesymau dros gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor, ac nid yw aelodau bob amser yn ceisio canfod y rhain. O ganlyniad, gellir treulio gormod o amser ar faterion risg isel, lle na all y Pwyllgor gael effaith, gan gyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer eitemau mwy arwyddocaol, lle gallai mewnbyn y Pwyllgor ychwanegu gwerth.

Rhoddir rhagor o fanylion isod, a hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad hwn (gweler Atodiad 2 am restr o'r cyfweledigion). Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor a

swyddogion i ddatblygu cynllun gweithredu, yn seiliedig ar yr argymhellion yn Atodiad 1, i symud y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei flaen.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cymharwyd cylch gorchwyl Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Ynys Môn â'r cylch gorchwyl enghreifftiol yng nghanllawiau pwyllgorau archwilio CIPFA 2022, a nodwyd y canlynol:

- Mae cyfeiriadau penodol at y mwyafrif o'r meysydd disgwylidig a chyfeiriadau dealedig at y rhan fwyaf o'r meysydd sy'n weddill. Roedd ychydig o fanylion ar goll (mewn perthynas â'r cyfrifon), ac mewn rhai achosion eraill gallai manylion ychwanegol ynghylch gweithgareddau risg gyfyngu ar gwmpas gwaith y pwyllgor os gweithredir arnynt yn llythrennol. Mae rhai cymalau yn gorgyffwrdd â'i gilydd, a allai arwain at ddrwschwch.
- Nodwyd chwe adroddiad blynyddol a ddaeth i'r pwyllgor nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol ar y cylch gorchwyl.

Rydym wedi darparu manylion ein hadolygiad mewn perthynas â'r cylch gorchwyl ar wahân.

(Argymhelliad 1 yn Atodiad 1)

Rheolaeth agenda a chyfarfodydd

Yn yr un modd â llawer o bwyllgorau archwilio, mae agenda Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Ynys Môn yn cynnwys llawer o eitemau, ac mae'n anodd gwneud cyfiawnder â phob eitem gan gadw hyd y cyfarfod at gyfnod rhesymol o amser. Ar gyfartaledd, mae pob cyfarfod yn para tua dwy awr, gyda rhai eitemau yn cael cryn amser, ond eraill heb gael digon o amser. Soniodd rhai o aelodau'r pwyllgor eu bod yn ansicr o'u rôl mewn perthynas â rhai eitemau, a bod diffyg ffocws ar faterion perthnasol. Gellid ail-flaenoriaethu'r agenda drwy:

- Newid ffocws adroddiadau i ganolbwyntio ar broblemau, datblygiadau, datrysiadau a'r dyfodol yn hytrach na darparu gwybodaeth i'w nodi. Er bod rhai o'r adroddiadau hyn yn rhoi sicrwydd pwysig i'r Pwyllgor, dylid rhoi ystyriaeth bellach i'w rôl mewn perthynas ag eitemau o'r fath, a'r canlyniad y dymunir. Roedd tua 80% o'r adroddiadau a gynhwyswyd ar agendâu ar gyfer blwyddyn ein hadolygiad yn eitemau i'w nodi neu i'w derbyn yn unig gan y Pwyllgor, a dim ond yn achos ychydig iawn ohonynt y nodwyd canlyniad cadarnhaol yn y cofnodion.
- Annog swyddogion i ganolbwyntio ar risgiau allweddol, a rhoi gwybodaeth ychwanegol wrth gyflwyno adroddiadau yn hytrach na chrynhof'r adroddiad y mae aelodau eisoes wedi'i ddarllen, fel y gellir defnyddio'r amser hwnnw ar gyfer cwestiynau a thrafodaethau.
- Gosod eitemau y mae'n rhaid dod â hwy i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, er enghraifft i roi sicrwydd, ond mai ychydig y gall y Pwyllgor ei ychwanegu tuag atynt, at ddiwedd yr agenda i'w nodi. Trafodwch yr eitemau hyn yn ffurfiol dim ond os oes gan aelodau faterion yr hoffent eu codi.
- Cynnal sesiynau briffio cyn cyfarfodydd i drafod a chytuno ar agenda sy'n cyflawni cylch gorchwyl y Pwyllgor, ac i nodi meysydd priodol i'w hystyried gan aelodau a swyddogion. Yn nodweddiadol byddai cyfarfod o'r fath yn digwydd wrth i'r agenda gael ei datblygu, a byddai'n helpu i sicrhau bod y swyddogion cywir yn bresennol fel y gellir ateb cwestiynau'n effeithiol.

(Argymhellion 2 a 3)

Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn gyfrifol am y mwyafrif helaeth o'r gwaith o reoli'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Er nad yw'n anarferol i'r swyddog hwn ymgymryd â llawer o'r tasgau mwy arbenigol (er enghraifft, datblygu'r agenda, cynnal y rhaglen waith, trefnu hyfforddiant), byddai'r Gwasanaethau Democrataidd fel arfer yn cymryd rhai o'r trefniadau mwy sefydliadol (er enghraifft, mynd ar drywydd adroddiadau swyddogion, trefnu i swyddogion fynychu, cefnogi aelodau lleyg, trefnu sefydlu ac asesu anghenion hyfforddi aelodau newydd). O ganlyniad i'r ddibyniaeth hon ar y Pennaeth Archwilio a Risg, nid yw rhai gweithgareddau pwysig yn digwydd i gefnogi rhedeg y Pwyllgor yn effeithiol.

(Argymhelliad 4)

Gweithiodd y cyfieithu ar y pryd yn dda yn y cyfarfod a fynychais yn bersonol, ond roedd rhai cyfnodau o dawelwch yn y gweddarllediad a wylais pan nad oedd y sianel gyfieithu ar y pryd yn darlledu.

Roedd cofnodion y cyfarfod ymhlith y rhai mwyaf manwl a welais ac roedd yn ymddangos eu bod yn cynnwys darnau mawr o destun a gopiwyd o adroddiadau. Nid oedd bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng trafodaeth a chefnidir. Roedd argymhellion adroddiadau bob amser yn cael eu dyfynnu, ond nid oedd bob amser yn amlwg beth oedd penderfyniad y pwyllgor. Mewn dau achos, ni chofnodwyd unrhyw benderfyniad; cafodd eitemau eraill eu nodi neu eu derbyn; a chafodd eraill eu cytuno, eu penderfynu neu eu cymeradwyo.

(Argymhelliad 5)

Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Yr oedd presenoldeb da o du'r aelodau a'r swyddogion yn y cyfarfodydd pwyllgor, er, gyda gwell cynllunio ar gyfer yr agenda, byddai modd sicrhau bod yr holl swyddogion perthnasol yn bresennol.

(Argymhelliad 2)

Fel sy'n ofynnol yng Nghymru, mae un rhan o dair o'r Pwyllgor yn aelodau lleyg. Recriwtiwyd tri o'r pedwar aelod lleyg flwyddyn yn ôl, a'u cyfarfod â mi oedd y tro cyntaf iddynt gyfarfod fel grŵp. Gwnaethant sylw hefyd nad oeddent bob amser yn siŵr beth yw eu rôl mewn perthynas â'r Pwyllgor a'r Cyngor, er bod hyn wedi'i nodi yn eu disgrifiadau rôl. Dywedwyd wrthym fod yr aelodau lleyg cyntaf wedi cael cyfnod sefydlu manwl, ond nid yw'n ymddangos bod hyn wedi bod mor effeithiol ar gyfer y recriwtiaid mwy diweddar, gyda rhai yn mynychu ychydig yn unig o'r sesiynau a ddarparwyd. Dywedwyd wrthym hefyd, cyn Covid, fod swyddogion yn cyfarfod ag aelodau lleyg yn rheolaidd i'w briffio ar faterion y Cyngor, a allai eu helpu i deimlo'n fwy integredig.

(Argymhelliad 6)

Holi a phwrpas

Diben pwyllgor archwilio yw cael sicrwydd bod y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol (mewn geiriau eraill, edrych ar beiriant y sefydliad), a nodi ffyrdd y gellir gwella hyn. Gwelsom beth holi effeithiol, a soniodd aelodau eraill bod yr adroddiad neu'r cyflwyniad adroddiad wedi mynd i'r afael â'u holl gwestiynau. Sicrhaodd y Cadeirydd fod y ffocws ar argymhellion adroddiadau, ond roedd pwrpas dod â rhai adroddiadau i'r pwyllgor, a pha werth y gallent ei ychwanegu, ar goll ar adegau.

(Argymhelliad 3)

Cadw pethau'n anwleidyddol

Oherwydd mai ar drefniadaeth y cyngor y mae ffocws pwyllgor archwilio, ni ddylai gwleidyddiaeth fod yn rhan o'r mater o gwbl. Dylai pwyllgorau archwilio ystyried sut y caiff polisïau eu gweithredu, nid y polisi na'r penderfyniad ei hun. Ni welsom unrhyw ymddygiad gwleidyddol amhriodol, ac ni chodwyd hyn fel mater mewn trafodaethau.

Rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas â risg

Mae CIPFA wedi ehangu ei gyngor ar rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas â risg yn y rhifyn diweddaraf o'i ganllawiau. Yn flaenorol, roedd yn canolbwyntio ar rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas â'r fframwaith a'r trefniadau risg, ond mae bellach hefyd yn ystyried y rôl pwyllgor risg y gall pwyllgorau archwilio ei chyflawni pan nad oes corff arall i wneud hynny. Ar adeg ein hadolygiad, roedd yr holl drafodaethau ynghylch y gofrestr risg yn cael eu cynnal mewn sesiwn breifat, a dim ond cofnodion cyffredinol oedd ar gael. Felly, nid oedd yn bosibl barnu effeithiolrwydd gwaith y Pwyllgor mewn perthynas â rheoli risg, er inni nodi ystyriaeth o'r fframwaith rheoli risg. Deallwn y bydd risg yn cael ei drafod yn rhan gyhoeddus y cyfarfod yn y dyfodol, a chrosawn y datblygiad hwn. Er mwyn ychwanegu gwerth at drefniadau rheoli risg y Cyngor dylai'r Pwyllgor:

- Bod yn glir pryd y mae'n gweithredu fel pwyllgor risg a phryd y mae'n cymryd rôl drosolwg y pwyllgor archwilio.
- Gwirio ac osgoi gorgyffwrdd â rolau risg pwyllgorau eraill, er enghraifft unrhyw archwiliad craffu o gofrestrau risg gwasanaeth.
- Gwahaniaethu rhwng y rolau hyn yn y cylch gorchwyl a nodi'n glir yr hyn y mae'n ei wneud a'r hyn nad yw'n ei wneud mewn perthynas â risg, a lle mae'n cael sicrwydd o waith pwyllgor neu gorff arall.
- Bod yn bwrpasol yn ei waith risg, gan ganolbwyntio ar ganlyniad materol rheoli risg yn hytrach na hanfodion y broses.
- Os yw'n gweithredu fel pwyllgor risg, gwahodd perchnogion risg i drafod eu risgiau, yn hytrach na dibynnu ar y swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel mater o drefn, i ateb cwestiynau.

(Argymhelliad 7)

Gweithio gydag archwilio

Mae archwilio allanol yn mynychu bron pob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nid oes gennym unrhyw sylw i wneud mewn perthynas ag archwilio allanol ac eithrio awgrymu eu bod yn ystyried sut maent yn cyflwyno eu hadroddiadau i ganolbwyntio ar y gwerth y gall y Pwyllgor ychwanegu. Gall cyflawni hyn drwy'r Tîm Trawsnewid Corfforaethol fod yn atodi adroddiad eglurhaol byr i adroddiad yr archwilydd, gan nodi, mewn trafodaeth ag archwilio allanol, rôl y Pwyllgor wrth archwilio'r adroddiad.

Mae archwilio mewnol yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor, ac mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn cyfarfod â'r Pennaeth Archwilio a Risg a'r swyddog a151 cyn pob cyfarfod. Mae cyswllt ad hoc hefyd rhwng archwilio mewnol a'r Pwyllgor y tu allan i'r cylch cyfarfodydd. Mae pob un yn dibynnu ar y llall i wneud gwaith da ac awgrymwn fod y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyfarfod yn anffurfiol ar ôl

pob cyfarfod i rannu syniadau, i nodi materion i'w datblygu ac i gynllunio ar gyfer y cyfarfod nesaf.

(Argymhelliad 8)

Mae Datganiad Sefyllfa CIPFA yn argymhell bod y pwyllgor archwilio yn cyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol ar wahân, yn breifat ac yn ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn anfon y neges bwysig bod y pwyllgor archwilio yn cymryd y ddau wasanaeth hyn o ddifrif, ac yn gwrandao ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Deallwn fod archwilio allanol wedi cyfarfod â'r Cadeirydd yn breifat, ond rydym yn awgrymu ehangu hyn i gyfarfod â'r pwyllgor cyfan. Gallai'r cyfarfodydd hyn fod ar ffurf sesiwn fer cyn i ran agored y cyfarfod ddechrau, gyda dim ond archwiliad mewnol neu allanol ac aelodau'r pwyllgor yn bresennol, fel y gallant godi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn ffurfiol.

(Argymhelliad 9)

Gwneud argraff

Mae'r pwyllgor archwilio yno i wneud gwahaniaeth ac i helpu peiriant y cyngor i weithredu'n well. Un o'r ffyrdd allweddol y gall wneud hyn yw ystyried materion llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol (DLIB), y mae'r Pwyllgor yn ymgymryd â phob un ohonynt. Fodd bynnag, roedd trafodaethau i'w gweld yn canolbwyntio'n fwy ar sut y gellid gwella adrodd i'r Pwyllgor a gwneud addasiadau golygyddol i'r DLIB, yn hytrach nag ystyried goblygiadau ehangach (materion 'felly beth') yr eitemau yr adroddir arnynt.

(Argymhelliad 3)

Roedd dau o aelodau newydd y Cyngor wedi'u rhoi ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w helpu i ddeall sut mae'r Cyngor yn gweithredu. Mae pwyllgor archwilio effeithiol yn faes hyfforddi rhagorol i aelodau, yn enwedig y rhai sy'n dyheu am swydd uwch, ac roeddem yn falch iawn o ganfod bod hyn yn cael ei gydnabod gan arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Cyngor, fel yr argymhellir gan CIPFA. Mae ffocws yr adroddiad ar yr hyn a gafodd sylw yn yr agenda ar gyfer pob cyfarfod yn hytrach nag ar ganlyniad y cyfarfodydd hynny¹. Rydym yn awgrymu y gallai cadeirydd y Pwyllgor hefyd gynhyrchu nodyn briffio byr ar ddiwedd pob cyfarfod, yn crynhoi'r pwyntiau allweddol a godwyd, i'w rannu â'r holl gynghorwyr, gan ddangos effaith y Pwyllgor. Gallai'r crynodebau hyn fod yn sail i'r adroddiad blynyddol.

(Argymhelliad 10)

¹ Dywed Datganiad Sefyllfa CIPFA (2022) y dylai'r pwyllgor adrodd yn flynyddol ar sut y mae 'wedi cydymffurfio â'r datganiad sefyllfa, cyflawni ei gyfrifoldebau, a chynnwys asesiad o'i berfformiad Dylai'r pwyllgor werthuso ei effaith a nodi meysydd i'w gwella'.

Atodiad 1: argymhellion a chynllun gweithredu

	Argymhelliad	Ymateb	Person cyfrifol a dyddiad
1	Diwygio a symleiddio cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys pob agwedd ar ei waith, a dileu unrhyw ddyblygu.	Cytunwyd. Bydd yn cael ei wneud yn ystod yr adolygiad o'r Cyfansoddiad.	Pennaeth Archwilio a Risg 31 Mawrth 2024
2	Cynllunio agendâu pwyllgor i flaenoriaethu'r eitemau lle gall y Pwyllgor gael effaith, a'i gefnogi i wneud hynny. Sicrhau bod adroddiadau i'r Pwyllgor yn nodi'n glir pam mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno, a rôl aelodau'r pwyllgor wrth dderbyn ac ystyried yr adroddiadau hyn.	Bydd Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu'r agenda drafft i sicrhau bod trefn yr eitemau yn briodol, a bydd yr eitemau i'w nodi yn cael eu symud i'r diwedd. Mae'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiadau wedi'i gynnwys yn yr adroddiad trosolwg. Fodd bynnag, bydd Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu pob un i sicrhau eu bod wedi'u cwblhau'n llawn ac yn ddigonol. Mae'r Flaenraglen Waith hefyd yn cyfeirio at gylch gorchwyl y Pwyllgor mewn perthynas â phob eitem, felly mae adroddiadau'n cael eu blaenoriaethu a'u cyflwyno fesul un drwy gydol y flwyddyn.	Pennaeth Archwilio a Risg Ar unwaith
3	Annog swyddogion i roi cyflwyniadau byr i'w hadroddiadau er mwyn rhoi cyd-destun ychwanegol. Ystyried gosod terfyn amser ar gyfer cyflwyniadau swyddogion.	Fel yr uchod, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu adroddiad trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau ei fod yn ddigonol ac wedi'i gwblhau'n llawn. Bydd yn trafod gyda'r Cadeirydd ynghylch cyfeirio at yr adroddiadau trosolwg hyn. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn trafod darparu hyfforddiant i swyddogion ar adrodd i'r Pwyllgor gyda'r Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad AD.	Pennaeth Archwilio a Risg Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad AD
4	Ailystyried cydbwysedd rolau gweinyddol y pwyllgor i gefnogi'r Pwyllgor i weithio'n fwy effeithiol.	Mae adnoddau presennol y Gwasanaethau Democrataidd yn golygu nad oes cynhwysedd i gefnogi ymhellach. Mae hyn yn annhebygol o newid oherwydd y cyfyngiadau ariannol presennol.	Prif Weithredwr a Swyddog Monitro

	Argymhelliad	Ymateb	Person cyfrifol a dyddiad
5	Symud at gofnodion sy'n canolbwyntio ar weithredu, sy'n cofnodi elfennau allweddol y drafodaeth a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn unig. Defnyddio termau cyson ynghylch penderfyniadau.	Cytunwyd. Byddwn yn symud i gynhyrchu cofnodion sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu a materion a gafodd eu datrys gan y Pwyllgor.	Gwasanaethau Democrataidd
6	Cefnogi'r aelodau lleyg presennol i gael eu hintegreiddio'n fwy i'r Pwyllgor.	Y Cadeirydd i ystyried proses arfarnu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor.	Cadeirydd
7	Gweithio gyda chynghorwyr risg y Cyngor i sicrhau bod y Pwyllgor yn glir ynghylch ei rolau risg ac yn eu cyflawni.	Bydd y mater yn cael ei adolygu fel rhan o'r asesiad o drefniadau Rheoli Risg y Cyngor sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Zurich.	Pennaeth Archwilio a Risg Ar unwaith
8	Nodi ffyrdd i archwilio mewnol weithio'n agosach gyda'r Pwyllgor, gan gynnwys cyfarfodydd anffurfiol gyda'r Cadeirydd cyn ac ar ôl cyfarfodydd, i nodi ffyrdd o ddatblygu'r Pwyllgor.	Cytunwyd. Ar hyn o bryd mae Pennaeth Archwilio a Risg yn cyfarfod â'r Cadeirydd ar sail ad hoc. Fodd bynnag, yn y dyfodol bydd yn cyfarfod yn fwy ffurfiol gyda'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn dilyn pob cyfarfod.	Pennaeth Archwilio a Risg / Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Ar unwaith
9	Cyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol ar wahân, yn ffurfiol ac yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn, a chwrdd â'r archwilwyr mewnol yn anffurfiol rhwng cyfarfodydd.	Cytunwyd. Fe drefnir cyfarfod preifat ar wahân rhwng Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol a'r Pwyllgor, heb i swyddogion eraill fod yn bresennol. Ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gofnodi na'i weddarlledu. Mae'r cyfarfod preifat cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 18 Ebrill 2024, i'w gynnal yn dilyn y cyfarfod ffurfiol.	Pennaeth Archwilio a Risg Archwilio Cymru Cadeirydd Unwaith y flwyddyn, gan ddechrau Ebrill 2024
10	Ystyried cynhyrchu nodyn briffio byr gan y Cadeirydd ar ôl pob cyfarfod, yn crynhoi'r pwyntiau allweddol i'w rhannu gyda'r holl aelodau.	Bydd cofnodion sy'n canolbwyntio ar weithredu yn cynorthwyo'r Cadeirydd i baratoi nodyn briffio, os yw'n teimlo bod angen un.	Cadeirydd

Atodiad 2: cyfweledigion

Name	Role
Lynn Ball	Swyddog Monitro
Dilwyn Evans	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Geraint ap Ifan Bebb	Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Marc Jones	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
Euryn Morris	Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
William Parry	Aelod Ileyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Marion Pryor	Pennaeth Archwilio a Risg
Keith Roberts	Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyfan Siôn	Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd
Dylan Williams	Prif Weithredwr
Mike Wilson	Aelod Ileyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyfed Wyn Jones	Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

77 Mansell Street, Llundain E1 8AN
+44 (0)20 7543 5600

cipfa.org

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Wedi'i gofrestru gyda
Chomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr Rhif 231060. Wedi'i gofrestru gyda Swyddfa
Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban Rhif SCO37963.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	18 Ebrill 2024
Pwnc:	Diweddariad Archwilio Mewnol
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd:</p> <p>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol fod y Pwyllgor yn goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'r ddyletswyddau deddfwriaethol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (3.4.8.10.1).</p> <p>Mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt (3.4.8.10.10)</p> <p>Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022, yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio mewnol yr awdurdod a Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, sy'n nodi'r angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio adrodd ar wybodaeth am gynydd a chanlyniadau gweithgareddau archwilio (Safon 2060).</p>	

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau'r Pwyllgor am y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 31 Mawrth 2024 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 30 Ionawr 2024, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

2. Argymhelliad

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:

- canlyniad y gwaith Archwilio mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd ac
- ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Diweddariad Archwilio Mewol

Ebrill 2024

Tudalen 26



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf	1
Galw Gofal (Llywodraethu Partneriaeth) – Adolygiad Cyntaf	2
Archwilio TG – Rheoli Mynediad Corfforaethol	2
Adennill y Dreth Gyngor, Cyfraddau Annomestig a Dyledion Amrywiol – Adolygiad Cyntaf	3
Gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	3
Gwaith ar y Gweill	4
Camau Gweithredu sy'n Weddill	4
Blaenoriaethau	5
Capasiti Presennol	5
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig	5
Blaenoriaethau Tymor Hwyl	5

Tudalen 27

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2023, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.
2. Rydym wedi cwblhau **pedwar** darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod a cheir trafodaeth fanylach arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Teitl	Lefel Sicrwydd	Critigol	Sylweddol	Cymedrol
Galw Gofal (Llywodraethu Partneriaeth) – Adolygiad Cyntaf	Rhesymol	0	0	1
Archwilio TG – Rheoli Mynediad Corfforaethol	Rhesymol	0	0	5
Adennill y Dreth Gyngor, Cyfraddau Annomestig a Dyledion Amrywiol – Adolygiad Cyntaf	Cyfyngedig	0	3	4
Gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Cyfyngedig	0	2	4

Galw Gofal (Llywodraethu Partneriaeth) – Adolygiad Cyntaf

Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	1	Cymedrol

- Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:
A yw rheolwyr wedi mynd I'r afael â'r 'Materion/Risgiau' a godwyd yn ein hadroddiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2023, a oedd yn darparu Sicrwydd Cyfyngedig ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol o'r maes?
- Mae ein hadolygiad yn cadarnhau bod y tîm rheoli yn Galw Gofal a'r Gwasanaethau Tai wedi gwneud cynnydd da o ran cryfhau trefniadau llywodraethu yn ystod y bartneriaeth darpariaethau diogelu data, ynghyd â gwelliannau i'r strwythur llywodraethu, ac mae'r Cytundeb Adran 101 bellach yn cynnwys adran newydd sy'n sicrhau bod data'n cael ei ddiogelu yn unol â chyngor cyfreithiol. Mae Hysbysiad Preifatrwydd bellach wedi'i ddrafftio gyda mewnbwn gan gyngor cyfreithiol arbenigol ac mae ar gael i'r cyhoedd drwy wefan Galw Gofal, adolygiad a diweddariad ar yr Asesiad Effaith ar Breifatrwydd Data ac adolygiad ar gysylltiadau teleofal y Cyngor, fydd yn cael ei leihau o oddeutu chwarter yn dilyn ymgynghoriad gyda thenantiaid.
- Bydd gwaith ar y 'Materion/Risgiau' sy'n weddill ynghylch asesiad gwerth am arian ar gyfer gwasanaeth Galw Gofal, fydd yn ystyried ansawdd a chost y gwasanaeth, yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2024.
- Rydym felly'n hapus bod trefniadau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â llywodraethu partneriaeth Galw Gofal wedi gwella ers ein adolygiad cyntaf, a gallwn felly godi'r lefel sicrwydd i '**Rhesymol**'. Byddwn yn parhau i fonitro'r cam sy'n weddill fel rhan o'n systemau monitro mewnlol i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, ac yr ymdrinnir â'r 'Mater/Risg'.

Archwilio TG – Rheoli Mynediad Corfforaethol

Sicrwydd Rhesymol	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	5	Cymedrol

- Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:
A oes gan y Cyngor reolyddion effeithiol ar waith i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â Rheoli Mynediad Corfforaethol?
- Daeth Tîm Archwilio TG Cyngor Salford i'r casgliad fod y Cyngor wedi gweithredu mesurau grymus er mwyn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â mynediad i'r rhwydwaith, lleihau digwyddiadau diogelwch, cyfaddawdu data ac amharu ar fusnes. Mae Polisi Diogelwch TG yn mynd i'r afael â risgiau allweddol, ac mae dogfen gofynion technegol yn sicrhau bod caffael meddalwedd yn cyd-fynd â safonau diogelwch. Mae mynediad i'r rhwydwaith ar gyfer cynnal a chadw yn cael ei reoli drwy gyfnodau dilys a chyfyngedig ar gyfer gwerthwyr meddalwedd. Mae cyfyngiadau mynediad yn seiliedig ar swydd a gweinyddwr parth, ond mae gan y gweinyddwr parth fynediad i'r rhyngwyd, sy'n peri risg diogelwch posibl.
- Mae mesurau diogelwch cyfrineiriau a chyfyngiadau ar ymdrechion a fethwyd i gael mynediad yn lleihau'r tebygolrwydd o gyfaddawdu, ond mae'r broses o ail osod cyfrinair angen dull grymus ar gyfer adnabod y defnyddiwr, ac mae hynny'n peri risg posibl. Mae dulliau mynediad gwahanol ar gyfer rhaglenni a phroses osod â llaw ar gyfer MRI Enterprise yn peri heriau. Er na ddaeth yr adolygiad o hyd i ddefnyddwyr actif a oedd wedi gadael, mae absenoldeb gweithdrefnau sylfaenol ar gyfer hysbysiadau gweinyddwr yn bryder.
- Disgwylir y bydd system recriwtio ar y we newydd yn lleihau risgiau, ond mae'r ddibyniaeth ar reolwyr recriwtio ar gyfer hysbysiadau ymadawiad gweithwyr yn parhau i fod yn risg bosibl, wedi'i liniaru gan ddadactifadu cyfrifon yn awtomatig ar ôl 30 diwrnod o anweithgarwch. Er nad oes unrhyw bryderon mawr yn bodoli, amlygwyd pum mater/risg i'w ystyried gan reolwyr i wella rheolaeth mynediad y Cyngor. Yn gyffredinol, gallwn roi sicrwydd **rhesymol** o'r trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli yn y maes hwn.

Adennill y Dreth Gyngor, Cyfraddau Annomestig a Dyledion Amrywiol – Adolygiad Cyntaf

Sicrwydd Cyfyngedig	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	3	Sylweddol
	4	Cymedrol

11. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:
A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' a godwyd yn ein hadroddiad a gyflwynwyd ym mis Medi 2023, a oedd yn darparu Sicrwydd Cyfyngedig ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol o'r maes?
12. Amlygodd yr adolygiad fod cynnydd annigonol wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r materion a risgiau a godwyd yn ystod ein harchwiliad cyntaf, yn enwedig gwaith i wella prosesau ar gyfer adolygu ac adennill dyledion amrywiol o ganlyniad, mae nifer fawr o ddyledion heb eu datrys, gan effeithio ar wybodaeth rheoli ac atal ymdrechion i'w hadennill.
13. Er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud, megis adnabod gwasanaethau ar gyfer bilio, trosglwyddo cyfrifoldebau ar gyfer mathau penodol o ddyledion a chynyddu nifer y cleientiaid Teleofal sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol, mae heriau mawr yn bodoli o hyd.
14. Mae diffyg proses glir ar gyfer asesu ac adfer dyledion, ynghyd ag ymdrechion i alinio'r system ariannol sydd wedi'u gohirio, yn rhwystro cynnydd. Mae pryder ynghylch cywirdeb nodiadau achos system dyledwyr.
15. Yn galonogol, mae prosesau adennill statudol ar gyfer Trethi Annomestig heb eu talu wedi ailddechrau ac mae nifer o orchmynion atebolrwydd wedi'u cymeradwyo yn y llys gyda dyledion wedi'u trosglwyddo i asiantau gorfodi.
16. Er y gwaith parhaus, dim ond un o bob wyth mater sydd wedi cael sylw llawn, gan arwain at radd sicrwydd 'Cyfyngedig' barhaus. Byddwn yn parhau i fonitro i sicrhau yr ymdrinnir â'r materion a'r risgiau sy'n weddill.

Gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Sicrwydd Cyfyngedig	Materion/Risgiau	
	0	Critigol
	2	Sylweddol
	4	Cymedrol

17. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:
A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i weinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.
18. Mae ein hadolygiad wedi adnabod gwendidau mewn goruchwyllo rheolaeth, monitro perfformiad a gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a all gyfaddawdu amcanion y Cyngor yn y maes hwn.
19. Er bod rheolyddion ar waith i sicrhau cymhwystra a phriodoldeb y grantiau, mae goruchwyllo rheolaeth yn ddiffygiol, sy'n arwain at wallau mewn prosesau talu ac adrodd ar ddata perfformio.
20. Nid yw mesurau perfformio yn cyd-fynd gyda safonau'r llywodraeth ac mae tanwario yn y gyllideb wedi'i nodi.
21. Ymhlith y gwelliannau a awgrymir mae diweddarau'r wefan, symleiddio prosesau ymgeisio, gwella'r modd y caiff cofnodion eu cadw a throsolwg rheolwyr.
22. Yn ogystal, mae materion megis methiant i adennill arian sy'n ddyledus a chofrestru GCAu yn annigonol ar y gofrestr pridiannau tir yn peri risgiau sylweddol.
23. Mae chwe mater wedi'u nodi, dau wedi'u graddio fel risgiau sylweddol, sy'n arwain at sicrwydd 'Cyfyngedig' o lywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth yn y maes hwn. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Gwaith ar y Gweill

24. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:


Maes	Rheswm am yr Archwiliad	Cam
Y Fenter Twyll Genedlaethol	Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025	Parhaus
Datganiadau o Ddiddordeb	Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025	Wedi gohirio
Rheoli Debyd Uniongyrchol	Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24	Wedi gohirio
Archwilio TG - Rheoli Cyflenwyr	Cofrestr Risg Strategol (YM3)	Adroddiad Drafft
Prosesau Incwm Swyddogaeth Cyrchfan	Ar gais y Prif Weithredwr	Gwaith Maes
Rheoli Asedau'r Cyngor	Cofrestr Risg Strategol (YM14)	Gwaith Maes
Goruchwylio Partneriaeth	Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24	Gwaith Maes
Archwilio - Gwasanaethau Eiddo	Cydymffurfio	Gwaith Maes
Archwilio - Gwasanaethau Tai	Cydymffurfio	Gwaith Maes
Archwilio - Gwasanaethau Tai	Cydymffurfio	Gwaith Maes
Gwydnwch ariannol - Grymuster dyfynbrisiau a chywirdeb asesiad arian wrth gefn (Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003)	Cofrestr Risg Strategol (YM1)	Gwaith sefydlu cwmpas

Tudalen 30

Camau Gweithredu sy'n Weddill

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi sylw i'r holl 'Faterion/Risgiau' a godwyd a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.
- Ar 31 Mawrth 2024, mae un mater/risg cymedrol angen ymdrin ag o y tu hwnt i'r dyddiad targed ac mae'n ymwneud ag adennill taliadau dyblyg.
- Mae adroddiad mwy manwl wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor sy'n cynnwys y manylion a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r holl 'Faterion/Risgiau' sy'n weddill.

Materion / Risgiau Hwyr fesul Gwasanaeth



Blaenoriaethau

Capasiti Presennol

28. Mae gennym ddwy swydd wag ar hyn o bryd, ar lefel Uwch Archwilydd, oherwydd ymddiswyddiad a secondiad tymor hir.
29. Rydym yn defnyddio'r arbedion cyllidebol o ganlyniad i'r swyddi gwag i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol.

Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

30. Er gwaethaf y swyddi gwag, rydym wedi gwneud cynnydd da gyda'n Strategaeth Archwilio Mewnol Blyneddol ar gyfer 2023-24 a'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd 2022-2025.
31. Ein blaenoriaeth tymor byr yw cwblhau'r holl ofynion sicrwydd o fewn ein Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24. Bydd y gwaith sydd ar waith o 31 Mawrth 2024 yn cael ei drosglwyddo i'r Strategaeth ar gyfer 2024-25.

Tudalen 31

Blaenoriaethau Tymor Hwyr

32. Mae'r Bwrdd Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol (IIASB) wedi cyhoeddi [Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang](#) ar 9 Ionawr 2024, a byddant yn dod i rym yn dilyn cyfnod pontio o 1 blwyddyn. Mae'r safonau'n arwain yr arfer proffesiynol byd eang ar gyfer archwilio mewnol.
33. Mae'r Bwrdd Ymgynghori ar Safonau Archwilio Mewnol (IASAB), sy'n gosod y safonau ar gyfer sector cyhoeddus y DU, wedi dechrau ei adolygiad ar effaith y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus, a bydd yn datblygu cynigion ar gyfer deunydd wedi'i ddiwygio, fydd yn addas ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus y DU. Bydd unrhyw newidiadau dilynol i PSIAD y DU, a'u gweithrediad, yn dibynnu ar ymgynghoriad a threfniadau pontio priodol.
34. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am yr effaith y gallai hyn ei chael ar waith y Pwyllgor.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adrodd i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	
Dyddiad:	18 Ebrill 2024	
Pwnc:	'Materion/Risgiau' sy'n weddill	
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@anglesey.gov.wales	
Awduron yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@anglesey.gov.wales	Nanette Williams Prif Archwilydd NanetteWilliams@anglesey.gov.wales
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n gosod y dyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i bwyllgor archwilio o fewn cyngor eu cyflawni, yn enwedig o ran goruchwyltio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod.</p> <p>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyflwyno cyfrifoldeb ar y pwyllgor i fonitro'r gwaith o weithredu camau cytunedig (3.4.8.10.10). Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar statws y risgiau sy'n weddill y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr Archwiliad Mewnol.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflawni gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, sy'n gofyn i'r prif weithredwr archwilio sefydlu proses ddilydol er mwyn monitro a sicrhau bod y camau rheoli wedi'u gweithredu'n effeithiol, neu bod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â chymryd camau. (Safon 2500).</p>		

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Archwilio Mewnol, ar ran y Cyngor, yn monitro materion a risgiau sydd wedi cael eu hadnabod yn ystod gwaith archwilio drwy ei system olrhain camau, 4action.
- 1.2. Mae'r dangosfwrdd yn rhoi darlun gwir o berfformiad cyfredol mewn perthynas â mynd i'r afael a chamau sy'n weddill, ac mae'n hwyluso'r gwaith o olrhain ac adrodd y wybodaeth hon yn effeithiol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn aml gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel rhan o'i hadroddiadau sy'n cynnig diweddariad ar archwilio mewnol.
- 1.3. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn os oes modd derbyn adroddiad manwl ar wahân sy'n amlinellu'r perfformiad cyffredinol o ran mynd i'r afael â chamau archwilio, ddwywaith y flwyddyn. Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021, aeth y Pwyllgor blaenorol ati i ystyried a gwneud penderfyniad ynghylch y manylion y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad, er mwyn bodloni ei anghenion sicrwydd yn y maes hwn.

2. Argymhelliad

2.1. Fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried cynnydd y Cyngor mewn perthynas ag ymdrin â'r 'Materion/Risgiau' Archwilio Mewnol sy'n weddill, a phenderfynu a yw hyn yn foddhaol.

Materion a Risgiau sy'n Parhau i fod angen Sylw

Ebrill 2024

Tudalen 34



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Nanette Williams MSc CMIIA CIA



Cynnwys

Cyflwyniad _____	1
Perfformiad Cyfredol _____	2
Graff 1 – Cyfanswm y Camau sy'n Parhau i fod angen Sylw _____	2
Graff 2 – Camau Gorddyledus _____	2
Graff 3 – Cyfanswm y Materion/Risgiau yn ôl Statws _____	3
Graff 4 – Cyfanswm y Materion/Risgiau yn ôl Statws (dyledus) _____	3
Graff 5 – Yr holl Faterion/Risgiau sy'n Parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn _____	4
Atodiad 1: Statws Manwl Materion/Risgiau 'Sylweddol' sy'n Parhau i fod angen Sylw _____	6

Tudalen 35


Cyflwyniad

1. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gosod cyfrifoldeb arno i fonitro'r gwaith o weithredu'r camau y cytunwyd arnynt o ganlyniad i waith yr adran Archwilio Mewnol.
2. Er mwyn rhyddhau'r ddyletswydd hon, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad manwl yn dangos perfformiad y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r camau sy'n parhau i fod angen sylw ddwywaith y flwyddyn yn ei gyfarfodydd ym mis Ebrill a Medi.
3. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nid yw Archwiliadau Mewnol bellach yn gwneud argymhellion wrth adrodd 'Materion' a 'Risgiau'. Er mwyn annog rheolwyr i fod yn atebol am y risgiau hyn, mae'n gyfrifoldeb arnynt i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion /risgiau sydd wedi'u hadnabod, ac rydym yn monitro sut yr ymdriniwyd â'r risgiau hyn.
4. Mae adroddiadau sydd wedi derbyn sicrwydd 'cyfyngedig', neu 'dim' sicrwydd yn destun adolygiad dilyn i fyny ffurfiol gan yr adran Archwilio Mewnol, a rhaid paratoi adroddiad archwilio a darparu sgôr sicrwydd. Rydym yn monitro'r holl 'faterion' a 'risgiau' eraill gan ddefnyddio system olrhain camau corfforaethol y Cyngor (4action).
5. Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr ar 4action, sy'n dangos darlun gwirioneddol o berfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â champau sy'n parhau i fod angen sylw, ac yn hwyluso'r gwaith o olrhain ac adrodd ar yr wybodaeth hon.
6. Rydym yn monitro camau gorddyledus yn barhaus er mwyn cael diweddariadau gan reolwyr ynghylch y cynnydd o ran mynd i'r afael â hwy yn brydlon.

Perfformiad Cyfredol


- Mae'r pum graff canlynol yn dangos y camau sy'n parhau i fod angen sylw ar draws y Cyngor fel ac yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2024. Ceir diweddariad statws manwl ar y pum mater/risg sy'n parhau i fod angen sylw yn [Atodiad 1](#) yn ogystal.
- Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion/risgiau 'coch' neu 'gritigol' yn ystod y flwyddyn, ac nid oes 'materion/risgiau' coch neu 'gritigol' yn parhau i fod angen sylw ar hyn o bryd
- Ar 31 Mawrth 2024, roeddem yn olrhain 39 cam sy'n parhau i fod angen sylw. Roedd pedwar o'r rhain yn 'sylweddol' (ambr) a 35 yn 'gymedrol' (melyn), fel y gwelir yn Graff 1 isod.

Graff 1 – Cyfanswm y Camau sy'n Parhau i fod angen Sylw



- Rydym yn parhau i fonitro'r holl gamau a'u holrhain gyda rheolwyr pan mae angen eu cwblhau, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â nhw. Ar hyn o bryd, mae un cam yr oedd rheolwyr i fod i'w gweithredu erbyn y dyddiad cwblhau, sydd bellach yn 'orddyledus', fel y gwelir yn Graff 2.


Graff 2 – Camau Gorddyledus



- Mae'r cam yn ymwneud â mater a aseswyd yn 'gymedrol' yn ystod archwiliad o 'Gyflenwyr Cynnal a Chadw a Thaliadau Dyblyg' ac adennill nifer fechan o daliadau i gredydwy'r a amlygwyd yn ystod yr archwiliad gwreiddiol.
- Fe'm cynghorwyd bod y Cyfrifydd dan Hyfforddiant yn edrych ar y taliadau dyblyg a'i fod wedi dod o hyd i ambell achos lle mae'r taliad dyblyg eisoes wedi cael ei adennill drwy anfonebau dilynol ar gyfer cyflenwyr y mae'r Cyngor yn eu defnyddio'n rheolaidd. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran y taliadau dyblyg sydd yn weddill, fodd bynnag oherwydd materion staffio yn y tîm Taliadau a chan fod rhaid blaenoriaethu gwasanaethau hanfodol a blaenoriaethau diwedd blwyddyn mae oedi wedi bod gyda'r

gwaith hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd gyda'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.

Graff 3 – Cyfanswm y Materion/Risgiau yn ôl Statws



- Mae Graff 3 yn dangos statws yr holl gamau sy'n parhau i fod angen sylw (waeth beth yw'r dyddiad y cytunodd reolwyr i'w gweithredu). Mae'n dangos fod rheolwyr bellach wedi ymdrin â 83%, ac mae Archwiliad Mewnol wedi dilysu 81%¹.
- Mae'r 2% sy'n weddill yn ymwneud ag archwiliad o 'Adennill Dyledion Treth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion y Cyngor', yr ydym yn ei olrhain yn ffurfiol ar hyn o bryd. Byddwn yn dilysu bod rheolwyr wedi llwyddo i weithredu'r camau hyn yn ystod y gwaith hwn.
- Mae'r camau 'heb eu dechrau' yn ymwneud â sawl archwiliad lle nad yw'r camau sydd wedi cael eu hadnabod wedi cyrraedd eu

¹ Mae AM yn dilysu pob cam sydd 'wedi cau' i sicrhau ein bod ni'n fodlon bod y camau y mae rheolwyr wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r risg wedi'u nodi.

dyddiadau cwblhau disgwylidig hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tlodi (YM11)
- Moderneiddio Cymunedau Dysgu (YM5)
- Rheoli'r Risg o Dwyll Tenantiaeth Tai
- Gwytnwch Sefydliadol
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Proses Dechreuwyr y Gyflogres.

- Pan fydd y dyddiadau hyn yn nesáu, byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i gael diweddariadau gan reolwyr er mwyn sicrhau cynnydd.


Graff 4 – Cyfanswm y Materion/Risgiau yn ôl Statws (dyledus)



- I'r gwrthwyneb, mae Graff 4 yn dangos statws yr holl gamau sydd wedi bodloni eu dyddiad targed. Mae'n dangos yr ymdriniwyd â 97% o'r camau a oedd yn ddyledus.

18. Mae Archwiliad Mewnol wedi dilysu'r rhan fwyaf o'r rhain, ond fel y nodwyd uchod, mae'r rheiny sydd angen eu dilysu'n ymwneud ag archwiliad o 'Adennill Dyledion Treth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Dyledion', sydd yn cael ei olrhain yn ffurfiol ar hyn o bryd. Mae'r camau a ymddengys yma fel camau 'ar waith' yn orddyledus erbyn hyn, fel y nodir ym mharagraff 11 uchod.
19. O bryd i'w gilydd, byddwn yn ymestyn dyddiadau cwblhau ar gyfer rhai camau, dim ond os yw'r gwasanaeth yn gallu darparu rheswm dilys ar gyfer hynny e.e. mae'n amlwg nad yw'r dyddiad gwreiddiol yn gyraeddadwy, gan fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater/risg.

Graff 5 – Yr holl Faterion/Risgiau sy'n Parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn



	Critigol
	Sylweddol
	Cymedrol

20. Fel y nodir uchod, mae 39 o gamau sy'n parhau i fod angen sylw sydd heb eu cwblhau'n llawn.
21. Mae'r rhain wedi'u gwasgaru rhwng blynyddoedd ariannol 2019/20 a 2023/24. Er bod graff 5 yn dangos bod y mwyafrif yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, mae tri phrif fater/risg yn dyddio'n ôl i 2019/20 a 2020/21 nad yw rheolwyr wedi ymdrin â hwy'n llawn.
22. Mae'r rhain yn ymwneud â chwblhau trefniadau mapio sicrwydd y Cyngor ac adennill nifer fechan o daliadau dyblyg i gredydwy'r.
23. Mae pob un wedi'u sgorio'n 'gymedrol' neu'n 'felyn' o ran risg blaenoriaeth, a chawsom sicrwydd gan reolwyr:
- Mae'r Cyngor yn y broses o ddiweddarau ei system Rheoli Risg, 4action. O ganlyniad, mae'r gwaith o lenwi'r map sicrwydd wedi ailgychwyn. Tra bo Archwilio Mewnol wedi llenwi sicrwydd ar y drydedd linell, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn gweithio gyda'r Rheolwr Busnes Gwasanaeth a'r tîm Perfformio er mwyn llenwi sicrwydd ar y llinell gyntaf a'r ail linell.
 - Fel y nodwyd ym mharagraff 11, mae'r gwaith i adennill y taliadau dyblyg a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad gwreiddiol yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, cafwyd oedi oherywdd problemau staffio yn y tîm Taliadau a'r angen i flaenoriaethu gwasanaethau hanfodol a blaenoriaethau diwedd blwyddyn.
24. Dylid nodi nad oes unrhyw faterion/risgiau 'sylweddol' yn dyddio'n ôl ymhellach na 2021/22, ac mae'r mwyafrif yn

ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol fel y gwelir uchod. Mae hyn yn dangos bod rheolwyr yn blaenoriaethu mynd i'r afael â blaenoriaethau uwch.

25. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n mynd i'r afael â'u materion/risgiau'n brydlon a llwyddiannus, os na fydd mater/risg 'sylweddol' wedi'i ddatrys cyn pen 12 mis o'r dyddiad cwblhau gwreiddiol, gofynnir i berchnogion y camau ddiweddarur Pwyllgor ynghylch y rhesymau dros yr oedi mewn mynd i'r afael â'r mater/risg.
26. Ar hyn o bryd mae un mater/risg 'sylweddol' neu ambr sydd yn dal heb ei ddatrys 12 mis wedi'r dyddiad cwblhau gwreiddiol. Mae hyn yn ymwneud â Recriwtio a Chadw a gweithredu system recriwtio newydd, a fydd yn ein galluogi adrodd ar ddata recriwtio yn well i'r Tîm Arweinyddiaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad 1 isod.
27. Gan fod y system recriwtio newydd ar fin cael ei rhoi ar waith, rydym wedi cytuno i adolygu'r cynnydd gyda'r gwasanaeth Trawsnewid ym mis Mai 2024. Os na fydd y mater/risg wedi cael ei ddatrys, byddwn yn gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a byddwn yn darparu adroddiad pellach pan fydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad nesaf ym mis Medi 2024.
28. Gweler diweddariad manwl ar statws y pedwar mater/risg 'sylweddol' sy'n cael eu holrhain ar hyn o bryd yn [Atodiad 1](#).
29. Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r holl gamau sy'n parhau i fod angen sylw er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau.

Atodiad 1: Statws Manwl Materion/Risgiau ‘Sylweddol’ sy’n Parhau i fod angen Sylw

Tudalen 40

Teitl yr Archwiliad	Blwyddyn yr Archwiliad	Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad	Dyddiad Targed Presennol	Sgôr Sicrwydd yr Adroddiad*	Crynodeb o'r Mater/Risg	Statws Presennol
Recriwtio a Chadw Staff	2021/22	Mehfin 2022	31/05/24	Rhesymol	Prin iawn yw'r adroddiadau rheolaidd a ffurfiol i'r Tîm Arweinyddiaeth ar ddadansoddi data recriwtio er mwyn sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o'r pwysau a'r tueddiadau sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn benodol o bwysig ar hyn o bryd o ystyried materion cenedlaethol lle mae recriwtio staff yn cael effaith ar bob sector.	<p>80% o'r cam wedi'i gwblhau. Mae cwblhau'r cam hwn yn ddibynnol ar roi system recriwtio newydd y Cyngor ar waith. Mae system newydd wedi cael ei phrynu sy'n gallu dadansoddi ac adrodd ar ddata'n well i'r Tîm Arweinyddiaeth.</p> <p>Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda, fodd bynnag mae materion technegol gyda'r darparwr a'r opsiynau iaith Gymraeg wedi peri oedi. Mae disgwyl i'r system gael ei lansio ddiwedd mis Mai 2024.</p> <p>Y dyddiad targed ar gyfer y cam hwn oedd Ionawr 2023. Mae'r cam 12 mis yn hwyr, fodd bynnag gan fod y system newydd ar fin cael ei lansio, rydym wedi cytuno i adolygu'r broses gyda'r gwasanaeth ym mai Mai 2024.</p>
Adennill Dyledion Treth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Dyledion	2023/24	Medi 2022	30/04/24	Cyfyngedig	<p>Mae nifer o fân ddyledion sydd heb gael eu holrhain ers nifer o flynyddoedd.</p> <p>Mae risg y gall peidio â chael proses systematig yn ei lle i adolygu hen fân ddyledion yn rheolaidd, arwain at symiau segur a cholled ariannol i'r Cyngor.</p>	<p>Yn ddiweddar fe gynhaliom adolygiad dilyn i fyny o Ddyledion Treth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Dyledion.</p> <p>Fe roesom ddiweddariad manylach i'r Pwyllgor yn ein hadroddiad dilyn i fyny terfynol, sydd wedi'i gynnwys fel rhan o adroddiad diweddarau'r Pennaeth Archwilio a Risg.</p>

Teitl yr Archwiliad	Blwyddyn yr Archwiliad	Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad	Dyddiad Targed Presennol	Sgôr Sicrwydd yr Adroddiad*	Crynodeb o'r Mater/Risg	Statws Presennol
Adennill Dyledion Treth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion	2023/24	Medi 2022	30/04/24	Cyfyngedig	<p>Mae nifer o ddyledion Treth Gyngor sydd heb gael eu holrhain ers nifer o flynyddoedd.</p> <p>Mae risg y gall peidio â chael proses systematig yn ei lle i adolygu hen ddyledion treth gyngor yn rheolaidd, arwain at symiau segur a cholled ariannol i'r Cyngor.</p>	Fel yr uchod.
Rheoli'r risg o dwyll tenantiaeth	2023/24	Medi 2023	31/07/24	Rhesymol	Nid yw 'r Gwasanaeth Tai'n cynnal archwiliadau tenantiaeth cyfnodol/seiliedig ar risg. O bersbectif gwrth-dwyll, mae archwiliadau tenantiaeth yn ffordd effeithiol o liniaru'r risg o feddiannu stoc dai'r Cyngor yn anghyfreithlon neu ei isosod/gadael/camdefnyddio.	50% o'r cam wedi'i gwblhau. Yn dilyn cyfres o sesiynau twyll tenantiaeth ar gyfer staff allweddol, mae'r Gwasanaeth Tai yn y broses o ddatblygu polisi a gweithdrefnau twyll tenantiaeth. Bydd hyn yn helpu i gadarnhau'r dull ar gyfer ymchwilio i achosion honedig o dwyll tenantiaeth. Mae'r gwasanaeth hefyd yn y broses o ddatblygu dogfen <i>pro-forma</i> twyll tenantiaeth i'w defnyddio wrth archwilio'r stoc dai (tua 10% o'r stoc y flwyddyn).

*Sgôr sicrwydd presennol – un ai ar adeg yr archwiliad gwreiddiol neu ar ôl yr adolygiad dilynol.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	18 Ebrill 2024
Pwnc:	Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd:</p> <p>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol i'r Pwyllgor oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'r dyletswyddau deddfwriaethol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (3.4.8.10.1).</p> <p>Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo (ond nid cyfarwyddo) y strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gofynion adnoddau archwilio mewnol a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. (3.4.8.10.5) Wrth ystyried y strategaeth arfaethedig, gofynnir i'r Pwyllgor wneud ymholiadau priodol gyda rheolwyr a phennaeth archwilio mewnol er mwyn pennu a oes unrhyw gwmpas amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau. (3.4.8.10.6)</p> <p>Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022, yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio mewnol yr awdurdod a Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, sy'n nodi'r angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio sefydlu cynlluniau'n seiliedig ar risg i ddewis y blaenoriaethau ar gyfer gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n cyd-fynd â nodau'r sefydliad. (Safon 2010).</p>	

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn i mi, fel y prif swyddog gweithredol archwilio, sefydlu strategaeth yn seiliedig ar risg, er mwyn pennu blaenoriaethau gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n cyd-fynd â nodau'r Cyngor.
- 1.2 Wrth flaenoriaethu ein hadnod cyfyngedig, mae'n rhaid i ni gwblhau gwaith digonol er mwyn fy ngalluogi i gyflwyno safbwynt archwilio mewnol i'r Cyngor er mwyn paratoi ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 1.3 Felly, cyflwynir Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25 i'r Pwyllgor ei adolygu a'i ystyried er mwyn penderfynu a yw'n bodloni gofynion sicrwydd y Cyngor.

2. Seiliedig ar Risg

- 2.1 Rwyf wedi defnyddio'r gofrestr risgiau fel sylfaen er mwyn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithgarwch archwilio mewnol. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn gofyn i'r Pwyllgor feddu ar ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd mae rheoli risg yn ei ddarparu wrth adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. (3.4.8.10.5)
- 2.2 Yn dilyn hyn, tynnir sylw'r Pwyllgor i'r Gwiriad Iechyd diweddar ar drefniadau Rheoli Risg y Cyngor, a chomisiynwyd Zurich Resilience Solutions i gwblhau adolygiad ar y trefniadau rheoli risg ar draws y Cyngor.
- 2.3 Mae Zurich wedi adrodd canlyniad ei waith i'r Pwyllgor yn ystod cyfarfod a gynhelir yn [Chwefror 2024](#). Aseswyd bod y Cyngor mewn cyfnod o drawsnewid rhwng lefel dau (yn datblygu) a thri (yn cael ei reoli) gyda rhai meysydd o'r sefydliad yn dangos aeddfedrwydd da iawn yn enwedig mewn perthynas â diwylliant a llywodraethu.
- 2.4 Roedd yr asesiad yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod rheoli risg yn cael ei ddatblygu a'i weithredu'n effeithiol yn y Cyngor.

3. Ymgynghoriad

- 3.1 Rwyf wedi cwrdd â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 (y prif swyddog ariannol sy'n atebol am sicrhau bod swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol yn cael ei rheoli a'i chefnogi gan adnoddau) a phenaethiaid gwasanaeth er mwyn trafod eu safbwyntiau ar y meysydd arfaethedig fydd yn cael eu hadolygu, a'u pryderon.

4. Newidiadau

- 4.1 Byddaf yn parhau i adolygu'r blaenoriaethau, fel bo'n ofynnol, gan eu haddasu mewn ymateb i'r newidiadau i fusnes y Cyngor, risgiau, gweithdrefnau a rhaglenni, er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol.
- 4.2 Byddaf yn adrodd newidiadau i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

5. Argymhelliad

5.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- cymeradwyo (ond nid cyfarwyddo) y Strategaeth Archwilio Mewnol sy'n seiliedig ar risg a'i fod yn cytuno ei bod yn darparu'r sicrwydd gofynnol i'r Cyngor.
- yn cytuno â gofynion archwilio mewnol o ran adnoddau a defnyddio ffynonellau sicrwydd eraill.
- yn cytuno nad oes cwmpas amhriodol na chyfyngiadau o ran adnoddau.

Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25

Ebrill 2024



Tudalen 45

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

Cyd-destun cyfredol _____	1
Cyflwyniad _____	2
Cenhadaeth ac amcanion _____	2
Strwythur, capasiti, hyfforddiant a datblygiad archwilio mewnol _____	3
Dull archwilio _____	4
Blaenoriaethau _____	6
Dilyn i fyny _____	8
Mesurau perfformio _____	9
Atodiad A - Map Sicrwydd (Trydedd Linell) _____	10

Cyd-destun cyfredol

1. Mae Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25 yn cael ei osod yn erbyn yr un themâu a nodwyd yn Strategaeth 2023-24; newid technolegol sy'n digwydd yn gyflym ac ansicrwydd economaidd, wrth i'r byd gael ei lethu gan ddwy argyfwng sylweddol: yr hinsawdd a gwrthdaro^{1 2}.
2. Mae llawer o risgiau'n dod yn fwy cyffredin, megis prinder sgiliau a phrofiad, ymosodiadau seibr wedi'u targedu ac effeithiau deallusrwydd artiffisial (DA)³.
3. Er mwyn llywio'r ansicrwydd hyn, mae'n rhaid i archwilio mewnol fod yn hyblyg a gwydn. Rydym angen integreiddio ein dealltwriaeth o risgiau mewn archwiliadau er mwyn rhagweld a mynd i'r afael â risgiau posibl yn well.
4. Er mwyn helpu'r Cyngor i ffynnu yn y tirlun hwn sy'n parhau i newid, rydym wedi ystyried y canlynol wrth ddatblygu'r Strategaeth hon:
 - Cyfnodau amser byrrach fel bo sicrwydd yn cael mwy o effaith
 - Gwasanaethau'n newid prosesau er mwyn ymateb i anghenion sy'n newid
 - Dibynnu ar ddata cywir, o ansawdd wrth wneud penderfyniadau
 - Trosiant staff ac anfodddhad
 - Risg uwch o dwyll

¹ [Adroddiad Risgiau Byd-eang 2024, Fforwm Economaidd y Byd](#)

² [Risk in Focus 2024 – Hot Topics for Internal Auditors, ECIA](#)

³ [Emerging Risk Radar, RSM, Ionawr 2024](#)

Cyflwyniad

5. Mae [Safonau Archwilio Mewnol y Gwasanaethau Cyhoeddus](#) (PSIAS) 2017 yn diffinio ac yn gosod yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer archwilio yng ngwasanaethau cyhoeddus y DU. Mae'r PSIAS yn darparu diffiniad, y genhadaeth a'r egwyddorion craidd ar gyfer archwilio mewnol a'r gweithgarwch a'r safonau y mae'n rhaid eu bodloni.
6. Er mwyn cefnogi'r PSIAS, a darparu canllawiau penodol ynghylch ei ddefnydd mewn lleoliad llywodraeth leol, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi llunio [Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol](#) (LGAN) a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2019, ac mae'n gosod y gofynion i archwilio mewnol llywodraeth leol gefnogi'r defnydd o PSIAS.
7. Mae'r Safonau'n gofyn i'r prif swyddog archwilio sefydlu cynlluniau'n seiliedig ar risg er mwyn pennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio, sy'n cyd-fynd ag amcanion y sefydliad. Yn fwy penodol yn y sector cyhoeddus, mae'n rhaid i'r cynlluniau sy'n seiliedig ar risg ystyried y gofyniad i gynhyrchu safbwynt archwilio mewnol blynyddol a'r fframwaith sicrwydd.
8. Mae'r [Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang](#) newydd (fydd yn dod i rym yn Ionawr 2025), yn cyflwyno gofyniad newydd i'r prif swyddog archwilio ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol y sefydliad ac sy'n cyd-fynd â disgwyliadau'r bwrdd, uwch reolwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Disgwylir y bydd y gofyniad yn cael ei gynnwys yn y gwaith o adolygu'r PSIAS a'r LGAN atodol, sy'n debygol o ddod i rym yn Ebrill 2025.


Cenhadaeth ac amcanion

9. Ein cenhadaeth yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd yn seiliedig ar risg ac amcanion, cyngor a mewnwelediad.
10. Mae ein mandad, diben, awdurdod a chyfrifoldebau wedi'u diffinio yn y Siarter Archwilio Mewnol, sy'n cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
11. Rydym yn dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n darparu sicrwydd a chynghor i reolwyr ar bob lefel ac aelodau etholedig a lleyg ynghylch ansawdd gweithdrefnau yn y Cyngor. Rydym un o brif elfennau allweddol fframwaith llywodraethu'r Cyngor, fel y cydnabyddir drwy sector cyhoeddus y DU.
12. Mae ein rôl yn unigryw ac yn bwysig pan fydd y Cyngor yn wynebu cyfnodau heriol ac ansicr.
13. Ein hamcanion yw:
 - rhoi sicrwydd a chynghor annibynnol i reolwyr ac aelodau etholedig ac aelodau lleyg ar reoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol
 - darparu her effeithiol a bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol a gwelliannau parhaus
 - cydweithio gyda rheolwyr i helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol
 - gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr allanol i gydlynu gweithgareddau sicrwydd.

Strwythur, capasiti, hyfforddiant a datblygiad archwilio mewnol

Strwythur

- Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae integreiddio'r timau Archwilio Mewnol a Rheoli Risg, mabwysiadu dull sy'n gwbl seiliedig ar risg a dull 'archwilio ystwyth' wedi gwella'r sicrwydd y mae'n ei roi i'r Cyngor.
- Mae'r tîm newydd wedi ymateb yn dda; mae staff wedi parhau i addasu eu sgiliau, wedi cynnal archwiliadau mwy cymhleth ac ar lefel strategol, ac wedi rheoli llwyth gwaith uwch.



⁴ Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yw'r corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus,

⁵ Y Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol (CIIA) yw'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer archwilwyr mewnol.

Capasiti

- Mae gennym ddwy swydd wag ar hyn o bryd ar lefel Uwch Archwilydd. Rydym yn defnyddio'r arbedion cyllidebol o ganlyniad i'r swyddi gwag i gomisiynu arbenigwyr pwnc i fodloni anghenion sicrwydd technegol a chymhleth rhai o'r risgiau strategol.
- Yn ogystal â hyn, a gyda lefel cynhyrchiant o 75%, mae gennym oddeutu 542 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau'r gweithgarwch archwilio mewnol sy'n weddill, gan gynnwys ymchwiliadau, er mwyn darparu'r safbwynt sicrwydd blynyddol.


Hyfforddiant a datblygiad

- Mae gallu archwilio mewnol i gynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol a'i flaenoriaethau'n ddibynnol ar ansawdd y tîm archwilio mewnol.
- Mae'r tîm yn cynnwys cyfoeth o brofiad archwilio mewnol ac allanol, ynghyd â chymysgedd wych o gymwysterau proffesiynol, gan gynnwys CIPFA⁴, CIIA⁵, IRRV⁶, ACFS ac ACFTech⁷, ynghyd â chymwysterau academaidd mewn Rheoli Newid, Busnes a Chyfrifyddiaeth.
- Felly, mae parhau i wella capasiti a gallu archwilio mewnol yn flaenoriaeth ar gyfer gwella ei effaith ac effeithlonrwydd ac i adeilad tîm medrus tu hwnt a all fynd i'r afael ag anghenion sicrwydd sy'n newid yn hyderus.

⁶ Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV) yw'r corff proffesiynol ar gyfer trethiant, budd-daliadau a phrisio lleol.

⁷ Mae'r ACFS (Accredited Counter Fraud Specialist) ac ACFTech (Accredited Counter Fraud Technician) yn gymwysterau gwrth-dwyll proffesiynol sydd wedi'u hachredu gan y Bwrdd Dyfarniadau Proffesiynol Gwrth-dwyll.

21. Mae heriau'n bodoli o ran sicrhau bod digon o archwilwyr profiadol ar gael i gwblhau gwaith mwy cymhleth yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth i staff amhrofiadol.
22. Felly, bydd y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant a datblygu fel bo'r tîm yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol, bod yn ymwybodol o risgiau a datblygiadau sy'n codi'u pen yn y sector, ac i sicrhau y cedwir staff. Byddwn hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant mandadol corfforaethol pan fo'n ofynnol.
23. Mae'r Cyngor yn cefnogi ein Huwch Archwilydd gyda chymhwyster proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol. Ar y cyfan, byddwn yn buddsoddi 60 diwrnod (8%) mewn hyfforddiant a datblygu yn ystod 2024-25, yn cynnwys:



Dull archwilio

24. Mae'r proffesiwn Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol ers ei ddyddiau gwirio cydymffurfiaeth pan oedd gwaith archwilio'n canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r gorffennol a sicrhau cydymffurfiaeth. Cyfrifoldeb rheolwyr yw cydymffurfio. Mae archwilio wedi esblygu, gan symud o archwilio sy'n 'seiliedig ar systemau' i archwilio sy'n 'seiliedig ar risg', ac yn fwy diweddar, mae wedi mabwysiadu dull 'archwilio ystwyth' i helpu sefydliadau i edrych ymlaen a mynd i'r afael â materion a allai effeithio ar berfformiad yn fwy hyblyg.
25. Yn wahanol i archwilio mewnol traddodiadol, lle mae cynlluniau archwilio'n cael eu gweithredu yn unol ag amserlen gaeth, a lle nad ydynt o reidrwydd yn rhoi sylw i'r risgiau pwysicaf, mae archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg yn cael ei yrru gan yr asesiadau risg diweddaraf, gan roi sylw i'r bygythiadau mwyaf yn gyntaf ac yn llawer mwy aml.

Dull archwilio seiliedig ar risg

26. Mae Safon 2010 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn nodi bod rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu dull sy'n seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau gweithgaredd archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad.
27. O ganlyniad, y ffordd orau i'r gweithgaredd archwilio mewnol proffesiynol gyflawni ei genhadaeth fel conglfaen llywodraethu yw trwy leoli ei waith yng nghyd-destun fframwaith rheoli risg y sefydliad ei hun. Felly, rydym wedi alinio ein gweithgaredd archwilio mewnol â'r gofrestr risg strategol.
28. Er mwyn darparu dull mwy ystwyth ac i gymryd newidiadau yn y sefydliad a'r amgylchedd risg i ystyriaeth, rydym hefyd yn cwrdd ag uwch reolwyr i drafod eu risgiau, eu pryderon a'u gofynion

diweddaraf. Yn y modd hwn, rydym yn gwbl ymwybodol o'r materion sy'n dod i'r amlwg ac yn gallu canolbwyntio ein hadnoddau yn y meysydd sydd â'r flaenoriaeth a'r risg fwyaf.

Mapio sicrwydd

29. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol mewn sefyllfa unigryw yn y sefydliad i roi sicrwydd cyfannol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, llywodraethu a rheoli risg.
30. Mae'r '[model tair llinell](#)' yn fframwaith y gellir ei ddefnyddio i ddod â'r ffynonellau sicrwydd hyn at ei gilydd, a bydd yn rhoi sicrwydd i aelodau, rheoleiddwyr sector ac archwilwyr allanol bod rheolaethau a phrosesau priodol ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol, ac y byddant yn cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.
31. Rydym yn gweithio gyda'r llinell gyntaf a'r ail linell i sicrhau'r fath sicrwydd ac yn cefnogi'r Tîm Busnes a Pherfformiad Corfforaethol i ddefnyddio ein meddalwedd rheoli risg (4risk) i gofnodi'r 'tair llinell':
 - **Llinell gyntaf** – rheolaeth; swyddogaethau gweithredol
 - **Ail linell** – swyddogaethau cymorth megis AD, Cyllid, TG, Cyfreithiol, Diogelwch Gwybodaeth, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Risg
 - **Trydedd linell** – sicrwydd cyffredinol a ddarperir gan gyrff rheoleiddio mewnol, allanol neu eraill a chyrrff llywodraethu

Archwilio ystwyth

32. Y prif wahaniaeth rhwng archwilio ystwyth ac archwilio traddodiadol yw hyblygrwydd. Yn lle cynllunio anhyblyg, un cam, mae archwilio ystwyth yn canolbwyntio ar gynllunio hyblyg, ailadroddol ar sail barhaus. Mewn gwaith archwilio traddodiadol, mae'r cynllunio'n digwydd fisoedd os nad blynyddoedd ymlaen llaw, a all olygu bod y 'cynllun' wedi dyddio cyn iddo gael ei gymeradwyo hyd yn oed.
33. Mae cylch cynllunio hyblyg yr archwiliad ystwyth yn caniatáu i dimau flaenoriaethu tasgau yn seiliedig ar risgiau ac anghenion y sefydliad. Yn lle dilyn cynllun archwilio mewnol anhyblyg, mae ôl-groniad o archwiliadau a phrosiectau yn cael eu diweddarau'n barhaus.
34. Mae ffocws craidd ar gydweithio a chyfathrebu rhwng y tîm archwilio a'r rhanddeiliaid trwy gydol yr holl brofiad hefyd. Er bod ansawdd archwilio bob amser yn ystyriaeth allweddol, mae cyfathrebu'n digwydd yn fwy aml ac anffurfiol ac nid oes unrhyw beth annisgwyl yn codi.
35. Po fwyaf yr ydym yn ei wybod, a chyn gynted ag y byddwn yn ei wybod, po orau y gallwn helpu'r sefydliad i fynd â'r afael â materion rheoli a risg posib. Mae hyn yn helpu i leihau'r effaith negyddol ar gwsmeriaid, staff ac aelodau.

Blaenoriaethau

Cofrestr risg strategol

36. Er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r Cyngor, mae rhan helaeth o'n gwaith yn canolbwyntio ar adolygu'r gofrestr risg strategol dros gyfnod treigl o ddwy flynedd.
37. Rydym yn canolbwyntio ar risgiau cynhenid 'coch', lle mae'r risg gweddilliol yn 'goch' neu 'ambr'.
38. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wedi asesu 13 (12 yn 2023-24) o'i risgiau strategol fel risgiau cynhenid 'coch', mae saith (wyth yn 2023-24) yn risgiau lle mae'r Cyngor wedi asesu'r risg gynhenid a'r risg gweddilliol fel risgiau 'coch' ac mae pedwar (tri yn 2023-24) yn risgiau cynhenid 'coch' sydd â risg weddilliol 'ambr'.
39. O ganlyniad, rhoddir blaenoriaeth i adolygu'r risgiau a adolygwyd ddiwethaf yn ystod 2022-23 ac unrhyw risgiau newydd (gweler [Atodiad A](#) am fanylion o'r archwiliadau arfaethedig).

Archwiliad TG

40. Seiberddiogelwch yw risg fwyaf y 21ain ganrif, heb os. Ynghyd â diogelwch data, mae'n parchu i fod y prif fygythiad mewn [arolwg](#)⁸ gan brif swyddogion archwilio Ewrop – gydag 84% yn dweud ei fod ymhlith y 5 risg uchaf (82% yn 2023 a 2022).
41. Mae hacwyr hefyd yn symud i faes mwy bygythiol, sef yr hyn a elwir yn "meddalwedd ddifa" i roi pwysau ar sefydliadau i dalu - mae'r ymosodiadau hyn yn targedu seilwaith critigol. Mae

lliniaru risg meddalwedd wystlo'n parhau i fod yn anodd ac mae'n creu risg i fodolaeth sefydliadau.

42. Gall achos difrifol o dor diogelwch effeithio ar ansawdd gwasanaethau'r Cyngor, ar ymddiriedaeth a'i enw da, dirwyon yn gysylltiedig â thorri'r GDPR a'i sefyllfa ariannol, ond, yn fwy difrifol, ar allu'r Cyngor i barhau i ddarparu ei wasanaethau i gleientiaid bregus.
43. Gan ein bod wedi cyrraedd pendraw ein galluedd technegol yn y maes hwn, rydym wedi comisiynu Archwilwyr TG yng Nghyngor Dinas Salford i gyflawni rhaglen waith i ddarparu sicrwydd i'r Cyngor fod ei wendidau TG yn cael eu rheoli'n effeithiol.
44. Yn ystod 2024-25, rydym yn bwriadu ceisio sicrwydd fod y Cyngor wedi asesu risgiau'n briodol a'i fod wedi rhoi mesurau lliniaru effeithiol ar waith yn y meysydd canlynol:
 - Seiberddiogelwch – Dadansoddiad o'r Bylchau – Parodrwydd ar gyfer yr Asesiad Fframwaith Seibr (CAF)
 - Rheoli Desg Gwasanaeth (gan gynnwys newid prosesau rheoli)
 - Safon Diogelu Data Diwydiant (y) Cardiau Talu (PCIDSS) – rhaid i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r safon (safon diogelu gwybodaeth a ddefnyddir i ymdrin â chardiau credyd gan gwmnïau cerdyn mawr)
 - Seiberddiogelwch mewn Ysgolion

⁸ Risk in Focus 2024, Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol.

Atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd

45. Pan mae pobl yn twyllo'r sector cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus, maent yn cymryd arian oddi wrth wasanaethau y mae'r cyhoedd yn dibynnu arnynt, ac maent yn niweidio hyder dinasyddion yn y llywodraeth. Mae twyll a llygredd yn faterion sy'n esblygu, ac, fel y cyfryw, rhaid i ymateb y Cyngor fod yn hyblyg a rhaid iddo addasu i natur twyll sy'n newid.
46. Felly, byddwn yn parhau i adolygu ymagwedd y Cyngor tuag at atal twyll, atal llwgrwobrwyo a llygredd, atal gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth trwy'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.
47. Mae'r Strategaeth ar gyfer 2024-26 yn cael ei adolygu a bydd yn cael ei chyflwyno am ystyriaeth yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2024.

Gwaith archwilio arall

Adnabod sylfaen y Dreth Gyngor

48. Mae'r dreth gyngor yn ffynhonnell refeniw sylweddol i'r Cyngor. Mae adnabod y sylfaen yn gywir yn sicrhau bod y faich ariannol yn cael ei rhannu'n deg ymhlith trigolion yn ôl gwerth eu heiddo, ac mae'n helpu i leihau cyfleoedd ar gyfer efadu neu osgoi trethi.
49. Drwy gadw cofnodion cyfredol am eiddo a'u bandiau prisio, gall cynghorau adnabod anghysondebau neu ymdrechion i efadu rhwymedigaethau treth yn fwy effeithiol. Mae hyn yn diogelu cywirdeb y system drethi ac yn sicrhau bod pob trigolyn yn cyfrannu'n deg at wasanaethau lleol.

Rheoli perfformiad

50. Mae adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru (Tachwedd 20230 wedi dod i'r casgliad fod gwybodaeth gyfyngedig

ynghylch perfformiad wedi'i darparu i uwch arweinyddion er mwyn eu galluogi i ddeall safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth a chanlyniadau gweithgarwch y Cyngor, a gwnaed tri argymhelliad ar gyfer gwelliannau.

51. Byddwn yn cwblhau adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, gan gynnwys trefniadau i sicrhau cywirdeb y data mae'r Cyngor yn ei gasglu.

Cronfa 'answyddogol' ar gyfer ysgolion

52. Rydym yn parhau i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc er mwyn darparu sicrwydd bod cyfrif cywir yn cael ei roi am incwm a gwariant mewn cronfeydd answyddogol ysgolion a bod y trefniadau llywodraethu'n briodol, a hynny drwy asesu ansawdd tystysgrifau archwilio cronfeydd ysgolion. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys darparu hyfforddiant i benaethiaid.

Monitro parhaus

53. Rydym yn gallu dadansoddi llwythi data sylweddol yn gyflym ac yn ddidrafferth drwy ddefnyddio meddalwedd dadansoddi data. Yn ogystal â dadansoddi data yn ystod archwiliadau eraill, byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y swyddogaeth Taliadau i nodi taliadau dyblyg a methiannau eraill yn y prosesau prynu a thalu.
54. O ganlyniad i'r gwaith monitro parhaus hwn, byddwn yn nodi methiannau pellach mewn rheolaethau, a'r goblygiadau ariannol, yn gynt. P'un ai fydd yn arbed arian i'r cyngor, neu os nad oes colled sylweddol, mae canfod methiannau mewn rheolaethau yn gynnar yn golygu bod modd cymryd camau adfer a gweithredu mewn da bryd.

Gwaith sy'n weddill o 2023-24

55. Cafodd y gwaith hwn, sy'n llai o flaenoriaeth, ei roi i'r neilltu er mwyn canolbwyntio ar archwiliadau risg uwch. Mae bod yn hyblyg yn hanfodol o ran ein dull ystwyth, lle rydym yn blaenoriaethu archwiliadau'n seiliedig ar risg ac anghenion y sefydliad. Bydd yr archwiliadau'n parhau os bydd adnoddau'n caniatáu hynny.

Rheoli contract

56. Mae archwiliad i daliad dyblyg wedi tynnu sylw at wendidau mewn prosesu rheoli contractau yn y Cyngor. Bydd yr archwiliad hwn yn darparu sicrwydd fod rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r gwendidau hyn ac nad ydynt yn bodoli yn rhannau eraill o'r Cyngor.

Cyllid gofal cymdeithasol oedolion

57. Mae bwlch mewn cyllid gofal cymdeithasol yn parhau i ymestyn, sy'n rhoi pwysau sylweddol ar y Cyngor i reoli ei incwm a gwariant yn y maes hwn.

58. Mae mwy o alw am wasanaethau a chymorth, ond llai o adnoddau a gallu i'w darparu. Mae hefyd cost ariannol uniongyrchol i awdurdodau lleol yn ogystal â'r risg o niweidio eu henw da os byddant yn methu a bodloni gofynion statudol.

59. Felly, byddwn yn adolygu'r fframwaith codi tâl ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion.

Rheolaeth ariannol mewn ysgolion

60. Mae'r gwaith o sicrhau ansawdd tystysgrifau archwilio cronfeydd answyddogol ysgolion, ac yn ystod archwiliadau rhai cronfeydd, wedi amlygu y gall prosesau rheoli cyllid mewn ysgolion elwa o adolygiad mwy manwl.

Dilyn i fyny

61. Mae Safon 2500 yn nodi bod rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu proses dilyn i fyny i fonitro a sicrhau bod rheolwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r risgiau a godwyd neu fod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â gweithredu.

62. Gall blaenoriaethau eraill, cyfyngiadau cyllidebol a ffactorau eraill atal rheolwyr rhag mynd i'r afael â Materion/Risgiau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni neu fel y cynlluniwyd yn flaenorol i liniaru'r risg.

63. Mae rheolwyr nad ydynt yn mynd i'r afael â Materion / Risgiau sy'n codi o waith archwilio mewnol yn peryglu'r sefydliad. Trwy ddilyn i fyny, mae hyn yn helpu i'w atal rhag dod yn broblem.

64. Yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol, byddwn yn cymryd camau ffurfiol i ddilyn i fyny'r holl Faterion / Risgiau a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio gyda sgôr Sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim Sicrwydd'.

65. Pan fydd adroddiadau'n parhau i ddenu sgôr 'Sicrwydd Cyfyngedig' neu 'Dim Sicrwydd', gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wahodd perchennog y risg neu'r pennaeth gwasanaeth i gyfarfod i drafod yr adroddiad.

66. Byddwn yn parhau i helpu'r Cyngor i dracio gweithrediad yr holl weithredoedd a byddwn yn cofnodi pob cam y cytunwyd arnynt ar system dracio fewnol (4action).

Mesurau perfformio

67. Mae archwilio mewnol seiliedig ar risg yn broses ddynamig ac felly mae'n anoddach ei rheoli na methodolegau traddodiadol. Mae monitro cynnydd yn erbyn cynllun sy'n newid yn gyson yn her ac rydym wedi adolygu ein mesurau perfformio er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth rydym yn ceisio ei gynnig.
68. Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith i sicrhau bod ein gwasanaeth archwilio mewnol yn gwella'n barhaus. Rydym wedi mabwysiadu cyfres lai a symlach o fesurau perfformiad i werthuso effeithiolrwydd ein gwaith, a gwelir hyn yn y tabl i'r dde.
69. Methoddau dau faes i gyflawni ei lefel perfformio targedig; archwiliadau a gwblhawyd mewn chwe mis a nifer y staff. Bu i ddau archwiliad gymryd mwy na chwe mis i'w cwblhau oherwydd absenoldeb staff allweddol yn y gwasanaeth (6.3 a 6.8 mis). Gwelwyd oedi wrth gwblhau un archwiliad oherwydd oedi yn y gwasanaeth wrth ddarparu'r wybodaeth ofynnol ar gyfer yr archwiliad (8.0 mis).
70. Mae cyfnodau amser byrrach ar gyfer archwiliadau'n hanfodol o ran sicrhau bod sicrwydd yn effeithiol, felly byddwn yn parhau i geisio cwblhau archwiliadau'n gyflym.
71. Ynghyd â'r seonddiad fydd yn parhau yn y tîm Cyfrifyddiaeth, ymddeolodd Uwch Archwilydd yn ystod y flwyddyn, a gwnaed penderfyniad i beidio â llenwi'r swyddi gwag a parhau i ddefnyddio'r gyllideb i gomisiynu arbenigedd allanol. Mae'r targed newydd ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu staff sydd mewn swyddi ar hyn o bryd.

72. Yn ystod 2023-24, ychwanegwyd dau fesur newydd yn ymwneud ag atal twyll a chanlyniad y rhaglen sicrhau ansawdd a gwelliannau.

Dangosydd Perfformiad	Targed 2022-23	Gwirioneddol 2022-23	Targed 2023-24	Gwirioneddol 2023-24	Targed 2024-25
Archwiliwyd risgiau gweddilliol coch /ambr yn y Gofrestr Risg Strategol 9dros gyfnod treigl o 24 mis)	80%	82%	80%	82%	80%
Archwiliadau a gwblhawyd mewn 6 mis	85%	89%	85%	84%	85%
Ymateb cleientiaid yn 'fodlon'	100%	100%	100%	100%	100%
Nifer y staff (Cyfwerth Llawn Amser)	5.0 CLIA	3.0 CLIA	4.0 CLIA	3.3 CLIA	2.8 CLIA
Pob rhybudd twyll a dderbyniwyd, ystyriwyd ac a ddosbarthwyd.	n/a	n/a	100%	100%	100%
Canlyniad asesiadau mewnol (blynyddol) ac allanol (5 mlynedd) o'r rhaglenni sicrhau ansawdd a gwella.	n/a	n/a	Cydymffurfi o'n gyffredinol	Cydymffurfi o'n gyffredinol	Cydymffurfi o'n gyffredinol

Atodiad A - Map Sicrwydd (Trydedd Linell)

Cyf Risg	Risg	Blaenoriaeth Risg Cynhenid	Blaenoriaeth Risg Gweddill iol	Dyddiad Creu	Blwyddyn Archwilio 2018/19	Blwyddyn Archwilio 2019/20	Blwyddyn Archwilio 2020/21	Blwyddyn Archwilio 2021/22	Blwyddyn Archwilio 2022/23	Blwyddyn Archwilio 2023/24	Yn yr arfaeth ar gyfer Blwyddyn Archwilio 2024/25
YM1	Risg bod y gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol	5:5 25	4:5 20	14/05/19 12/01/22		Cadernid Ariannol (Ebrill 2020)			Cadernid Ariannol (Tachwedd 2022)		Gwydnwch ariannol - Grymuster dyfynbrisia u a chywirdeb asesiad arian wrth gefn (Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003) (Ch1)
YM2	Risg bod y Cyngor yn methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu nad yw'r strwythur staffio yn addas	4:5 20	4:4 16	20/06/18 12/01/22	Recriwtio a Chadw (Mawrth 2019)				Recriwtio a Chadw (Mehefin 2022)		Recriwtio a Chadw (Ch2)
YM3	Risg bod methiant TG yn amharu'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau	5:5 25	4:4 16	21/06/18 10/09/18 12/01/22	Archwiliad TG - Seiberddioge lwch (Chwefror 2019)	Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Ebrill 2020)	Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Dilyn i Fyny) (Mai 2021)	Archwiliad TG - Rheoli Trwyddedau Meddalwedd (Ionawr 2022)	Archwiliad TG - Cyfrifiadura yn y Cwmwl (Mawrth 2023)	Rheoli Cyflenwyr (Mawrth 2024) Adroddiad Drafft	Seiberddioge lwch - Dadansoddi Bylchau - Parodrwydd ar gyfer y Fframwaith Asesu Seibr (CAF) (Ch2)

Tudalen 55

Cyf Risg	Risg	Blaenoriaeth Risg Cynhenid	Blaenoriaeth Risg Gweddilliol	Dyddiad Creu	Blwyddyn Archwilio 2018/19	Blwyddyn Archwilio 2019/20	Blwyddyn Archwilio 2020/21	Blwyddyn Archwilio 2021/22	Blwyddyn Archwilio 2022/23	Blwyddyn Archwilio 2023/24	Yn yr arfaeth ar gyfer Blwyddyn Archwilio 2024/25
							Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG (Gwerydo) (Ebrill 2021)		Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG (Gwerydo) (Dilyn i Fyny) (Medi 2022)	Rheoli Mynediad Corfforaethol (Risgiau Allweddol) (Mawrth 2024)	Rheoli Desg Gwybodaeth (gan gynnwys newid prosesau rheoli) (Ch4)
								Rheoli Gwendidau TG (Medi 2022)			Seiberddiog elwch mewn ysgolion (Ch3)
								Rheoli Gwendidau TG (Ionawr 2023)			
YM5	Y risg o fethu â gweithredu newidiadau cenedlaethol i'r system addysg a chwrdd â heriau addysgol y dyfodol	4:5 20	4:4 16	20/06/18 12/01/22						Rhaglen Moderneiddio Cymunedau sy'n Dysgu (Awst 2023)	
YM7	Y risg nad yw'r Cyngor yn ddigon gwydn i allu darparu gwasanaethau yn wyneb newidiadau allanol	4:4 16	3:4 12	20/06/18 12/01/22		Rheoli Risgiau Brexit (Ionawr 2020)	Adolygiad o'r Ymateb i'r Argyfwng COVID-19 (Ebrill 2020)	Sicrwydd ynghylch Rheoli'r Argyfwng COVID-19 (Mai 2021)		Gwydnwch Sefydliadol (Tachwedd 2023)	
						Parhad Busnes (Chwefror 2020)					

Cyf Risg	Risg	Blaenoriaeth Risg Cynhenid	Blaenoriaeth Risg Gweddilliol	Dyddiad Creu	Blwyddyn Archwilio 2018/19	Blwyddyn Archwilio 2019/20	Blwyddyn Archwilio 2020/21	Blwyddyn Archwilio 2021/22	Blwyddyn Archwilio 2022/23	Blwyddyn Archwilio 2023/24	Yn yr arfaeth ar gyfer Blwyddyn Archwilio 2024/25
YM9	Risg o ddiffyg tai addas y gall preswylwyr lleol eu fforddio yn eu cymunedau	4:5 20	4:5 20	12/01/22					Trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu tai addas (Mehefin 2022)		Strategaeth Adeiladu Tai y Cyngor (Ch1)
YM10	Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain at neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt	5:4 20	4:2 8	20/06/18 12/01/22	Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Mehefin 2018)		Panel Rhiantu Corfforaethol (Ionawr 2021)		Archwiliad wedi cychwyn ym Mawrth 2023 a'i ddwyn ymlaen i 2023-24	Rheoli Risg Strategol - Diogelu (YM10) (Ionawr 2024)	
YM11	Risg bod tlodi cynyddol yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor	4:5 20	4:5 20	18/08/20 12/01/22	Diwygio Lles (Ebrill 2019)				Tlodi (Mawrth 2023)		Ymateb y Cyngor i Dlodi Cynyddol (Ch4)
YM13	Y risg bod newid hinsawdd yn effeithio ar yr Ynys ac na fydd y Cyngor yn sefydliad sero net erbyn 2030	4:4 16	4:3 12	12/01/22					Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd (ZM) (Medi 2022)		Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Newid Hinsawdd (Ch3)
YM14	Y risg na fydd asedau ffisegol y Cyngor yn addas nac yn cwrdd ag	5:5 25	4:4 16	12/01/22				Buddsoddiad mewn Asedau (Tachwedd 2021)		Rheoli Asedau (WIP)	

Cyf Risg	Risg	Blaenoriaeth Risg Cynhenid	Blaenoriaeth Risg Gweddilliol	Dyddiad Creu	Blwyddyn Archwilio 2018/19	Blwyddyn Archwilio 2019/20	Blwyddyn Archwilio 2020/21	Blwyddyn Archwilio 2021/22	Blwyddyn Archwilio 2022/23	Blwyddyn Archwilio 2023/24	Yn yr arfaeth ar gyfer Blwyddyn Archwilio 2024/25
	anghenion trigolion, busnesau ac ymwelwyr yn y dyfodol										
YM16	Y risg na all y Cyngor reoli newid yn effeithiol sy'n cyfyngu ar ei allu i foderneiddio a darparu gwasanaethau cynaliadwy, effeithiol ac effeithlon	4:5 20	3:4 12	11/07/23 02/01/24							Trefniadau'r Cyngor ar gyfer Rheoli Newid (Ch3) Archwiliad TG - Rheoli Desg Gwasanaeth (gan gynnwys prosesau rheoli newid) (Ch4)

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	18 Ebrill 2024
Pwnc:	Siarter Archwilio Mewnol
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd:</p> <p>O dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1)</p> <p>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hefyd yn cynnwys gofyniad clir i adolygu a chymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio gweithgareddau, pwrpas, awdurdod a chyfrifoldebau archwilio mewnol. (3.4.8.10.3)</p> <p>Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus hefyd yn darparu ar gyfer adolygu'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am roi cymeradwyaeth derfynol i'r Siarter.</p>	

1. Newidiadau i'r Siarter

Defnyddio'r term 'Cwsmer'

- 1.1. Y tro diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol oedd ym mis [Rhagfyr 2022](#).
- 1.2. Wrth adolygu'r Siarter, cwestiynodd y Pwyllgor addasrwydd y term 'cwsmeriaid' a chafwyd addewid gan y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai'n adolygu'r term. Mae'r Siarter wedi cael ei ddiwygio yn unol â hynny (gweler yr adran 'Pwrpas Archwilio Mewnol').

Diffiniad o'r 'Bwrdd'

- 1.3. Yn ystod 2023, yn unol â [Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus](#) (PSIAS), cynhaliwyd asesiad ansawdd allanol o wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor gan Brif Swyddog Archwilio Cyngor Sir y Fflint. Mae'n rhaid cynnal yr archwiliad hwn o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

- 1.4. Er i'r asesiad ddod i'r [casgliad](#) bod gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn 'Cydymffurfio yn Gyffredinol' gyda'r gofynion (mae 'Cydymffurfio yn Gyffredinol' yn adlewyrchu'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth yn dilyn asesiad allanol), manteisiodd yr asesydd ar y cyfle i gynnwys pedwar awgrym am arferion gorau. Maent yn seiliedig ar ganllawiau a ddarparwyd yn y PSIAS a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Archwilwyr Allanol. Er nad yw'r gweithredoedd hyn yn cael eu hargymell yn y PSIAS na'r Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol (LGAN), maent yn gyfleoedd i ddatblygu ac roedd yr asesydd o'r farn y byddai eu gweithredu'n cefnogi gwelliant parhaus.
- 1.5. Roedd un o'r awgrymiadau'n ymwneud â'r Siarter. Nododd yr asesydd fod templed hunanasesiad PSIAS yn cadarnhau bod angen i'r Siarter Archwilio Mewnol ddiffinio'r term 'Bwrdd', gan ddweud "bod disgwyl i'r pwyllgor archwilio gyflawni swyddogaeth y bwrdd yn y rhan fwyaf o achosion". Er bod gan y Pennaeth Archwilio a Risg swyddogaeth adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae Siarter Archwilio Mewnol Ynys Môn ar hyn o bryd yn diffinio'r 'Bwrdd' fel y 'Pwyllgor Gwaith'. Roedd yr asesydd yn awgrymu bod y Siarter Archwilio Mewnol yn cael ei diweddarau i adlewyrchu'r swyddogaeth adrodd, gan ddiffinio'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y Bwrdd.
- 1.6. Mae'r Siarter, felly, wedi cael ei diwygio yn unol â hynny (gweler yr adran 'Cyflwyniad').

Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang Newydd

- 1.7. Mae'r Bwrdd Rhyngwladol Safonau Archwilio Mewnol (IIASB) wedi cyhoeddi [Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang Newydd](#) (GIAS) ar 9 Ionawr 2024 a byddant yn dod i rym yn dilyn cyfnod pontio o flwyddyn. Mae'r safonau'n llywio'r arfer proffesiynol byd-eang ar gyfer archwilio mewnol.
- 1.8. Mae'r Bwrdd Ymgynghorol Safonau Archwilio Mewnol (IASAB), sy'n gosod safonau ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU, wedi cychwyn ei adolygiad o'r effaith ar Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a bydd yn datblygu cynigion ar gyfer deunydd wedi'i ddiwygio, fydd yn addas ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus y DU. Bydd unrhyw newidiadau dilynol i PSIAS y DU, a'u gweithrediad, yn destun ymgynghoriad, ynghyd â threfniadau pontio priodol, a disgwylir y byddant yn weithredol o fis Ebrill 2025.
- 1.9. Mewn perthynas â'r Siarter, mae'r GIAS yn cyflwyno gofyniad newydd i'r 'bwrdd' sefydlu, cymeradwyo a chefnogi mandad y swyddogaeth archwilio mewnol. Mae'n rhaid i'r prif swyddog archwilio ddogfennu neu gyfeirio at y mandad yn y siarter archwilio mewnol, sy'n cael ei gymeradwyo gan y bwrdd. Gan fod y newid hwn ar y gweill, diwygiwyd y Siarter yn unol â hynny (gweler yr adran 'Mandad Archwilio Mewnol').

2. Argymhelliad

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r adolygiad ac yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Siarter Archwilio Mewnol, fel y nodir uchod.

Siarter Archwilio Mewnol

Ebrill 2024

Tudalen 61



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

Cyflwyniad	1
Pwrpas archwilio mewnol	2
Mandad archwilio mewnol	2
Awdurdod	3
Rôl	4
Cyfrifoldebau	4
Cwmpas	6
Rôl archwilio mewnol mewn gwaith yn ymwneud â thwyll	7
Safle yn y sefydliad a chysylltiadau adrodd	7
Mesurau diogelu i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd	8
Adnoddau archwilio mewnol	8
Cyfathrebu	9

Tudalen 62

Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd [Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus](#) (PSIAS) yn 2013 (diweddarwyd ddiwethaf yn 2017) ac maent yn diffinio natur archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus yn y DU ac yn nodi'r egwyddorion sylfaenol. Mae'r PSIAS yn darparu diffiniad, cenhadaeth ac egwyddorion craidd ar gyfer archwilio mewnol a'r gweithgareddau a'r safonau y mae'n rhaid eu cyflawni.
2. I ychwanegu at y PSIAS a darparu canllawiau penodol ynglŷn â'i gymhwyso mewn llywodraeth leol, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) wedi llunio [Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol](#), a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2019, ac mae'n nodi'r gofynion ar gyfer archwilio mewnol mewn llywodraeth leol i gefnogi'r gwaith o gymhwyso'r PSIAS.
3. Mae'r Safonau'n nodi bod angen i'r prif swyddog archwilio ddiffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgareddau archwilio mewnol mewn siarter archwilio mewnol. Mae'n rhaid i'r Siarter hefyd ddarparu gwybodaeth am atebolrwydd a chysylltiadau gan eu bod yn effeithio ar archwilio mewnol.
4. Mae'r PSIAS yn defnyddio termau generig sydd, yn achos Cyngor Sir Ynys Môn, yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus	Cyngor Sir Ynys Môn
Prif swyddog archwilio	Pennaeth Archwilio a Risg
Prif swyddog ariannol	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151
Uwch reolwyr	Tîm Arweinyddiaeth
Y bwrdd	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

5. O dan y Safonau, mae'n ofynnol i'r prif swyddog archwilio adolygu'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd, ond y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am roi cymeradwyaeth derfynol i'r Siarter.

Pwrpas archwilio mewnol

6. Gwasanaeth archwilio mewnol proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol yw un o elfennau allweddol fframwaith llywodraethu sefydliad, fel y cydnabyddir ar draws y sector cyhoeddus yn y DU.
7. Diffiniad PSIAS o archwilio mewnol yw:

Mae archwilio mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori annibynnol, wrthrychol a gynlluniwyd i ychwanegu gwerth a gwella gweithredoedd sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni ei amcanion trwy sefydlu dull systematig a disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu.

8. Mae ein rôl yn unigryw; mae'n darparu her effeithiol ac mae'n sbarduno newidiadau cadarnhaol a gwelliant parhaus mewn pob agwedd o lywodraethu. Mae ein rôl yn hynod o bwysig wrth i'r Cyngor wynebu cyfnodau ansicr a heriol.
9. Er mwyn sicrhau'r budd gorau posibl i'r sefydliad, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â rheolwyr i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.
10. Ein cenhadaeth yw gwella ac amddiffyn gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a dealltwriaeth wrthrychol sydd yn seiliedig ar risg.

Mandad archwilio mewnol

11. Mae'r mandad archwilio mewnol yn cynnwys:

- awdurdod,
- rôl,
- cyfrifoldebau, a
- chwmpas

y swyddogaeth.

12. Y bwrdd sydd â chyfrifoldeb terfynol am gymeradwyo'r mandad archwilio mewnol, ond er hynny, daw mwyafrif mandad y swyddogaeth archwilio mewnol o ddeddfwriaeth sector cyhoeddus (gweler [Awdurdod](#)).
13. Mae gan uwch reolwyr rôl allweddol hefyd o ran darparu mewnbwn i'r bwrdd a'r prif swyddog archwilio. Mae safbwynt uwch reolwyr yn werthfawr ac mae'n cynorthwyo i gefnogi safle ac awdurdod y swyddogaeth archwilio mewnol yn y Cyngor.
14. Mae'r mandad yn grymuso'r swyddogaeth archwilio mewnol i ddarparu sicrwydd, cyngor, dealltwriaeth a rhagolwg gwrthrychol i'r bwrdd ac uwch reolwyr ac mae'n cyflawni'r mandad trwy sefydlu agwedd systematig, ddisgybledig ar gyfer arfarnu a gwella effeithiolrwydd y prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli.

Awdurdod

15. Mae archwilio mewnol yn ofyn statudol ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n cael ei awdurdod a'i rwymedigaethau o ddau ddarn o ddeddfwriaeth:
- Mae Rhan 3, Rheoliad 7 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn dweud bod *"rhaid i awdurdod perthnasol ymgymryd ag archwilio mewnol effeithiol er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd ei brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu, gan ystyried safonau neu ganllawiau archwilio mewnol y sector cyhoeddus"*.
 - O dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n ofynnol i bob awdurdod wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol a sicrhau bod un o'r swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Mae CIPFA wedi diffinio 'gweinyddiaeth briodol' fel rhywbeth ddylai gynnwys 'cydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer cyfrifyddu ac archwilio mewnol'.
16. Mae datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol hefyd yn datgan bod rhaid i'r Prif Swyddog Ariannol:
- sicrhau bod swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol yn derbyn adnoddau ac yn cael ei chynnal
 - sicrhau bod yr awdurdod wedi rhoi trefniadau archwilio mewnol effeithiol ar waith ar gyfer yr amgylchedd reoli
 - cefnogi trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod
 - sicrhau bod y pwyllgor archwilio yn derbyn y cyngor a'r wybodaeth angenrheidiol fel y gall y ddwy swyddogaeth weithredu'n effeithiol.
17. Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor hefyd yn darparu ar gyfer cynnal swyddogaeth archwilio fewnol barhaus o dan oruchwyliaeth annibynnol, wedi'i goruchwyllo gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, ac yn ddarostyngedig i safonau archwilio proffesiynol (4.8.5.3.1).

18. Mae awdurdod y swyddogaeth archwilio mewnol yn cael ei gefnogi hefyd gan ei bod yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae awdurdod o'r fath yn caniatáu mynediad rhydd a dilyffethair i'r Pwyllgor, yn ogystal ag i'r holl weithgareddau ym mhob rhan o'r Cyngor.

Hawliau mynediad

19. Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor (4.8.5.3.2) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hawliau mynediad i'r swyddogaeth archwilio mewnol ac mae'n rhoi i'r swyddogaeth yr awdurdod i:
- gael mynediad ar unrhyw amser rhesymol i eiddo, tir neu safleoedd contract y Cyngor.
 - cael mynediad i'r holl gofnodion, dogfennau neu ohebiaeth yn ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y Cyngor.
 - gofyn am, a derbyn, unrhyw esboniadau sy'n angenrheidiol gan weithwyr y Cyngor.
 - gofyn i weithwyr y Cyngor ddangos arian parod, storfeydd neu unrhyw eiddo arall sydd o dan reolaeth y Cyngor er mwyn iddynt eu harchwilio.

Rôl

20. Darparu gwasanaethau sicrwydd yw prif rôl archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus yn y DU, ac yn y Cyngor.
21. Trwy farn archwilio mewnol blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg, sydd wedi'i seilio ar asesiad gwrthrychol o'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli, rydym yn darparu sicrwydd i aelodau etholedig, aelodau llyeg a rheolwyr, gan amlygu meysydd i'w gwella.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddogaeth archwilio mewnol

22. Bod yn ased gwerthfawr i'r Cyngor trwy gynorthwyo uwch reolwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau corfforaethol.
23. Cyfrannu at sicrwydd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas â chadernid a dibynadwyedd rheolaethau mewnol, risgiau a llywodraethu i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
24. Cefnogi'r Swyddog Adran 151 statudol i gyflawni ei ddyletswyddau.
25. Adolygu, gwerthuso ac adrodd yn rheolaidd ar y graddau y mae cyfrif wedi'i wneud ar gyfer asedau a buddiannau'r Cyngor a'r graddau y maent yn cael eu diogelu rhag colled, ac addasrwydd a dibynadwyedd data a gwybodaeth reoli ariannol a data a gwybodaeth arall.
26. Cefnogi'r gofyn i geisio effeithlonrwydd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian a rheoli newid yn effeithiol.
27. Darparu sicrwydd cadarn i reolwyr ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu trefniadau rheoli mewnol, risg a llywodraethu.
28. Rhannu enghreifftiau o arfer orau wrth weithredu fframwaith rheoli, risg a llywodraethu effeithiol a darparu gwasanaeth ymgynghorol sydd â'r bwriad o ychwanegu gwerth a gwella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli.
29. Asesu digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor mewn perthynas â chontractau, caffael, comisiynu a threfniadau llywodraethu cysylltiedig.
30. Asesu digonolrwydd ac effeithiolrwydd proses rheoli risg corfforaethol y Cyngor ac i ba raddau mae'r broses honno wedi'i gwreiddio mewn busnes arferol, wrth sicrhau nad yw'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn mabwysiadu cyfrifoldebau rheoli mewn perthynas â rheoli risgiau.

31. Gwerthuso'r risg o dwyll a'r modd y caiff ei reoli gan y Cyngor. Yn ogystal, lleihau twyll ac afreoleidd-dra trwy gyhoeddi canfyddiadau ymchwiliadau twyll er mwyn rhwystro twyll a darparu gwasanaeth o ansawdd i atal, canfod ac ymchwilio twyll ac afreoleidd-dra.
32. Darparu cyngor a gwasanaeth ymgynghori gwrthrychol a chefnogol mewn perthynas â datblygu rhaglenni a phrosesau newydd a / neu newidiadau sylweddol i raglenni a phrosesau sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys cynllunio mesurau rheoli priodol.
33. Paratoi adroddiadau amserol, cryno a llawn gwybodaeth i reolwyr er mwyn gwella'r amgylchedd rheoli.
34. Cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflawni ei gyfrifoldebau; monitro bod camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda rheolwyr yn cael eu rhoi ar waith; rhannu, ar draws y sefydliad cyfan, arferion gwell a gwersi a ddysgwyd sy'n deillio o'i weithgareddau archwilio ac o'i drosolwg o'r swyddogaeth archwilio.

Cyfrifoldebau archwilwyr mewnol

35. Wrth gyflawni eu gwaith, bydd yn ofynnol i archwilwyr:
 - gydymffurfio â'r PSIAS, gan gynnwys y Cod Moeseg.
 - llofnodi datganiad blynyddol i ddatgan y byddant yn parhau cyfrinachedd gwybodaeth y ceir mynediad iddi yn ystod eu gwaith, datgan unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn unrhyw wasanaethau sy'n cael eu hadolygu, a'u bod wedi darllen y PSIAS, y Cod Moeseg a Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Swyddogion.
 - gweithio gydag eraill i hyrwyddo ac arddangos manteision llywodraethu da ym mhob rhan o'r Cyngor.
 - arddangos a hyrwyddo'r safonau a'r moesau uchaf ledled y Cyngor, yn seiliedig ar uniondeb, gwrthrychedd, cymhwysedd a chyfrinachedd.
 - arfer doethineb wrth nodi gwendidau yn amgylchedd rheoli'r Cyngor a darparu barn gytbwys ar eu harwyddocâd.
 - ymrwymo i welliant parhaus.

- adrodd, yn ddiuedd, ar yr hyn a ganfyddir.
- rhoi cyngor eglur, proffesiynol a gwrthrychol.
- cyflawni dim ond y gwasanaethau hynny y maent yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i'w cyflawni.
- meddu ar gymhwyster priodol a bod â rhaglen weithredol ar gyfer datblygiad proffesiynol personol.

Cyfrifoldebau'r Pennaeth Archwilio a Risg

36. Yn ogystal â chyfrifoldebau archwilwyr mewnol:

- bod yn uwch reolwr sy'n ymwneud yn rheolaidd ac yn agored gyda phob rhan o'r Cyngor, yn enwedig gydag uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
 - fod â chymwysterau a phrofiad addas.
 - rhoi sicrwydd ynglŷn â'r amgylchedd rheoli, gan gynnwys rheoli risgiau a gwybodaeth, a rheolaethau mewnol ar draws y Cyngor.
 - llunio barn archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn ag amgylchedd reoli'r Cyngor, gan adlewyrchu ar y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a chrynhof'r prif ganlyniadau a chasgliadau ac amlygu unrhyw bryderon penodol.
 - ymwneud yn agos â rheoleiddwyr allanol y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau archwilio.
 - penderfynu pa adnoddau, arbenigedd, cymwysterau a systemau sydd eu hangen ar y gwasanaeth archwilio mewnol er mwyn iddo gyflawni ei amcanion a darparu barn archwilio flynyddol.
- ystyried Datganiad CIPFA ar y Pennaeth Archwilio Mewnol (2019), sy'n nodi cyfrifoldebau ar gyfer yr unigolyn a'r sefydliad ac sy'n darparu canllawiau arfer orau i gefnogi effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio mewnol.

Cyfrifoldebau uwch reolwyr

37. I wneud y mwyaf o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol, rydym yn gofyn i uwch reolwyr:

- ymwneud yn llawn ac yn hyblyg â'r broses o gynllunio archwiliadau a darparu gwybodaeth a dealltwriaeth am feysydd risg uchel, meysydd ffocws strategol neu feysydd o bryder.
- enwebu ac ymrwymo swyddogion arweiniol ar gyfer pob aseiniad archwilio mewnol a phwynt cyswllt cyffredinol ar gyfer rheoli'r broses archwilio mewnol.
- cysylltu'n brydlon â'r swyddogaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â llunio cwmpas ar gyfer y gwaith a chytuno ar gylch gorchwyl, delio gyda chwestiynau'r archwilwyr a thrafod adroddiadau drafft a therfynol.
- darparu tystiolaeth i ddangos fod y gweithredoedd y cytunwyd arnynt gan reolwyr wedi cael eu rhoi ar waith yn brydlon.

Cwmpas

38. Mae cwmpas y swyddogaeth archwilio mewnol yn ymwneud â holl weithgareddau'r Cyngor ac mae'n cynnwys mynediad dilyffethair at holl asedau a holl weithwyr y Cyngor.
39. Y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n penderfynu ar yr agwedd gyffredinol a bydd yn ystyried lefel y sicrwydd sydd ei angen, amcanion strategol y Cyngor, lefel y newid o fewn y Cyngor, yr archwaeth risg cyffredinol a'r diwylliant, archwiliadau blaenorol a gweithredu camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda rheolwyr.
40. Rydym yn canolbwyntio ar y cwsmer wrth gynllunio archwiliadau unigol, o lunio cwmpas prosiect i gyflawni'r gwaith, ac rydym yn cynnwys aelodau, uwch reolwyr a staff.
41. Mae ein strategaeth yn ystyried y gofrestr risgiau strategol a sicrwydd arall y gallai'r Cyngor ei dderbyn, yn fewnol neu'n allanol, er mwyn osgoi dyblygu a chyd-gordio gwaith rheoleiddio. Mae'n ystyried hefyd trafodaethau gydag uwch reolwyr.
42. Mae ein gwaith yn darparu dull sydd yn seiliedig ar risgiau sy'n caniatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg ffurfio a thystiolaethu ei barn ar yr amgylchedd rheoli er mwyn cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

Gweithgareddau ymgynghori

43. O bryd i'w gilydd gallai'r swyddogaeth Archwilio Mewnol ddarparu canllawiau a chyngor, e.e. ar systemau newydd, neu gall helpu i ddatblygu prosesau newydd gan ddefnyddio ein sgiliau penodol. Efallai y bydd gwasanaethau'n gofyn i ni gwblhau prosiectau penodol, o bryd i'w gilydd, mewn rôl ymgynghorol. Ar yr adegau hyn rydym yn datgan yn glir o'r cychwyn cyntaf ein bod yn gweithio mewn rôl ymgynghorol yn hytrach nag mewn rôl archwilio mewnol ac nid ydym yn darparu sicrwydd archwilio yn yr achosion hynny.

Rôl archwilio mewnol mewn gwaith yn ymwneud â thwyll

44. Mae archwilio mewnol yn cynnal gweithgareddau i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth yn ei allu i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn erbyn y Cyngor.
45. Mae hyn yn cefnogi gofynion y PSIAS lle mae'n ofynnol i archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd o dwyll a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).
46. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan hefyd bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau fod ei systemau rheoli cyfrifyddu yn cynnwys mesurau sy'n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a'u canfod.
47. Er hynny, nid yw archwilio mewnol yn gyfrifol am reoli'r risg o dwyll – cyfrifoldeb uwch reolwyr y Cyngor yw hynny.
48. O dan bolisi Atal Twyll a Llygredd y Cyngor mae'n ofynnol i reolwyr hysbysu'r Pennaeth Archwilio a Risg os yw twyll, llwgrwobrwyo, llygredd neu amhriodoldeb yn cael ei amau neu ei ganfod, er mwyn hysbysu ei barn am yr amgylchedd rheoli mewnol a'r rhaglen waith archwilio mewnol, yn ogystal â chaniatáu iddi sicrhau bod y Cyngor yn cymryd camau priodol.
49. Er bod y swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnal prosiectau rhagweithiol i nodi twyll, llwgrwobrwyo a / neu lygredd posib ac mae'n gallu cynnal ymchwiliadau arbennig i honiadau o afreolaidd-dra, mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg yr hawl i benderfynu ar gamau priodol a gallai hynny olygu cynnal ymchwiliad ar y cyd neu ymchwiliad gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, dylai rheolwyr anfon canlyniadau'r holl weithgareddau at y Pennaeth Archwilio a Risg i'w cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol ar Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.
50. Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gall yr archwiliwr allanol gynnal ymchwiliadau, naill ai ar y cyd ag archwilio mewnol, neu'n annibynnol.

Safle yn y sefydliad a chysylltiadau adrodd

51. O dan y PSIAS mae'n ofynnol i'r prif swyddog archwilio adrodd i lefel o fewn y sefydliad sy'n caniatáu i weithgareddau archwilio mewnol gyflawni ei gyfrifoldebau; adrodd i'r bwrdd neu unrhyw un y mae'r bwrdd wedi dirprwyo awdurdod iddo yw'r dull arferol o helpu i sicrhau annibyniaeth o fewn y sefydliad.
52. Mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg fynediad uniongyrchol at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae ganddi'r rhyddid i adrodd yn uniongyrchol i unrhyw aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth neu bennaeth gwasanaeth.
53. Er bod y gofyniad i gael swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol yn gyfrifoldeb i'r awdurdod, mae'r Safonau'n disgwyl i'r prif swyddog ariannol (y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151) gefnogi archwilio mewnol. Mae'r berthynas rhwng y prif swyddog archwilio a'r prif swyddog ariannol, felly, yn un hynod o bwysig ac mae'n gryf o fewn y Cyngor.
54. Er bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, o safbwynt trefniadau gweinyddol, mae ganddi hefyd fynediad uniongyrchol at y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, ac mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn darparu ar gyfer hynny (4.8.5.3.5).
55. Mae'r llinellau adrodd estynedig hyn yn darparu digon o annibyniaeth i'r swyddogaeth archwilio mewnol o ran y gweithgareddau y mae'n eu hadolygu i alluogi'r archwiliwyr i gyflawni eu dyletswyddau'n wrthrychol, a chaniatáu iddynt lunio barn broffesiynol ddiudedd ac effeithiol a chodi materion y mae angen eu gwella.
56. Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn gwerthuso perfformiad y Pennaeth Archwilio a Risg bob blwyddyn ac mae'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu sylwadau ac adborth hefyd.
57. Mae hyn yn sicrhau nad yw barn y Pennaeth Archwilio a Risg a chwmpas y gwaith yn gallu cael eu cyfyngu na'u heffeithio gan y trefniadau rheoli llinell ar ei chyfer o fewn y Cyngor.

Mesurau diogelu i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd

58. Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid i archwilio mewnol fod yn annibynnol a rhaid iddo gael ei weld fel gwasanaeth annibynnol. I sicrhau hyn, bydd archwilio mewnol yn gweithredu o fewn fframwaith sy'n caniatáu:

- mynediad dilyffethair at uwch reolwyr a chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- adrodd yn ei enw ei hun
- bod ar wahân i weithrediadau llinell.

59. Gwneir pob ymdrech i warchod gwrthrychedd trwy reoli cyswllt staff archwilio gyda dyletswyddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posib. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol yn dderbyniol wrth gymryd rhan mewn prosiectau gwella gwasanaeth lle byddir yn cyflawni rôl 'ffrind beirniadol'.

60. Yn ychwanegol at hynny, mae trefniadau priodol ar waith i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth a gwrthrychedd o ganlyniad i'r ffaith bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn rheolwr llinell i'r gwasanaeth Rheoli Risg ac Yswiriant.

61. Ni fydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn llunio cwrpas nac yn adolygu gweithgarwch archwilio mewnol yn gysylltiedig â'r maes gwasanaeth hwn a chaiff yr holl weithgareddau sicrwydd eu hallanoli. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn cymeradwyo adroddiadau.


62. Os bydd unrhyw wrthdaro neu amhariad yn codi neu'n dod i'r amlwg, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael ei hysbysu.

Adnoddau archwilio mewnol

63. Er bod gennym ddwy swydd wag, mae gennym dîm cymwys a phrofiadol gyda chymysgedd o gymwysterau perthnasol er mwyn adlewyrchu swyddogaethau amrywiol y gwasanaeth archwilio mewnol.

64. Lle nad yw arbenigedd ar gael, rydym yn defnyddio'r cyllid i gomisiynu arbenigwyr pwnc o du allan i'r Cyngor ac mae hynny'n darparu sicrwydd holl bwysig i'r Cyngor ac yn ychwanegu gwerth am arian.

Archwilio Mewnol a Rheoli Risg (Ebrill 2024)



65. Bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu adnoddau'r gwasanaeth archwilio mewnol drwy dderbyn y strategaeth archwilio mewnol ac adroddiadau diweddarar ar ei flaenoriaethau.

66. Mae'n ofynnol, o dan y Safonau, bod archwilwyr mewnol yn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a chymwyseddau eraill trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu anghenion datblygu a hyfforddi'r holl archwilwyr yn rheolaidd trwy oruchwyliaeth un i un parhaus a gwerthusiadau blynyddol.

Cyfathrebu

Strategaeth Archwilio Mewnol

- 67. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn paratoi'r strategaeth archwilio mewnol mewn trafodaeth â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ac uwch reolwyr. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu blaenoriaethau archwilio mewnol yn rheolaidd.
- 68. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno'r strategaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w chymeradwyo yn flynyddol ac mae'r Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth am newidiadau yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r adroddiad diweddar a gyflwynir i bob cyfarfod.

Barn Flynyddol

- 69. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu barn i'r Cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Cyngor i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.
- 70. Er hynny, dylid nodi na all sicrwydd byth fod yn absoliwt; y mwyaf y gellir ei ddarparu yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr mewn prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli.
- 71. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno'r farn flynyddol yn yr Adroddiad Blynnyddol Archwilio Mewnol ar ôl diwedd y flwyddyn.

Adrodd ar Aseiniadau

- 72. Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn llwyr ymrwymedig i bolisi Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae'r adroddiadau yn ddwyieithog ac mae'r tîm yn cynnwys staff dwyieithog sy'n gallu cynnal adolygiadau yn yr iaith a ffafrir gan y rhai hynny sy'n cynorthwyo gyda'r adolygiadau.
- 73. Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar yr holl adolygiadau archwilio. Cynhelir cyfarfodydd adrodd yn ôl gyda'r rheolwyr sy'n gyfrifol am y maes sy'n cael ei adolygu er mwyn cytuno ar gywirdeb ffeithiol y materion a'r risgiau a godwyd.

- 74. Ar ôl dod i gytundeb, rydym yn rhannu adroddiadau drafft gyda'r rheolwyr perthnasol a byddant yn cofnodi'r camau fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion / risgiau a godwyd, ynghyd â'r swyddogion sydd yn gyfrifol am weithredu arnynt, yn ogystal â'r amserlen weithredu. Unwaith y bydd y cynllun gweithredu wedi'i gwblhau a'i gytuno gyda'r archwilydd, rydym yn cyhoeddi adroddiad terfynol.
- 75. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi copi o bob adroddiad i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 (os oes goblygiadau ariannol), y Prif Weithredwr, aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Deilydd Portffolio perthnasol.
- 76. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno crynodeb o bob adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Deilydd Portffolio hefyd yn derbyn copiâu o gynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer adroddiadau gyda gradd sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim Sicrwydd'.

Graddfeydd Sicrwydd

- 77. Rydym yn rhoi barn ar y lefel sicrwydd cyffredinol ar gyfer pob aseiniad archwilio mewnol. Wrth ddod i gasgliad, byddwn yn defnyddio'r diffiniadau canlynol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2019:

Lefel Sicrwydd	Diffiniad
Sicrwydd Sylweddol	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn dda. Ni chanfuom unrhyw Risgiau/Materion sylweddol neu berthnasol.
Sicrwydd Rhesymol	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reoli mewnol yn rhesymol. Mae mân wendidau o ran y modd y mae risg a/neu dulliau rheoli yn cael eu rheoli ond nid oes unrhyw risg o ran cyflawni'r amcanion. Gall Rheolwr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw i'r rhain.
Sicrwydd Cyfyngedig	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn gyfyngedig. Mae gwendidau sylweddol o ran rheoli risgiau a/neu'r dulliau rheoli sy'n golygu bod risg o ran cyflawni'r amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac mae'n bosib y bydd rhaid hysbysu'r Tîm Arweinyddiaeth.
Dim Sicrwydd	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn sylweddol ddiffygiol. Mae gwendidau sylfaenol o ran rheoli risgiau a/neu'r dulliau rheoli a fydd yn arwain at fethu cyflawni'r amcanion. Mae angen i'r Tîm Arweinyddiaeth roi sylw brys i'r materion hyn ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith ymyrryd.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	18 Ebrill 2024
Pwnc / Testun:	Adolygiadau cenedlaethol a'i hargymhellion cysylltiedig
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid 01248 752502 CarysEdwards@ynysmon.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:	Gwyndaf Parry Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad 01248 752511 GwyndafParry@ynysmon.gov.uk
<p>Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae'r Cylch Gorchwyl Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhoi gofyniad penodol i'r Pwyllgor ystyried a derbyn adroddiadau gan reoleiddwyr neu arolygwyr, a fydd yn ffynhonnell defnyddiol o sicrwydd (3.4.8.13.1). Mae hefyd yn ofynnol i'r Pwyllgor ystyried asdroddiadau archwilio allanol a monitro eu hargymhellion (3.4.8.11.3).</p> <p>Pwrpas yr adroddiad hwn yw i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr argymhellion cenedlaethol sydd ynghlwm a'r adroddiadau cenedlaethol wedi cael sylw dilys gan wasanaethau'r Cyngor Sir a bod y rhai perthnasol yn cael eu gwireddu mewn modd ystyrlon.</p>	

Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos llywodraethu da, mae'r adroddiad yn manylu ar ymateb y cyngor i adroddiadau cenedlaethol cydnabyddedig ac argymhellion cysylltiedig a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr.
2. Darperir diweddariadau yn erbyn y gwaith y mae'r cyngor wedi'i wneud dros y 15 mis diwethaf yn ychwanegol i'r hyn a gyflwynwyd i'r pwyllgor yma ar 8fed Rhagfyr 2022.
3. Yn dilyn adolygiad o'r adroddiadau a'r argymhellion cysylltiedig, mae rhai adroddiadau wedi'u nodi fel rhai nad oes angen eu monitro bellach. Mae'r rhesymau dros y newidiadau hyn wedi'u darparu ac felly cynigir eu dileu o adroddiadau monitro yn y dyfodol.

Argymhelliad

4. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn –
 - a. Ystyried yr adroddiad a derbyn yr ymatebion a'r diweddariadau fel adlewyrchiad cywir o ddiweddariad blynyddol y Cyngor Sir yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig.
 - b. Cytuno nad oes angen rhestru'r adroddiadau yr argymhellir eu dileu ar ddiwedd y ddogfen (y tabl gwyrdd) mewn adroddiadau yn y dyfodol.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Adolygiadau cenedlaethol a'i hargymhellion cysylltiedig

Mawrth 2024

Statws – Swyddogol

Paratowyd gan:

Gwasanaeth Trawsnewid

Enw'r Adroddiad	Argymhellion / Cyfleoedd	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn 2022	Diweddariad 2023
Yn ôl eich doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol	<p>Mae angen i gynghorau fanteisio ar y cyfle i adnewyddu, ailbriso ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell.</p> <p>Mae cyfleoedd i gynghorau gynnwys dinasyddion yn y gwaith o lunio a rhedeg gwasanaethau eu hunain.</p> <p>Yr her i gynghorau lleol fydd cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig a'i ddefnyddio i fireinio, addasu a chyflawni gwelliannau pellach er mwyn creu newid cadarnhaol, a parhau i fod yn berthnasol i'w holl ddinasyddion.</p>	<p>Cyfle i ddinasyddion ymwneud â llunio cyfeiriad strategol y Cyngor yn ystod 2022.</p> <p>Mae'r agenda siapio lle yn parhau gyda 5 Cynghrair wedi eu sefydlu i wireddu blaenoriaethau lleol.</p>	<p>Mae ymgysylltu ac ymgynghori sylweddol wedi digwydd gyda dinasyddion yn ystod y broses o ddatblygu Cynllun y Cyngor 2023-2028. Derbyniodd y Cyngor 2,500 o ymatebion ar gyfer bob math o weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori.</p> <p>Mae'r agenda Llundio Lle yn parhau gyda 7 cynghrair ar waith ac 1 yn cael ei ddatblygu.</p> <p>Strategaeth Cyfraniad y Cyhoedd 2023-2028 wedi'i datblygu a'i chymeradwyo.</p>
Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith	<p>A1 Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu, er bod gan gyrrff cyhoeddus ddealltwriaeth gynyddol am wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r galw amdanynt, bod bylchau sylweddol yn dal i fodoli a bod ymgysylltiad â goroeswyr a dioddefwyr i adolygu a datblygu gwasanaethau yn anghyson. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod gwaith i asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth gwasanaethau gan gyrrff cyhoeddus yn cael sylw o'r newydd a bod y modd y caiff pobl eu cynnwys yn cael ei ehangu a'i wella i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn creu darlun mwy cywir o'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau ac adnabod bylchau.</p> <p>A2 Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn disgrifio sut y mae dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aml yn ei chael yn anodd ymgodymu â system dameidiog o ran y gwasanaethau a ddarperir. I gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio rydym yn argymhell bod cyrrff cyhoeddus:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn cynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol mewn amrywiaeth o gyfryngau am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr; ac • yn creu llwybr ar y cyd i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ar gyfer dioddefwyr a 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Yn anffodus bu oedi gyda'r broses ar Lefel Ranbarthol Gogledd Cymru. Asesiad anghenion rhanbarthol diwygiedig drafft yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. 2. Mae fideos Gwybodaeth Gyhoeddus yn parhau i fod ar gael ar wefannau'r cyngor. Mae fideos newydd a ddarperir gan sefydliadau fel Llywodraeth Cymru a Chymorth i Fenywod Cymru sydd ar flaen y gad o ran Rhaglenni Cam-drin Domestig hefyd yn cael eu rhannu. Mae amrywiaeth o daflenni ar gael hefyd a gellir eu cael o brosiect siop un stop Gorwel yn Llangefni. Gwybodaeth fel Ask For ANI. <p>Mae'r Prosiect Un Drws Ffrynt wedi bod yn llwyddiant heb os. Roedd adolygiad diweddar o'r prosiect a gynhaliwyd gan Safe Lives yn ategu CSYM a'i randdeiliaid allweddol sy'n bartneriaid megis Heddlu Gogledd Cymru, Gorwel (Darparwr 3ydd Sector dynodedig ar gyfer Cam-drin Domestig) a BIPBC ar y dull partneriaeth a ddefnyddiwyd ers ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2020.</p> <p>3. Mae canran y staff tai sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein gorfodol bellach yng nghanol y nawdegau ac yn un o'r uchaf o fewn y Cyngor. Mae'r holl staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'u hangen i ddilyn yr hyfforddiant VAWDASV gorfodol ac rydym yn cadw at ein mantra bod Diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. O ran rheoli risg, rhennir gwybodaeth mewn modd cadarn a diogel ar sail 'angen gwybod'. Cedwir cronfa ddata o fewn y Gwasanaeth Tai mewn perthynas â hyfforddiant diogelu yn ogystal â modiwlau gorfodol eraill lle caiff staff eu hatgoffa o'u hangen a dyletswydd i ymgymryd â hyfforddiant atgoffa yn unol â hynny.</p> <p>4. Mae Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn parhau i fod yn Fwrdd Llywodraethu ar gyfer materion cam-drin domestig ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau strategol allweddol. Ar lefel fwy gweithredol, mae Bwrdd Comisiynu</p>	<p>Cyhoeddwyd Asesiad Anghenion VAWDASV Gogledd Cymru ddiwedd 2023, a bydd yn ddefnyddiol wrth gomisiynu gwasanaethau cam-drin domestig yn y dyfodol, yn lleol ac yn rhanbarthol. Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o gyfarpar yn seiliedig ar lety, cymorth lle bo angen, IDVA a Thynhau Diogelwch y Targed wedi'u comisiynu ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr cam-drin domestig. Mae'r gefnogaeth sydd wedi'i darparu yn mynd y tu hwnt i nifer yr unedau a gomisiynwyd, sy'n gosod pwysau sylweddol ar y darparwr cymorth dynodedig. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd ariannol heriol wedi cyfyngu cyfleoedd i ymestyn darpariaeth presennol a'i ddatblygu ymhellach.</p> <p>Mae amrywiaeth o fideos a dogfennau gyda gwybodaeth gyhoeddus ar gael. Mae Gorwel, y darparwr arweiniol ar gyfer Cam-drin Domestig, wedi bod yn rhagweithiol iawn yn ystod 2023 ac wedi rhyddhau datganiadau defnyddiol a llawn gwybodaeth i'r cyhoedd yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y cynnydd pryderus mewn cam-drin domestig a'r goblygiadau difrifol sy'n wynebu unigolion, teuluoedd a'r gymdeithas ehangach.</p> <p>Mae'r Dyletswydd Trais Difrifol, a ddaeth i rym 31 Ionawr 2023, yn gofyn i awdurdodau lleol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, asiantaethau sydd wedi arbenigo mewn cyfiawnder troseddol ac awdurdodau iechyd i gydweithio er mwyn ffurfio dadansoddiad yn seiliedig ar dystiolaeth ar y problemau sy'n gysylltiedig â thrais difrifol mewn ardal leol, ac yna, cynhyrchu a gweithredu strategaeth yn nodi sut y byddant yn ymateb i'r materion penodol hynny. Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.</p> <p>Mae'r prosiect "One Front Door" wedi gweld cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau yn ystod y 18 mis diwethaf. Dengys hefyd bod nifer sylweddol o'r atgyfeiriadau wedi dod yn fwy aciwt a chymhleth eu natur. Mae'r cynnydd mewn atgyfeiriadau ar gyfer y prosiect "One Front Door" a'r Hwb Ymyrraeth Gynnar wedi arwain at uno'r ddau Banel.</p>

gweithwyr proffesiynol ac yn hysbysebu trefniadau mynediad yn eang.

A3 Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data, bod angen i sefydliadau rannu data gyda phartneriaid hefyd i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn well. Rydym yn argymhell bod awdurdodau:

- yn sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr yn cael hyfforddiant priodol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- yn darparu hyfforddiant diweddarau ar gyfer rheolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data, a pha ddata y gallan ac na allan ei rannu; ac
- yn adolygu ac yn diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.

A4 Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er bod peth cynnydd da wedi cael ei wneud gyda gweithio'n rhanbarthol, nad oes ysgogwyr priodol yn eu lle bob amser i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. I sicrhau bod manteisio'n rhanbartholi'n cael eu gwireddu, rydym yn argymhell bod asiantaethau darparu (awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector) yn adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol i integreiddio gwasanaethau'n well a chynyddu i'r eithaf yr effaith gadarnhaol y gallant eu cael er dioddefwyr a goroeswyr.

A5 Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn amlygu nad yw'r mecanweithiau cyllido cymhleth a byrdymor, diffyg data ac ymgynghori annigonol â rhanddeiliaid, o gymorth i gomisiynu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn modd cynaliadwy. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn adolygu eu trefniadau comisiynu i:

- gael gwared ar ddyblygu a gorgyffwrdd rhwng

VAWDASV, sy'n cynnwys cynrychiolwyr amlasiantaethol, yn gyfrifol am drosolwg a llywio materion penodol megis asesiadau o anghenion, gofynion hyfforddi a cheisiadau am grantiau ar gyfer ceisiadau cyfalaf a refeniw ychwanegol gan Lywodraethau datganoledig Cymru a'r Llywodraeth Ganolog.

5. Mae'r sefyllfa bresennol yn aneglur ac nid oes modd adrodd ar gynnydd cadarnhaol yn y maes hwn.

Diogelu: A1

Bydd Aseiad Anghenion VAWDASV drafft Gogledd Cymru yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y V ac E ar 18 Hydref am sylwadau ac argymhellion.

O ran cynnwys goroeswyr, mae gan y tîm VAWDASV rhanbarthol fforwm ddwywaith y flwyddyn ar gyfer goroeswyr a elwir yn grŵp SAS (Gwasanaethau Cyngori Goroeswyr) ac un arall ar gyfer goroeswyr trais rhywiol. Mae hwn yn gyfraniad pwysig i gael y goroeswyr

A2

Peth cydgysylltu gan y tîm VAWDASV rhanbarthol.

Mae'r dudalen Diogelwch Cymunedol ar wefan y Cyngor, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnig cyngor o ansawdd uchel am y gwasanaeth a ddarperir gan Gorwel i bobl sy'n dioddef trais yn y cartref; gan gynnwys cyngor ar Apiau defnyddiol, sut i gadw'n ddiogel (gan gynnwys plant), manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol. I'r rhai sydd mewn perygl uniongyrchol, darperir manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau'r heddlu.

Mae'r dudalen hefyd yn cynnwys manylion Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. Mae dolen hefyd a'r gyfer gwasanaethau cymorth Gorwel ar gyfer pobl hŷn sy'n dioddef trais domestig.

Yn fewnol, mae safle mewnwyd yr Awdurdod Lleol yn cael ei ddatblygu i gynnwys adran diogelu benodol. Bydd hyn yn darparu adnodd un stop i bob gweithiwr. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am VAWDASV. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, y bwriad yw datblygu'r safleoedd gwybodaeth cyhoeddus.

Mae'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd hefyd yn arwain datblygiad y gwasanaeth 'Un Drws Ffrynt'. Mae hwn yn ddull aml-asiantaeth o nodi a graddio cyfeiriadau RAG a dderbyniwyd ac yn fforwm i werthuso a datblygu gwasanaethau o gwmpas cam-drin domestig yn dibynnu ar risg ac anghenion. Rydym wedi sicrhau cyllid i'n cynorthwyo gyda'r datblygiad. Bydd hyn yn helpu gydag ymyrraeth gynnar yn ogystal â chyfeirio at wasanaethau priodol.

A3

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu hyfforddiant diogelu a diogelu data yn unol ag anghenion y gweithlu a nodwyd. Mae'r Awdurdod Lleol wedi parhau i weithredu gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol: Grŵp 1 a 6. Ar ddiwedd Medi 2022 ar draws y sefydliad roedd cydymffurfiaid â hyfforddiant Grŵp 1 yn 81%.

Mae ymrwymiad yr holl asiantaethau'n arbennig, gyda chyfarfodydd y panel yn cael eu cynnal ddwywaith yr wythnos, ar fore dydd Mawrth ac Iau.

Mae canran staff y gwasanaethau tai a chymdeithasol sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant mandadol yn uchel iawn, ac mae pob aelod staff newydd yn cael eu hysbysu o'r gofyniad i gwblhau hyfforddiant VAWDASV a diogelu ar-lein cyn gynted â phosibl. Cedwir cofnod o bwy sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ynghyd ag unrhyw gyrsiau gloywi gofynnol yn nwylo'r Gwasanaethau Tai a Chymdeithasol, a bydd Rheolwyr Canol ac Uwch yn cael gwybod am staff sydd angen cwblhau'r hyfforddiant o fewn yr unedau/timau y maen nhw'n gyfrifol amdanynt.

Yn yr un modd, mae nifer sylweddol o staff y gwasanaethau tai a chymdeithasol wedi mynychu cwrs hyfforddi Gofyn a Gweithredu.

Nid yw'r trefniadau llywodraethu wedi newid.

gwahanol ddulliau yn yr awdurdod a chyda phartneriaid;

- rhesymoli trefniadau gweinyddu i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian;
- symleiddio a safoni trefniadau comisiynu i leihau baich gweinyddu ar yr holl bartion; a
- phennu mesurau perfformiad, targedau a meincnodau priodol i farnu effaith a deilliannau gwasanaethau a gomisiynir.

Mae'r Awdurdod yn cyflwyno hyfforddiant Grŵp Gofyn a Gweithredu 2, er yn rhithiol i ddechrau. Mae gennym hyfforddwyr achrededig i gyflwyno hyfforddiant Grŵp 2 a phencampwyr Grŵp 3. Erbyn diwedd Awst 2022 roedd 389 o unigolion wedi cwblhau'r hyfforddiant Grŵp 2: gyda darpariaeth hefyd wedi'i darparu i ysgolion gyda 105 yn mynychu.

Mae gwreiddio CGC a rhannu gwybodaeth yn dilyn yr egwyddorion

Yn ystod 2020, unwyd Bwrdd Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru â'r bwrdd caethwasiaeth Fodern ac mae bellach yn fwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ar gyfer Gogledd Cymru, gan gwmpasu VAWDASV Caethwasiaeth fodern a meysydd eraill o gamfanteisio gan gynnwys Llinellau Cymffuriau a chamfanteisio troseddol. Nod y Bwrdd yw cydweithio mewn partneriaeth i sicrhau'r ymateb mwyaf effeithlon ac effeithiol i atal niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhanbarth Gogledd Cymru ac i weithredu a chefnogi gofynion Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015.

Aelodaeth y Bwrdd fel ag y mae ym mis Hydref 2022:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Awdurdodau Lleol – Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/CRC
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Gogledd Cymru
- CEM Berwyn
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- 3 chynrychiolydd o wasanaethau arbenigol i gynrychioli holl grwpiau'r 3ydd sector

Cadeirydd presennol y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yw Stephen Hughes (SCHTh) ac mae swydd yr Is-Gadeirydd yn wag, oherwydd newidiadau staffio. Rhoddir sylw i hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ar 3 Chwefror. Mae'r swyddi hyn yn cael eu dal am ddwy flynedd ar hyn o bryd.

Mae'r Grŵp Comisiynu ar y Cyd yn eistedd o dan y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ac yn arwain ar yr holl benderfyniadau comisiynu, gan gynnwys datblygu'r Asesiad Anghenion, edrych ar fylchau yn y ddarpariaeth a sicrhau diffyg dyblygu yn y ddarpariaeth. Mae'r Grŵp JC hefyd yn gweithredu fel corff sicrhau ansawdd, gan fonitro prosiectau a gomisiynir a sicrhau y cyrhaeddir targedau.

Mae'r Grŵp Comisiynu ar y Cyd yn cyfarfod bob chwarter i edrych ar berfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, yn ogystal ag

		<p>unrhyw benderfyniadau ariannu a wnaed gan yr is-grŵp Gwneud Penderfyniadau. Mae hwn yn gyfle i gwestiynu gwasanaethau, edrych ar ganlyniadau ac awgrymu sut i fynd i'r afael ag unrhyw heriau. Mae comisiynu pob gwasanaeth yn anelu at gydymffurfio â Chanllawiau Comisiynu Statudol VAWDASV, ac mae'n eitem sefydlog ar agenda holl gyfarfodydd y Grŵp Comisiynu ar y Cyd. Rhennir y gwaith o fonitro gwasanaethau a gomisiynir rhwng y tîm comisiynu yn SCHTh a'r tîm VAWDASV Rhanbarthol a rhennir yr holl wybodaeth â Grŵp y Cyd-bwyllgor i'w harchwilio ymhellach. Cynhelir Asesiad Anghenion VAWDASV rhanbarthol trylwyr bob 3 blynedd ac mae fersiwn 2022 ar hyn o bryd gyda'r bwrdd V ac E i'w gadarnhau.</p>	
--	--	---	--

<p>Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</p>	<p>A1 Yn Rhan 1 o'r adroddiad rydym yn nodi bod deall effaith dewisiadau a phenderfyniadau yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid yn llawn a chwblhau Asesiadau Effaith. Fodd bynnag, canfuom fod ymarfer presennol yn annigonol i roi sicrwydd bod anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu hystyried yn llawn wrth adolygu dewisiadau ac nad yw llai dinasyddion yn dylanwadu'n ddigonol ar benderfyniadau. Rydym yn argymhell bod BGCau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn cynnal asesiadau ffurfiol i ganfod yr effaith bosibl ar bobl â nodweddion gwarchoddedig a'r Gymraeg ac yn adolygu camau gweithredu y cytunwyd arnynt i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol; • yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy wneud cyfarfodydd, agendâu, papurau a chofnodion BGCau yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd; • yn cryfhau trefniadau cynnwys trwy weithio'n unol â'r canllawiau yn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru; ac • yn adrodd yn ôl ar ganlyniad gweithgarwch cynnwys gan nodi ble y gwneir newidiadau o ganlyniad i fewnbwn dinasyddion a rhanddeiliaid. <p>A2 Yn Rhan 2 o'r adroddiad rydym yn adolygu trefniadau craffu BGCau ac yn dod i'r casgliad bod diffygion a gwendidau mewn perfformiad ac arfer presennol. I wella trefniadau craffu, rydym yn argymhell:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod BGCau a chyrrff cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau'r Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar gyfer y 	<p>A1. • Sefydlwyd gweithgor rhanbarthol i weithio gyda Chydgynhyrchu Cymru ar gynllun gwella ymgysylltu 5 mlynedd. Bydd hyn yn gweithio ar y cyd â'r bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol i ystyried ac archwilio'r holl opsiynau ar y sbectrwm ymgynghori hyd at Gydgyhyrchu:</p> <ul style="list-style-type: none"> - meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda chymunedau, - y dulliau a'r amseroedd mwyaf priodol i ymgysylltu yn ôl yr amgylchiadau, - iaith a chyfryngau i ymgysylltu a gwranddo - cofrestr o grwpiau cymunedol allweddol / adeiladu rhwydwaith rhanddeiliaid - sicrhau amrywiaeth a chynhwysiant - blaengynllunio gwaith rhanbarthol a rhannu adborth ymgysylltu dienw, - y ffyrdd gorau o roi adborth i gyfranogwyr ar gynnydd - hyfforddiant ymgysylltu a llwyfan ymgysylltu ar-lein posibl (i'w gadarnhau) <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlwyd ail weithgor rhanbarthol, a chynhaliwyd gweithdy gyda dros 50 o bobl yn bresennol. Trefnwyd y gweithdy gan dimau Cydlyniant Cymunedol Gogledd Cymru a'i gefnogi gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a'i anelu at y sefydliadau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda grwpiau lleiafrifol na chlywir yn aml. Roedd ffocws y gweithdy ar sut i greu deialog gyfartal a chynhwysol gyda chymunedau amrywiol yng Ngogledd Cymru. Dadansoddwyd themâu allweddol a'u rhannu'n rhanbarthol. Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i adeiladu sgwrs barhaus gyda'r cymunedau hyn ac i fwydo i mewn i'r cynllun Llesiant newydd. • Mae gwefan y BGC yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gyda manylion cyfarfodydd, aelodaeth, cofnodion a chynlluniau. https://www.llesiantgwyneddaron.org/cy/Amdanom/Amdanom-Ni/ • Bydd adroddiad blynyddol y BGC ar gyfer 21/22 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022 yn dilyn craffu gan y ddau Gyngor ac aelodau BGC. Mae'r adroddiad hwn yn nodi effaith y BGC ar les ein trigolion. • Mae'r iaith Gymraeg yn ran ganolog drwy holl waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Mae gallu byw eu 	<p>A1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae tîm cefnogi BGC yn cydnabod yr angen am Asesiadau Effaith Iaith (EqIA) a Chydraddoldeb ac fe'u defnyddir pan gyflwynir prosiectau i sylw'r BGC a fydd yn argymhell newid mewn polisi neu wasanaeth. Yn 2023, BGC Gwynedd a Môn oedd y cyntaf i dreialu'r templed EqIA newydd a gynhyrchwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSen) ar gyfer Cynllun Llesiant newydd 2023-28. Mae EqIA NWPSen yn gyfarpar amlbwrpas sy'n sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gydymffurfio â deddfwriaeth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac i ddangos ein bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol dan y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn cymryd camau priodol i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44: Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i ystyried effaith penderfyniadau strategol a pholisi ar yr iaith. • Mae proses EqIA NWPSen yn un barhaus nad yw'n dod i ben pan fydd y polisi/arfer yn cael ei gytuno a'i weithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith polisïau/arferion ar gydraddoldeb yn barhaus i nodi a yw'r canlyniadau wedi newid ers cyflwyno'r polisi neu arfer newydd. Yn unol â hynny, mae'r BGC yn adolygu'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r EqIA ac mae ganddo drefniadau i fonitro'r canlyniadau a sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i adolygu. • Defnyddiwyd gwaith y bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol sy'n ystyried ac yn archwilio'r holl opsiynau ar y sbectrwm o ymgynghori hyd at Gydgyhyrchu yn helaeth wrth ymgysylltu ac ymgynghori ar y Cynllun Llesiant yn ystod 2023. Yn ogystal, mae canfyddiadau'r gwaith helaeth a wnaed gan dimau Cydlyniant Cymunedol Gogledd Cymru gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru wedi'i anelu at y sefydliadau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda grwpiau lleiafrifol nad ydynt yn cael eu hystyried ddigon i gael sgwrs barhaus gyda'r cymunedau hyn ac i fwydo i mewn i'r cynllun Llesiant newydd. • Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wefan sy'n gweithredu dan yr enw: https://www.llesiantgwyneddaron.org Mae manylion a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd wedi'u cynnwys ar y wefan. • Cynlluniwyd gwaith ar Asesiadau Llesiant y BGC a'r Cynllun Llesiant yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a nodwyd cyfleoedd i wneud mwy o ddefnydd o wahanol sianeli cyfathrebu i
--	--	---	--

Dyfodol' gan Archwilydd Cyhoeddus Cymru i adolygu eu perfformiad presennol a nodi ble y mae angen iddynt gryfhau trefniadau a gweithgarwch trosolwg; a

- bod BGCau yn sicrhau bod pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n ddigonol ag ystod ehangach o randdeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddwyn BGCau i gyfrif.

A3 Yn Rhan 3 o'r adroddiad rydym yn crynhoi'r anhawster o ran datblygu BGCau, eu rhoi ar waith a darparu adnoddau ar eu cyfer a heriau rheoli partneriaethau lluosog sy'n aml yn gallu gorgyffwrdd â'i gilydd a dyblygu ei gilydd. I helpu i adeiladu capasiti, cysondeb a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymhell:

- bod BGCau yn cymryd y cyfle i gyflawni rhwymedigaethau mewn cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol;
- bod Llywodraeth Cymru yn galluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys:
 - cyfuno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol; a
 - rhoi hyblygrwydd i BGCau gael, rheoli a gwario arian grant ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu a systemau priodol ar waith i reoli cyllid; rheolaethau effeithiol ar gyllidebau a rhaglenni grantiau; a systemau adrodd wrth y cyhoedd, trosolwg a chraffu i reoli gwariant.

A4 Er mwyn helpu i feithrin capasiti, cysondeb a'r broses o ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn eu hadolygiad o bartneriaethau strategol yn ystyried, ac yn archwilio, canfyddiadau'r adolygiad hwn.

[Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion](#)

Gwella mynediad i'r drws blaen
A1 Mae Rhan 1 yr adroddiad yn nodi sut y mae awdurdodau yn hyrwyddo mynediad i'r 'drws blaen' ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i wella eu lles ac atal eu hanghenion rhag dirywio. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymhell y canlynol:

- awdurdodau lleol:

bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn Gymraeg yn bwysig i'n cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel dewis iaith cyfathrebu ymhlith sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir.

A2 Mae pob aelod etholedig yn cael cynnig hyfforddiant penodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n cynnwys dyletswyddau'r BGC a rolau a chyfrifoldebau pwyllgorau Sgriwtini.

Yn ystod 21/22, adolygwyd a diwygiwyd yr amserlenni Sgriwtini mewn perthynas â gwaith BGC i alinio â chyflawniadau allweddol BGC yn gynharach yn y broses. Bydd hyn yn sicrhau bod her ac argymhellion craffu yn fwy amserol ac yn cael mwy o effaith.

A3 • Mae Is-grŵp Iechyd a Gofal Gogledd Orllewin Cymru (a adwaenir fel arall fel y Bwrdd Gwasanaeth Integredig Ardal/AISB) yn gwasanaethu'r ardal yn dda i gydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gwrdd ag anghenion lleol. O dan lywodraethu BGC Gwynedd a Môn mae'n dilyn mandad "Cymru Iachach" Llywodraeth Cymru.

- Mae sawl enghraifft lle mae'r Bwrdd wedi blaenoriaethu gwaith lle mae angen adnoddau ariannol i'w gwireddu. Rydym wedi llwyddo i ddod i drefniant i gyd-ariannu nifer cyfyngedig o faterion, ond nid yw'n sefyllfa ddelfrydol gyda'r pwysau cynyddol ar gyllidebau ac mae hefyd yn golygu oedi cyn y gellir bwrw ymlaen â'r gwaith.

- Yn ystod 2022, mae BGC Gwynedd ac Ynys Môn wedi ymgysylltu'n rhagweithiol i gael mynediad at gyfleoedd a ariennir gan y gronfa BGC Rhanbarthol i wella ymhellach gwybodaeth, ymchwil ac ymgysylltiad cyhoeddus mewn perthynas â blaenoriaethau Llesiant. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys rhoi cyfleoedd i ddinasyddion lleol gymryd rhan mewn rheithgorau/paneli dinasyddion a mynd â gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ysgolion uwchradd a cheched dosbarth fel y gellir herio penderfyniadau a blaenoriaethau yn weithredol.

hysbysu ein dinasyddion am waith a wneir gan y BGC a'r cynnydd y mae'n ei wneud. Byddwn yn cynnal sesiynau tebyg i 'Dywedoch chi...gwnaethom ni...' i ddangos sut mae'r hyn mae ein dinasyddion wedi'i rannu gyda ni wedi cyfrannu at ein penderfyniadau (i ddechrau gyda grwpiau 3ydd sector, myfyrwyr coleg addysg bellach a fforymau pobl hŷn).

A2.

- Yn dilyn ymlaen o'r gwaith a gwblhawyd yn 21/22, lle cafodd amserlenni Craffu mewn perthynas â gwaith y BGC eu hadolygu a'u diwygio i gyd-fynd â chyflawniadau allweddol y BGC yn gynharach yn y broses. Mae hyn eisoes wedi sicrhau bod her ac argymhellion craffu yn fwy amserol ac yn cael mwy o effaith.

A3

- Yn ystod 2023, bu BGC Gwynedd a Môn yn llwyddiannus o ran cyflwyno cais am arian o'r Grant BGC Rhanbarthol i wella gwybodaeth, ymchwil ac ymgysylltiad cyhoeddus mewn perthynas â blaenoriaethau Llesiant. Yn ddiweddar, rydym wedi sicrhau cyllid dan y Grant Rhanbarthol i gynnal prosiect ar ran y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar y materion sy'n wynebu aelodau BGC wrth geisio recriwtio siaradwyr Cymraeg.

CANLYNIAD: CWBLHAWYD

Mae Gwasanaeth Teulu Môn bellach yn weithredol ac yn darparu un pwynt mynediad ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Mae hyn yn darparu gwasanaeth symlach a chadarn ac yn sicrhau bod gennym lwybr clir i mewn i'r gwasanaeth.

Mae gwaith wedi'i wneud i adolygu prosesau ac i safoni prosesau atgyfeirio.

- adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn 'argyfwng';

- gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy'n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i'w helpu;

- sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a'u cynnig yn rhagweithiol i'r rhai y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf; ac - ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynu a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol.

- Llywodraeth Cymru

- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gofalmwr o'u hawliau i gael eu hasesu ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain gyda'r nod o greu galw am wasanaethau ataliol yr awdurdodau lleol; a

- chynnal gwerthusiad llawn o swyddogaeth Dewis Cymru wrth roi'r Ddeddf ar waith yn ehangach a defnyddio'r data a geir i adeiladu ar ei botensial fel porth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn genedlaethol.

Buddsoddi mewn atal a deall effaith

A2 Mae Rhan 2 yr adroddiad yn tynnu sylw at wendidau o ran sicrwydd yr awdurdodau ynghylch ansawdd y gwasanaethau trydydd sector, ataliol a chymunedol y maent yn atgyfeirio pobl iddynt, ac i ba raddau y maent ar gael. Rydym yn argymhell y canlynol:

- awdurdodau lleol:

- mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau;
- cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg;
- gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir bylchau; a
- gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol

mynychu bob wythnos) c. mae angen inni werthuso lefel y galw a'r staffio yn y tymor byr, a oes gennym ddigon o gapasiti i ymdopi â'r galw a achosir gan yr argyfwng costau byw.

Wrth i'r gwasanaeth wreiddio rydym yn bwriadu edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu a chryfhau trefniadau i hidlo a chyfeirio cyfeiriadau yn y ffynhonnell.

ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol.

- Llywodraeth Cymru:
 - gwella'r gwerthusiad o gost mewn cysylltiad ag effaith y Ddeddf mewn cyd-destun cenedlaethol, a chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod yr effaith a ddymunir o ran atal gwariant cyffredinol ar ofal cymdeithasol yn dod yn wirionedd dangosol.

Tudalen 79

[Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru](#)

A1 Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio gan ddangos faint o her ydyw i awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn dewisiadau a phenderfyniadau. Er mwyn gwella'r modd y mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys a pherchnogaeth ar benderfyniadau rydym yn argymhell fel a ganlyn:

- bod awdurdodau cynllunio lleol:
 - yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben;
 - yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio; ac
 - yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar amseroedd priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal mewn ardaloedd y byddai datblygiadau arfaethedig yn digwydd ynddynt, gweddarlledu cyfarfodydd a darparu cyfleoedd i rhanddeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgorau.
- bod Llywodraeth Cymru:
 - yn adolygu Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 ac yn diweddarau'r safonau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

A2 Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu bod awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiadau sylweddol mewn cyllid a'u bod yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. I wella cydnerthedd, rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol:

- yn adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r

Aliniad sylweddol rhwng argymhelliad a sgôp / blaenoriaethau Cynllun Gwella Cynllunio CSYM.

Effaith sylweddol y pandemig Covid 19 ar berfformiad, capasiti a gwydnwch y Swyddogaeth Gynllunio.

Mae'r Swyddogaeth Gynllunio wedi wynebu arbedion / arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf – a gellir gweld eu heffaith yn glir yn awr.

Heriau parhaus mewn perthynas â chynnal capasiti a recriwtio swyddogion newydd / profiadol.

Mae'r Swyddogaeth eisoes yn cydweithio'n rhanbarthol mewn perthynas ag arbenigedd ym maes polisi cynllunio – rhagwelir y bydd cydweithio rhanbarthol pellach (h.y. paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol) yn creu heriau ychwanegol mewn perthynas â chapasiti, gallu a darparu adnoddau.

A2.

Mae gwaith ar adolygu ffioedd rheoli adeiladu yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae'r Awdurdod yn cydweithio'n rhanbarthol drwy Wasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Nid oes unrhyw drefniadau gwaith ffurfiol eraill yn eu lle ar hyn o bryd er y rhagwelir cydweithio rhanbarthol pellach wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol.

Mae'r effeithiau ar gapasiti ac adnoddau i'w pennu nes ymlaen.

Ystyrir bod y cynllun dirprwyo presennol yn ddigonol ac effeithiol yn hyn o beth.

Gellir monitro effeithiolrwydd y pwyllgor cynllunio ac adolygu'r cynllun dirprwyo os nodir meysydd o bryder lleol.

Ystyrir bod y templedi presennol yn ddigonol, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'r safonau y mae'n rhaid i aelodau a swyddogion gadw atynt.

Mae Adrannau 3 a 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy'r Ddeddf drwy eu cyfraniad at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol yn ceisio hyrwyddo a gwella llesiant ein cymunedau ac yn darparu fframwaith polisi cynllunio lleol ar gyfer cyflawni hyn.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd hefyd yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Bydd rhaglen hyfforddi ar Lesiant ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio yn cael ei rhoi ar waith.

gwasanaethau hyn ac yn gwneud y gwasanaeth yn hunangyllidol; ac

- yn gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i:
 - integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd;
 - datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd; a
 - datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill.

A3 Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu nad yw cost gwasanaethau rheoli datblygu'n cael ei hadlewyrchu yn y taliadau a godir am y gwasanaethau hyn a bod cynnydd i ddatblygu ymatebion rhanbarthol i gryfhau cydnerthedd wedi bod yn araf. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- yn adolygu ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn; ac
- yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau cynllunio lleol.

A4 Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol. Rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy:

- adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod;
- diwygio templedi adroddiadau i sicrhau eu bod yn eglur a diamwys i helpu i roi arweiniad mewn prosesau penderfynu a lleihau lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a
- gorfodi safonau ymddygiad awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd.

A5 Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi rôl ganolog cynllunio i gyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn argymhell bod awdurdodau cynllunio lleol:

Mae Adrannau 3 a 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi y dylid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy'r Ddeddf drwy eu cyfraniad at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

Mae'r Adroddiad Monitro Blyneddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyfredol yn darparu fframwaith monitro ac adrodd.

Bydd trefniadau monitro ac adrodd tebyg yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

- yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol eglur sy'n dangos sut y mae cynllunio'n cyfrannu at wella llesiant;
- yn darparu hyfforddiant a chymorth llesant rheolaidd a phriodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach;
- yn pennu mesurau priodol ar gyfer y modd y maent yn gweinyddu'r system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar lesiant; ac
- yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i ffurfio barn ynglŷn ag effaith awdurdodau cynllunio ar lesiant.

Tudalen 81

[Cwricwlwm newydd i Gymru](#)

Deall a chefnogi craffu ar gost diwygio'r cwricwlwm yn well

A1 - Nid yw wedi bod yn hawdd i Lywodraeth Cymru na ninnau nodi gwariant ar ddiwygio'r cwricwlwm hyd yma. Mae hyn yn rhannol oherwydd anawsterau wrth gyfrifo gwariant sy'n benodol i ddiwygio'r cwricwlwm yn hytrach nag elfennau eraill o'r rhaglen diwygio addysg, neu'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, y gallai rhai ohonynt fod o fudd i ddiwygio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae deall cost diwygio'r cwricwlwm yn hanfodol i gefnogi craffu a llywio unrhyw ystyriaeth o werth am arian. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd yn flynyddol ar gostau ei rhaglen diwygio'r cwricwlwm gan gynnwys costau i bartneriaid ac ysgolion. Wrth ddatblygu ac adrodd ar ei hamcangyfrif gorau, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried effaith unrhyw gasglu data ychwanegol ar ysgolion yn benodol. Gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen dysgu proffesiynol a chymorth i ysgolion

A2 - Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd ochr yn ochr â'i buddsoddiad ehangach yn nysgu proffesiynol athrawon. Mae hefyd wedi ariannu'r consortia addysg rhanbarthol a phartneriaethau i ddarparu cymorth pwrpasol i ysgolion. Cyhoeddodd yn ddiweddar hawl genedlaethol i ddysgu proffesiynol i bob athro a chynorthwydd addysgu. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod effeithiolrwydd a gwerth am arian ei buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon a staff ysgol eraill yn cael ei werthuso.

Mae mesur effaith dysgu proffesiynol yn faes gwaith y mae'r Awdurdod Lleol a chonsortia rhanbarthol yn canolbwyntio arno. Rydym fel awdurdod yn ymwybodol o geisio lleihau'r llwyth gwaith i ysgolion ac felly'n cytuno bod angen ystyried effaith unrhyw gasglu data ychwanegol ar ysgolion. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach am sut y gellir nodi costau diwygio'r cwricwlwm gan ein bod yn teimlo ei bod yn anodd ar hyn o bryd gwahanu costau diwygio'r cwricwlwm oddi wrth gostau rhedeg ysgolion.

Mae mesur effaith dysgu proffesiynol yn faes gwaith y mae'r Awdurdod Lleol a chonsortia rhanbarthol yn canolbwyntio arno. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach am sut y gellir nodi a gwerthuso costau diwygio'r cwricwlwm gan ein bod yn teimlo ei bod yn anodd ar hyn o bryd gwahanu costau diwygio'r cwricwlwm oddi wrth gostau rhedeg ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r consortia rhanbarthol lle cofnodir ymgysylltiad â dysgu proffesiynol. Bydd angen adolygu'r cynllun busnes er mwyn galluogi'r Awdurdod Lleol i gasglu'r wybodaeth ofynnol a bydd unrhyw gyfarfodydd chwarterol yn monitro'r cynnydd. Megis dechrau y mae datblygiad y cymhwyster newydd.

Ystyrir ymgysylltu yn fframwaith newydd Estyn ar gyfer arolygiadau ysgolion a bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu'r cynllun busnes i sicrhau ein bod yn casglu'r wybodaeth hon a bydd angen ei chynnwys fel pwnc i gynghorwyr ei drafod pan fyddant yn cael trafodaeth gyda'r disgyblion.

Mae fframwaith Gwella Ysgolion newydd a chanllawiau anstatudol wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei ffurfio'n rhanbarthol i gefnogi ysgolion ac Awdurdodau Lleol wrth i ganllawiau ddod yn statudol ar gyfer 2024-25.

Mae mesur effaith dysgu proffesiynol yn faes gwaith y mae'r Awdurdod Lleol a chonsortia rhanbarthol yn canolbwyntio arno. Rydym fel awdurdod yn ymwybodol o geisio lleihau'r llwyth gwaith i ysgolion ac felly'n cytuno bod angen ystyried effaith unrhyw waith casglu data ychwanegol ar ysgolion, yn enwedig lle na ellir ynysu'r effaith i un ymyriad penodol neu un a fydd yn berthnasol na fydd o reidrwydd yn datgelu ei effaith am nifer o flynyddoedd. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach am sut y gellir nodi costau diwygio'r cwricwlwm gan ein bod yn teimlo ei bod yn anodd gwahanu costau diwygio'r cwricwlwm oddi wrth gostau rhedeg ysgolion. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn symleiddio'r trefniadau ariannu o 2024-25, ac mae rhan o'i rhesymau dros wneud hynny yn ymwneud â'r angen i leihau'r baich biwrocraidd.

Mae mesur effaith dysgu proffesiynol yn faes gwaith y mae'r Awdurdod Lleol a chonsortia rhanbarthol yn canolbwyntio arno. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach am sut y gellir nodi a gwerthuso costau diwygio'r cwricwlwm gan ein bod yn teimlo ei bod yn anodd ar hyn o bryd gwahanu costau diwygio'r cwricwlwm oddi wrth gostau rhedeg ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r consortia rhanbarthol lle cofnodir ymgysylltiad â dysgu proffesiynol. Bydd angen adolygu'r Cynllun Busnes i alluogi'r Awdurdod Lleol i gasglu'r wybodaeth ofynnol a bydd unrhyw gyfarfodydd chwarterol yn monitro'r cynnydd. Megis dechrau y mae datblygiad y cymhwyster newydd.

Ystyrir Ymgysylltu â Dysgwyr yn fframwaith newydd Estyn ar gyfer arolygiadau ysgolion, a bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu'r Cynllun Busnes i sicrhau ein bod yn casglu'r wybodaeth hon. Mae Sesiwn Graffu ar gyfer Aelodau Etholedig wedi'i threfnu lle byddant yn trafod Ymgysylltu â Dysgwyr/Llais y Disgybl ac mae Fforwm Plant a Phobl Ifanc wedi'i drefnu ar gyfer 20 Ionawr 2024.

Dylunio a gweithredu cymwysterau newydd sy'n cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm newydd

A3 - Mae Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru yn gwybod bod angen i gymwysterau newid i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithio gydag ysgolion, addysg bellach ac uwch ac eraill i gyd-ddylunio'r cymwysterau TGAU newydd ac, o ganlyniad, cymwysterau eraill. Nid yw manylion y cymwysterau a'r ffurfiau asesu wedi'u penderfynu eto. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i:

- monitro cyfranogiad athrawon a dysgwyr wrth ddatblygu'r cymwysterau newydd.
- cynllunio rhaglen ddysgu broffesiynol genedlaethol effeithiol a fydd yn cefnogi athrawon i gyflwyno'r cymwysterau newydd; a
- asesu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer dysgu proffesiynol ar gyfer y cymwysterau newydd ac unrhyw newidiadau i'r broses asesu, gan gynnwys unrhyw rôl fwy ar gyfer asesiadau athrawon a/neu dechnoleg ddigidol.

Gwerthuso effeithiolrwydd ymgysylltiad ysgolion â rhieni, gofalwyr a dysgwyr

A4 - Effaith gadarnhaol y pandemig fu cryfhau ymgysylltiad rhwng ysgolion a theuluoedd mewn llawer o achosion. Bydd yn ofynnol i ysgolion ymgysylltu â rhieni a gofalwyr am y cwricwla. Dylai rhieni, gofalwyr a dysgwyr allu cymryd rhan yn y gwaith o werthuso a gwella ysgolion. Mae hyn ar y gweill mewn rhai ysgolion. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni, gofalwyr a dysgwyr ac yn gwerthuso pa mor dda y mae ysgolion yn gwneud hyn i gefnogi gwelliant.

Sefydlu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer dealltwriaeth gyflawn o weithgareddau a chanlyniadau ysgolion

A5 - Mae gwaith i gefnogi dull cenedlaethol o hunanwerthuso i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn academiaidd 2021/22. Mae llai

Mae fframwaith Gwella Ysgolion newydd a chanllawiau anstatudol wedi'u cyhoeddi gan LIC. Grŵp gorchwyl a gorffen i'w ffurfio'n rhanbarthol i gefnogi ysgolion ac Awdurdodau Lleol wrth i ganllawiau ddod yn statudol ar gyfer 2024-25.

Mae fframwaith Gwella Ysgolion newydd a chanllawiau anstatudol wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grŵp tasg a gorffen wedi gweithio ar draws y rhanbarth i baratoi ar gyfer y cyflwyniad statudol arfaethedig ym mis Medi 2024. Mae ysgolion a Swyddogion ALI perthnasol yn ymwybodol o'r fframwaith atebolrwydd newydd, er y disgwylir ymgynghoriad arall a chanllawiau pellach yn ystod gwanwyn 2024. Mae sesiwn i Lywodraethwr hefyd wedi'i threfnu ar y cyd rhwng Swyddogion yr Awdurdod Lleol a GwE ym ar gyfer mis Mawrth 2024, a nifer o sesiynau briffio wedi'u cyhoeddi drwy'r Bwletin Llywodraethwyr. Mae ysgolion hefyd yn cael eu paratoi drwy eu Cyngorydd Gwella Ysgolion.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru i drafod y Canllawiau Gwella Ysgolion, yn ogystal â ffurfio eco-system wybodaeth newydd i ysgolion ei defnyddio. Rhagwelir y bydd gwybodaeth bellach yn cael ei datgelu yn ddiweddarach eleni. Yn y cyfamser, mae Aelodau Etholedig a Llywodraethwyr Ysgol wedi cael eu briffio o'r gofynion atebolrwydd newydd. Mae rhagor o wybodaeth/sesiynau cymorth wedi'u cynllunio i gynorthwyo gyda hyn.

o eglurder ynghylch y broses ar gyfer atebolrwydd a thryloywder democrataidd, gan gynnwys pa wybodaeth a fydd ar gael i lywodraethwyr, awdurdodau lleol neu esgobaethol, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- a) yn sefydlu pa wybodaeth sydd ei hangen ar y rhai sy'n gyfrifol am ddwyn ysgolion i gyfrif fel rhan o ymagwedd newydd at atebolrwydd; a
- b) yn nodi manylion ar sut y bydd yn sicrhau tryloywder i rieni, dysgwyr a'r cyhoedd.

Sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn parhau i fod yn addas i bwrpas

A6 - Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn cyflwyno gofyniad i Weinidogion barhau i adolygu'r cwricwlwm newydd. Nid yw'n nodi'r mecanwaith ar gyfer adolygiad cylchol. Rydym yn argymhell, unwaith y bydd y garreg filltir o addysgu'r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf wedi'i chyflawni, bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu adolygu'r cwricwlwm yn barhaus er mwyn sicrhau y gall ymsefydlu ac eto aros yn addas i bwrpas.

Tudalen 83

[Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion](#)

Yn Rhan 1 rydym yn nodi sut mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o Daliadau Uniongyrchol (paragraffau 1.2 i 1.7). Er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod am Daliadau Uniongyrchol, sut i gael mynediad at y gwasanaethau hyn ac yn cael eu hannog i fanteisio arnynt, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn:

A1 - Adolygu gwybodaeth gyhoeddus mewn trafodaeth â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i sicrhau ei bod yn glir, yn gryno ac yn esbonio'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.

A2 - Ymgymryd â gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i fanteisio ar Daliadau Uniongyrchol.

